

CABINET

CYNGOR GWYNEDD

DYDDIAD	Dydd Mawrth, 27ain Gorffennaf, 2021
AMSER	1.00 y.h.
LLEOLIAD	Cyfarfod Rhithiol - i gael mynediad dilynwch y linc https://gwynedd-public-tv/core/portal/webcast_interactive/588927
PWYNT CYSWLLT	Annes Siôn 01286 679490/ cabinet@gwynedd.llyw.cymru

AELODAU CABINET CYNGOR GWYNEDD

Aelodau	
Dyfrig L. Siencyn	Arweinydd
Dafydd Meurig	Dirprwy Arweinydd, Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant
Craig ab Iago	Aelod Cabinet Tai
Gareth Wyn Griffith	Aelod Cabinet Amgylchedd
Nia Wyn Jeffreys	Aelod Cabinet dros Gefnogaeth Gorfforaethol
Dilwyn Morgan	Aelod Cabinet Plant a Phobl Ifanc
Gareth Thomas	Aelod Cabinet Datblygu'r Economi a Chymuned
Ioan Thomas	Aelod Cabinet Cyllid
Catrin Wager	Aelod Cabinet Prifffyrdd a Bwrdeistrefol
Cemlyn Rees Williams	Aelod Cabinet Addysg

RHAGLEN

	Eitem	Cyflwynir gan	Swyddog	Tud.
1	YMDDIHEURIADAU			
2	DATGAN BUDDIANT PERSONOL			
3	MATERION BRYD			
4	MATERION YN CODI O DROSOLWG A CHRAFFU			
5	COFNODION CYAFARFOD A GYNHALIWDYD AR 6 GORFFENNAF 2021			4 - 11
6	DEDDF LLYWODRAETH LEOL AC ETHOLIADAU (CYMRU) 2021 - CAIS AM ADNODDAU I ALLUOGI MYNYCHU CYFARFODYDD O BELL	Cyng. Nia Jeffreys and Cyng. Ioan Thomas	Geraint Owen	12 - 15
7	UNED 2A PARC BUSNES ERYRI, PENRHYNDEUDRAETH	Cyng. Nia Jeffreys	Geraint Owen	16 - 18
8	CYNLLUN STRATEGOL Y GYMRAEG MEWN ADDYSG 2022-2032	Cyng. Cemlyn Williams	Rhian Parry Jones	19 - 57
9	ADRODDIAD BLYNYDDOL BWRDD PARTNERIAETH RHANBARTHOL GOGLEDD CYMRU	Cyng. Dafydd Meurig	Morwena Edwards	58 - 80
10	GORCHYMYN DIOGELU MANNAU CYHOEDDUS : RHEOLI CŴN	Cyng. Catrin Wager	Steffan Jones	81 - 151

Y CABINET DYDD MAWRTH, 6 GORFFENNAF 2021

Yn bresennol-

Y Cynghorwyr: Dyfrig Siencyn, Dafydd Meurig, Craig ab Iago, Gareth Griffith, Nia Jeffreys, Dilwyn Morgan, Ioan Thomas, Gareth Thomas, Catrin Wager a Cemlyn Williams.

Hefyd yn bresennol-

Morwena Edwards (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Iwan Evans (Pennaeth Cyfreithiol), Dewi Morgan (Pennaeth Cynorthwyol Cyllid – Refeniw a Risg), ac Annes Siôn (Arweinydd Tîm Democratiaeth).

Eitem 6, 7 a 8: Geraint Owen (Pennaeth Adran Cefnogaeth Gorfforaethol) a Delyth Gadlys Williams (Ymgynghorydd Cydraddoldeb)

Eitem 9 a 10: Garem Jackson (Pennaeth Adran Addysg), Debbie Anne Williams Jones (Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol Addysg), Owen Owens (Uwch Reolwr Ysgolion)

Eitem 12: Aled Davies (Pennaeth Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant).

1. YMDDIHEURIADAU

Croesawyd Aelodau'r Cabinet a Swyddogion i'r cyfarfod.

Derbyniwyd ymddiheuriad gan Dafydd Gibbard, Prif Weithredwr.

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyniwyd datganiad o fuddiant gan y Cynghorwyr – Dyfrig Siencyn, Craig ab Iago, Nia Jeffreys, Gareth Thomas, Ioan Thomas a Catrin Wager ar gyfer eitem 10 – Pris Cinio Ysgolion Cynradd, Arbennig a Dilydol Medi 2021 gan fod ganddynt blant neu wyrion mewn ysgolion cynradd o fewn y Sir.

3. MATERION BRYG

Nid oedd unrhyw faterion bryg.

4. MATERION YN CODI O DROSOLWG A CHRAFFU

Nid oedd unrhyw fater yn codi o drosolwg a chraffu.

5. COFNODION CYAFARFOD A GYNHALIWYD AR 15 MAI 2021

Bu i'r Cadeirydd dderbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Mehefin 2021 fel rhai cywir.

6. ADRODDIAD BLYNYDDOL 2020-21, CYNLLUN CYDRADDOLDEB STRATEGOL 2020-24

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Nia Jeffreys.

PENDERFYNIAD

Cymeradwywyd a nodwyd cynnwys Adroddiad Blynyddol 2020-21, Cynllun Cydraddoldeb 2020-24.

TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi ei fod yn Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2020-21 ar gyfer Cynllun Cydraddoldeb 2020-24. Eglurwyd fod yr adroddiad ar gyfer blwyddyn anarferol ac anodd o ganlyniad i'r pandemig ble roedd yr angen newid y ffordd o weithio a ble amlygwyd anghydraddoldeb yng Ngwynedd. Pwysleisiwyd fod yr pandemig wedi bod yn waeth i rai unigolion a bod effaith wedi bod yn fwy amlwg i bobl o leiafrifoedd ethnig. Tynnwyd sylw ar y protestiadau sydd wedi cael eu cynnal gan gynnwys rhai gan y mudiad Black Lives Matter yn ystod llynedd.

Nodwyd fod y gwasanaeth wedi cyflawni beth oedd wedi ei obeithio o fewn y flwyddyn er bod amserlen wedi ei addasu a dull gweithio wedi newid. Amlygwyd fod addasiadau i'r pum amcan ac amlygwyd y pum amcan. Eglurwyd y bydd angen ail edrych ar amcanion a'i haddasu yn ôl yr angen yn dilyn y pandemig. Pwysleisiwyd fod cydraddoldeb yn ddyletswydd i bawb o fewn y Cyngor a bod angen gwreiddio'r egwyddorion yng ngwaith bob dydd y Cyngor. Mynegwyd balchder yn y cynllun a nodwyd hyder i wneud mwy 'na dim ond ticio'r bocs. Amlygwyd boddhad o yrru'r gwaith hwn yn ei flaen.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Tynnwyd sylw ar amcan 3 : Adeiladu ar y gwaith sydd wedi ei wneud yn barod i wreiddio Asesiadau Effaith Cydraddoldeb fel arf i sicrhau gwell penderfyniadau gan nodi'r angen i edrych ar yr asesiadau sydd yn cael eu gwneud gan hyfforddi staff a Chynghorwyr i herio'r asesiadau yn ogystal.
- Nodwyd balchder yn yr adroddiad ynghyd a gwaith y Cyngor.
- Amlygwyd fod rhai newidiadau bellach yn cael eu gweld yn benodol yn ein meysydd gwrywaidd fod mwy o ferched yn camu i mewn i rolau a fydd yn annog mwy o ferched i'r dyfodol.
- Pwysleisiwyd fod yr adroddiad yn hawdd i'w ddarllen a bod cydraddoldeb wedi gwreiddio yn sydyn i mewn i benderfyniadau'r Cyngor.
- Diolchwyd i'r Aelod Cabinet am ei arweiniad yn y flwyddyn ac amlygwyd fod y pandemig wedi amlygu cydraddoldeb a bod angen parhau i feddwl am gydraddoldeb wrth symud ymlaen. *ity moving forward.*

7. POLISI CYDRADDOLDEB A CHYNHWYSIANT

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Nia Jeffreys

PENDERFYNIAD

Cymeradwywyd y Polisi Cydraddoldeb a Chynhwysiant.

TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod y polisi yn gosod egwyddorion i sicrhau cydraddoldeb ar draws y Cyngor. Eglurwyd fod y Polisi hwn yn cymryd lle'r Polisi Cydraddoldeb / Cyfle Cyfartal a'r Polisi Mynediad sydd bellach wedi dyddio. Pwysleisiwyd nad yw'n orfodol i gael polisi ond ei fod yn rhoi arweiniad ar sut bydd y Cyngor yn sicrhau fod cymaint o bobl a phosib yn cael mynediad llawn at wasanaethau'r Cyngor a hynny gyda pharch ac urddas. Eglurwyd y bydd y polisi yn cael gwared o unrhyw rwystrau i unigolion cyn meddwl am gael gwasanaeth.

Esboniwyd fod y Polisi, yn unol â Ddeddf Cydraddoldeb 2010, yn rhoi arweiniad ar sut i roi sylw i ddiddymu gwahaniaethau a bod y Cyngor yn gweithio i feithrin cyfleoedd cyfartal.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Mynegwyd fod y gwaith mae'r Aelod Cabinet yn ei wneud yn sicrhau fod cydraddoldeb ar frig yr agenda ac yn sail ac yn rhan o bopeth mae'r Cyngor yn wneud.

8. DEDDF LLYWODRAETH LEOL AC ETHOLIADAU (CYMRU) 2021

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Nia Jeffreys

PENDERFYNIAD

Mabwysiadwyd trefniadau a'r Protocol ar gyfer parhau i gyfarfod yn rhithiol hyn eu hadolygir yn unol â'r adroddiad.

TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod Adran 47 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn sefydlu trefniadau i ganiatáu i aelodau fynychu o bell. Eglurwyd fod yr adroddiad hwn yn amlygu'r trefniadau rhithiol y Cabinet o ran mynychu o bell.

Tynnwyd sylw fod yr adroddiad yn amlygu mynediad i'r cyhoedd, addasiadau i'r cyfansoddiad ynghyd â chydymffurfio gyda'r Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Amlygwyd yn y cyfnod interim y bydd y Cabinet yn parhau i gynnal cyfarfod rhithiol yn unig o fis Mai 2021 ymlaen oni nodir yn wahanol. Eglurwyd fod gwaith i ddatblygu trefniadau i gynnal cyfarfodydd hybrid yn parhau ac y bydd y sefyllfa yn cael ei adolygu yn gyson.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Nodwyd yr angen i fynychu o bell wedi bod yn hanfodol eleni, ac wedi

lleihau amser teithio ynghyd a mireinio'r gwe ddarlledu i sicrhau fod y cyhoedd yn gallu gweld y penderfyniadau sydd yn cael eu gwneud.

- Mynegwyd y trefniadau yma yn adlewyrchu'r realiti ar hyn o bryd a sut y bydd cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn y dyfodol. Pwysleisiwyd o ran cyfarfodydd hybrid y bydd angen gweld sut mae'n gweithio.
- Pwysleisiwyd mai penderfyniad yr aelodau fydd y drefn pwyllgorau i'r dyfodol ond fod golwg ar hyn o bryd i ddarparu opsiwn hybrid erbyn yr Hydref.
- Nodwyd manteision o gael cyfarfodydd wyneb i wyneb ond fod budd o fod rhwydd, effeithiol ac yn torri i lawr ar deithio a drwy hyn yn edrych ar ôl yr amgylchedd.

9. CYFUNDREFN ADDYSG DROCHI TUA AT 2032 A THU HWNT

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Cemlyn Williams

PENDERFYNIAD

Cymeradwywyd gweledigaeth "Cyfundrefn Addysg Drochi tuag at 2032 a thu hwnt", ynghyd a'i weithredu, i fuddsoddi £1.1 miliwn o arian cyfalaf addysg Gymraeg Llywodraeth Cymru i sefydlu safleoedd addysg drochi o'r newydd yn Nhywyn a Bangor, ynghyd â gwella'r cyfleusterau presennol ym Mhorthmadog yn unol â'r adroddiad.

TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi pleser yn cyflwyno'r weledigaeth. Eglurwyd fod Canolfannau Iaith wedi bod mewn bodolaeth ers yr 1980au yng Ngwynedd a'u bod yn arloesol yn ôl yr adeg honno. Pwysleisiwyd fod y weledigaeth sydd yn cael ei chyflwyno heddiw'r un mor arloesol ac yn adeiladau ar waith da'r Canolfannau. Tynnwyd sylw i fygythiad cyllidol oedd i'w gweld dwy flynedd yn ôl, ond fod cyfnod y pandemig wedi bod yn gyfle i ail edrych ar y ddarpariaeth.

Eglurwyd fod gofyn heddiw i'r Cabinet fuddsoddi £1.1miliwn i ehangu ar safleoedd ym Mangor ac yn Nhywyn. Pwysleisiwyd fod y weledigaeth yn amlygu darpariaeth gyfoes a hyblyg. Mynegwyd fod y Gyfundrefn wedi bod yn y Pwyllgor Iaith ac yn y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi a bod cefnogaeth unfrydol ganddynt. Nodwyd fod cyfarfod wedi ei gynnal gyda'r Gweinidog Addysg Newydd a bod y Gweinidog wedi uniaethu gyda'r cynllun ac yn awyddus i genhadu'r gwaith da sydd yn cael ei wneud yma yng Ngwynedd. Pwysleisiwyd ei bod yn galonogol fod cefnogaeth i'r Cynllun.

Ychwanegodd y Pennaeth Addysg fod ychwanegu dau leoliad newydd ar gyfer y Canolfannau Iaith yn hynod gyffroes. Nodwyd fod y flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn llwyddiannus a bod y gwasanaeth ei wedi ei ail bwrpasu gan nad oedd modd cyfarfod wyneb yn wyneb. Eglurwyd fod yr ail bwrpasu wedi sicrhau fod mwy o blant wedi cael cefnogaeth gan nodi fod hyn wedi amlygu fod technoleg yn allweddol i'r dyfodol. Tynnwyd sylw fod y model newydd yn edrych yn debyg i'r model Ysgol Ganol gyda phlant blwyddyn 5 i flwyddyn 9 yn cael ei addysgu

gyda'i gilydd. Pwysleisiwyd yn ogystal fod lles plant yn ganolog gyda'r model newydd yn sicrhau fod plant yn mynychu eu hysgol ddiwrnod yr wythnos fel eu bod yn parhau i ddatblygu perthynas gyda'r cyfoedion.

Nododd y Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol Addysg fod anghenion y dysgwyr yn gwbl ganolog i'r gyfundrefn ynghyd a chodi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd addysg Gymraeg. Eglurwyd y bydd y gyfundrefn newydd yn gweithio mewn partneriaeth gyda'r ysgolion i gyd-ddarparu. Pwysleisiwyd fod y diwrnod yn yr ysgol i ddisgyblion o fewn y gyfundrefn drochi yn gyfle i'r disgyblion ymdoddi n ôl i'r ysgol ar ôl y cyfnod drochi. Diolchwyd i bawb am fod yn rhan o'r drafodaeth gan gynnwys y dysgwyr eu hunain.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth:

- Diolchwyd i'r adran am eu gwaith yn arwain y gwaith ar draws Gwynedd a nodwyd os siroedd eraill yn dilyn bydd angen gofyn i'r Llywodraeth i'w ariannu gan fod angen yr ymrwymiad er mwyn cynnal y gwariant. Holwyd beth a fydd yn digwydd o ran y staff, nodwyd fod mwy o ganolfannau yn golygu'r agen am fwy o staff felly y bydd cynnydd ac nid dirywiad.
- Datganwyd pryder am y grantiau sydd yn talu am y gwaith gan fod Gwynedd yr awdurdod sydd yn cael y canran uchaf o'r arian yn rhanbarthol, a eglurwyd fod angen i'r arian gael ei ariannu i'r awdurdod yn benodol ac nid yn rhanbarthol.
- Croesawyd y buddsoddiad ac yn benodol ym Mangor gan fod y ddemograffeg yn wahanol i weddill y sir. Holwyd o ran amser yn yr ysgol yn ogystal holwyd pam un diwrnod yr wythnos a gofynnwyd a'r buasai modd ei gynyddu i ddau. Eglurwyd fod angen cydbwysedd ac os yn mynd i 3 diwrnod o drochi ac deuddydd yn yr ysgol y buasai ddim yn rhoi digon o amser i drochi. Eglurwyd yn ogystal fod y cwrs wedi ei gwtogi yn ogystal.
- O ran ariannu'r gyfundrefn, nodwyd fod tair ffynhonnell arian, a holwyd os oes trafodaeth wedi ei gynnal gyda'r ysgolion er mwyn perchnogi a chyfrannu at y gyfundrefn. Nodwyd fod trafodaeth wedi ei gynnal yn y Fforwm Cyllideb Ysgol a'r Fforwm Penaethiaid a bod cefnogaeth gan nad yw'r swm yn uchel ni fydd effaith fawr ar yr ysgolion yn unigol.
- Holwyd os oes lleoliadau penodol wedi pennu ar gyfer y safleoedd newydd yn Nhywyn a Bangor. Nodwyd fod lleoliad wedi ei adnabod ar safle Ysgol Tywyn a bod trafodaeth yn cael ei gynnal ar hyn o bryd gydag Ysgolion Bangor. Eglurwyd fod lleoliad o fewn prif adeilad Ysgol Eifionydd ar gyfer y datblygiadau ym Mhorthmadog ac y bydd hyn yn sicrhau fod yr addysg drochi yn fwy o ran yn yr ysgol yn hytrach na Chaban ar y cyrion.

10. PRIS CINIO YSGOLION CYNRADD, ARBENNIG A DILYNOL MEDI 2021

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Cemlyn Williams

PENDERFYNIAD

Cytunwyd i beidio cynyddu pris cinio Ysgol mewn Ysgolion Cynradd, Arbennig a

Dilynol ym Medi 2021.

TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi eu bod yn gofyn am ganiatâd i beidio codi pris cinio ysgol ym Medi 2021. Nodwyd yn flynyddol fod targed incwm ysgolion yn codi yn unol â chwyddiant. Cymharwyd y sefyllfa gyda siroedd eraill yng Nghymru a nodwyd os yn codi bydd Gwynedd yn y siroedd uchaf o ran pris cinio ysgol.

Nodwyd y bydd bwlch ariannol ac y bydd angen i'r cyfarch y bwlch hwn. Nododd Pennaeth Cynorthwyol – Refeniw a Risg fod y posibilrwydd o beidio cynyddu pris cinio wedi ei gyfarch wrth osod cyllideb y flwyddyn.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Nodwyd fod y swm hwn yn un bychan ond yn rhan bwysig o gefnogi teuluoedd bregus.
- Eglurwyd fod nifer o deuluoedd wedi cael amser caled eleni ac efallai ddim yn gymwys i gael cinio am ddim ac felly fod angen gwneud y mwyaf i gefnogi teuluoedd ac i gadw'r pris mor isel â phosib.

11. ADRODDIAD PERFFORMIAD YR AELOD CABINET DROS BLANT A CEFNOGI TEULUOEDD

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Dilwyn Morgan

PENDERFYNIAD

Nodi a derbyn y wybodaeth yn yr adroddiad.

TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod yr adran o flaen y gad gyda'r drefn herio perfformiad newydd. Eglurwyd fod yr amserlen wedi bod yn gwbl heriol ond diolchwyd i'r swyddogion am eu mewnbwn. Mynegwyd fod yr adran wedi sicrhau fod gwaith yn mynd yn ei blaen a bod sgysiau cyson am y mesurau. Ychwanegwyd fod blaenoriaethu gwellaf bellach yn sail i'r gofrestr risg.

Tynnwyd sylw at y prosiectau sydd yng Nghynllun y Cyngor gan nodi fod y gwaith yn symud ymlaen gyda'r Strategaeth Cadw Teuluoedd gyda'i Gilydd fel y rhagwelwyd. Ychwanegwyd y bydd yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet yn fuan. O ran cefnogi Llesiant Pobl eglurwyd ei bod wedi bod yn anodd dros y cyfnod pandemig ond fod gwaith wedi ailgydio bellach i ganolbwyntio ar ymateb i heriau a sgil effeithiau'r pandemig. Eglurwyd o ran sicrhau fod teuluoedd â phlant gydag awtistiaeth yn cael mynediad i'r gefnogaeth sydd ei arnynt bellach wedi tynnu Cynllun Awtistiaeth drafft ynghyd a nodwyd pryder gyda'r rhestr aros am asesiadau.

O ran pryderon yr adran mynegwyd fod capasiti y gweithlu yn flaenoriaeth gyda diffyg niferoedd o weithwyr cymdeithasol. Pwysleisiwyd yn ogystal fod pryder ynghylch y system wybodaeth WCCIS sy'n dal cofnodion achosion teuluoedd yr adran, gan egluro fod y mater yn cael ei drafod ar lefel genedlaethol. O ran mesurau nododd yr Aelod Cabinet ei fod yn gwbl hapus gyda pherfformiad yr adran yn benodol fod 45% o'r plant sy'n agored i'r adran yn byw gyda rheini / teulu neu ffrindiau sy'n cyd-fynd ar un o brosiectau blaenoriaeth yr adran.

Nodwyd fod yr adran yn edrych ar gadw o fewn y gyllideb eleni ond pwysleisiwyd nad oedd yr adran yn ymwybodol o bwy fydd angen cefnogaeth yn ystod y flwyddyn.

Ychwanegodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol fod nifer o swyddogion yn teimlo'r pwysau o ganlyniad i capasiti'r adran. Ychwanegwyd fod niferoedd o blant yn aros adref neu gyda theulu neu ffrindiau yn golygu llai o angen am leoliadau.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth:

- Diolchwyd am yr adroddiad gan groesawu datblygu strategaeth Awtistiaeth gan fod heriau i'w gweld yn amlwg gyda'r rhestrau aros ar yr effaith cymdeithasol ac iechyd meddwl sydd i'r bobl ifanc yma. Amlygwyd yr angen i sicrhau cydraddoldeb a chefnogaeth gyfartal i'r unigolion.
- Diolchwyd am yr adroddiad gan nodi fod yn amlygu gwaith dydd i ddydd y Cyngor a nodwyd llongyfarchiadau i'r adran am eu gwaith.

12. ADRODDIAD PERFFORMIAD YR AELOD CABINET DROS OEDOLION, IECHYD A LLESIANT

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Dafydd Meurig

PENDERFYNIAD

Nodi a derbyn y wybodaeth yn yr adroddiad.

TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod y pandemig wedi taflu llawer o heriau tuag at yr adran a bellach ei bod yn braf gallu eistedd ac edrych ar ble mae'r adran arni o ran eu gwaith pellach. Tynnwyd sylw at y cynlluniau yng nghynllun y Cyngor.

Yn gyntaf amlygwyd fod cynllun Darpariaeth Gofal Addas a Chynaliadwy yn parhau i fynd yn ei blaen ac amlygwyd yr angen am gartrefi nyrsio yn Llyn. Eglurwyd fod cynlluniau ar y gweill ar gyfer Safle Penrhos. Yr ail gynllun oedd Ail Ddylunio eu Gwasanaethau Gofal. Pwysleisiwyd fod y gwaith yn mynd rhagddo er mwyn creu Gwasanaeth hyblyg wedi ei deilwra i unigolion ac edrych ar sut y bydd modd cynorthwyo unigolion i barhau adref gymaint â phosib. Y trydydd oedd Gweithlu a Recriwtio yn y maes Gofal ag eglurwyd fod gwaith yn parhau gyda'r cynllun hwn sydd yn her gyson i'r adran. Tynnwyd sylw at lwyddiannau sydd wedi ei gweld yn Nhywyn drwy addasu patrymau gwaith gan sicrhau oriau

mwy sefydlog i unigolion sydd wedi arwain at lai o drosiant staff a Gwasanaeth gwell i unigolion.

Nodwyd o ran perfformiad fod symudiad ar droed i ddefnyddio system i edrych yn fwy cyson ar y mesurau. Mynegwyd er ei bod yn gynnar yn y flwyddyn ariannol nodwyd os bydd lithriad yn rhai cynlluniau arbedon bydd yr adran yn edrych ar y cynlluniau ac yn chwilio am gynlluniau amgen.

Ychwanegodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol fod yr adran wedi bod yn gweithio ar gynllun integredig gyda'r Bwrdd Iechyd. Eglurwyd nad yw hi wedi bod yn hawdd er yr awydd i weithio gyda'i gilydd ynghyd a rhannu'r un weledigaeth. Mynegwyd fod trafodaeth wedi bod gyda Phrif Weithredwr y Bwrdd Iechyd a eglurwyd ei bod yn gefnogol iawn i'r cynllun ac os yn dangos canlyniadau gwell i staff fwrw ymlaen gyda'r gwaith. Diolchwyd i'r staff am eu holl waith dros y flwyddyn ddiwethaf ac mae'r cyfnod wedi amlygu ffyrdd i weithio i'r dyfodol.

Sylwadau yn codi o'r drafodaeth

- Diolchwyd i'r staff rheng flaen am ei gwaith dros y misoedd diwethaf.
- Mynegwyd o ran lles trigolion fod derbyn Gwasanaeth drwy'r Gymraeg yn holl bwysig, a holwyd faint o bwyslais sydd i'r Gymraeg wrth recriwtio. Eglurwyd fod recriwtio yn her barhaus ond eglurwyd fod penodi staff iaith Gymraeg yn rhai rhannau o'r sir yn fwy o her. Nodwyd yn ogystal fod nifer o staff di-gymraeg yn ymgeisio am swyddi yn codi, gan bwysleisio eu bod yn unigolion gyda'r awydd i ddysgu'r iaith ac yn gyffroes am y ffordd newydd mae'r adran yn gweithio.

Dechreuodd y cyfarfod am 1.00 y.h. a daeth i ben am 2.50 y.h.

CADEIRYDD

CABINET CYNGOR GWYNEDD

Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

Dyddiad y cyfarfod:	27ain Gorffennaf, 2021
Aelodau Cabinet:	Y Cyngorwyr Nia Jeffreys ac Ioan Thomas
Swyddog Cyswllt:	Geraint Owen/ Dafydd Edwards
Rhif Ffon Cyswllt:	32335
Teitl yr Eitem:	Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 – cais am adnoddau i alluogi mynychu cyfarfodydd o bell

1. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

Fod y Cabinet yn parhau i gefnogi trefniadau'r Cyngor i alluogi cyfarfodydd hybrid a mynediad o bell i gyfarfodydd yn unol â gofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 trwy briodoli cyfanswm o £130,000 ar gyfer ariannu'r cynlluniau yn unol a'r hyn a nodir yn yr adroddiad.

2. CEFNDIR A'R RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

- Adroddwyd ar ofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 i gyfarfod y Cabinet ar 6ed o Orffennaf, 2021 ac i gyfarfod y Cyngor Llawn ar 8fed o Orffennaf, 2021. Mabwysiadwyd trefniadau dros dro ar gyfer cynnal cyfarfodydd y Cabinet ac ar gyfer cynnal pwyllgorau'r Cyngor yn sgil yr adroddiadau hyn.
- Fel rhan o'r trefniadau rydym yn parhau i gynnal cyfarfodydd rhithiol yn unig ar hyn o bryd.
- Adroddwyd y gall cyfarfodydd i'r dyfodol fod yn llwyr drwy drefniadau rhithiol neu yn gyfuniad o gyfarfod sydd yn cael ei gynnal mewn lleoliad gyda rhai yn mynychu o bell. Mae gofynion y deddf yn glir y bydd yn rhaid sicrhau fod modd i'r rhai sydd yn cymryd rhan fynychu o bell. Mae'r term "hybrid" yn cael ei ddefnyddio ar gyfer disgrifio cyfarfodydd sydd yn cael eu cynnal yn y modd yma.
- Mae gwaith prosiect penodol wedi ei sefydlu i yrru'r datblygiadau angenrheidiol i'r dechnoleg er mwyn cynnig cyfarfodydd hybrid. Bydd yn angenrheidiol sicrhau bod y ddarpariaeth yn dechnegol rhwydd i'w ddefnyddio er mwyn caniatáu mynediad o bell yn hwylus, yn ogystal ag ateb gofynion mynediad i'r cyhoedd a'r wasg, a'r gofynion pellach sy'n debygol o ddod yn sgil y Ddeddf ar gyfer gwe-ddarlledu. Yn naturiol, byddwn yn ystyried materion ymarferol fel gofynion dwyieithrwydd, pleidleisio, gwe ddarlledu ayyb fel rhan o'r gwaith.

3. RHESYMEG A CHYFIAWNHAD DROS ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

- Bu'r Cyngor yn llwyddiannus yn sicrhau cyllid o'r Gronfa Democratiaeth Ddigidol gan Lywodraeth Cymru i ddatblygu'r ddarpariaeth ddigidol bresennol ac uwchraddio Siambr Dafydd

Orwig i alluogi cynnal cyfarfodydd hybrid. Mae'r arian grant a dderbyniwyd yn ein galluogi i gyllido y system hybrid yn y Siambr.

- 3.2 Ers cychwyn ar y gwaith, mae wedi dod i'r amlwg fod adnoddau presennol y Cyngor yn y Siambr (y camerâu ayyb) yn dyddio ac yn dod i ddiwedd eu hoes yn y dyfodol agos. Byddai uwchraddio y system fideo ar yr un pryd a galluogi system hybrid yn synhwyrol er mwyn sicrhau
- fod y broses gyfan yn ddigidol (yn hytrach na hanner yn ddigidol a hanner yn analog)
 - rheolaeth gwell o'r holl system fel un adnodd cyfansawdd
 - gwell ansawdd trwy ddarpariaeth 4K (ansawdd safonol yn unig ar hyn o bryd)
 - profiad gwell i'r defnyddiwr a'r gwyliwr
- 3.3 Yn ogystal mae'n allweddol sicrhau fod darpariaeth hybrid ar gael o fwy nag un lleoliad. Mae cyfarfodydd o'r fath (cyfarfodydd hybrid ac/neu gyfarfodydd rhithiol llwyr) wedi derbyn cefnogaeth gan Gynghorwyr a staff yn sgil y potensial i
- gyfrannu at yr agenda lleihau carbon trwy leihau teithio
 - hybu amrywiaeth mewn Democratiaeth trwy annog hyblygrwydd mynediad o bell i gyfarfodydd rhithiol gan ddenu mwy o bobl sy'n gweithio a rhieni ifanc i ystyried sefyll
 - ddefnyddio amser Cynghorwyr a staff yn fwy synhwyrol trwy leihau'r gofynion teithio
 - leihau costau teithio
- 3.4 Mae sicrhau fod y ddarpariaeth ar gael o fwy nag un lleoliad yn mynd i gefnogi agenda y Cyngor i gynnal cyfarfodydd rhithiol neu hybrid i gynghorwyr ac/neu staff mewn cyfarfodydd ffurfiol neu anffurfiol. I'r perwyl yma felly gwneir cais i uwchraddio y ddwy siambr yng Nghaernarfon i alluogi trefniadau hybrid o'r siambrau ynghyd ag uwchraddio y ddarpariaeth camerâu cyfredol i ddarpariaeth digidol. Yn ogystal, mae'r cais yn cwmpasu uwchraddio ystafelloedd cyfarfod eraill y Cyngor er mwyn galluogi yr un mynediad o bell i Gynghorwyr a staff ar gyfer cyfarfodydd hybrid ple bo rhai mynychwyr yn ymuno o'r ystafelloedd cyfarfod hynny.

4. MANYLU AR Y DDARPARIAETH

4.1 Mae'r cais a gyflwynir yn cwmpasu'r gwelliannau isod:

- creu system cyson ar draws ystafelloedd cyfarfod y Cyngor i alluogi cyfarfodydd rhithiol drwy Teams a Zoom yn ogystal ag unrhyw ddarparwyr fideo gynhadledd
- creu system syml di-wifr i alluogi cysylltu i gyfarfodydd fideo gynhadledd
- galluogi cysylltu o bell i gyfarfod o fwy nag un ystafell gyfarfod yn ogystal a chysylltu o bell o leoliad unigol ar yr un pryd
- ail ddefnyddio'r sgriniau os yw'r maint yn gweddu'r ystafell ac uwchraddio pe byddai'r ddarpariaeth yn amhriodol.

4.2 Gofynnir am swm o £130,000 er mwyn uwchraddio'r dechnoleg a galluogi cyfarfodydd hybrid o wahanol leoliadau i gynorthwyo mynediad o bell ar draws ystod o wasanaethau'r Cyngor. Bu i'r Cyngor dderbyn grant gwerth £1.04 miliwn yn ystod y flwyddyn ariannol 2020/21 ar gyfer Trawsnewid Digidol. Bu i'r grant gael ei neilltuo i gronfa ar gyfer trefniadau adfer yn sgil Covid19 ac mae'n briodol fod y ffynhonnell yma yn cael ei defnyddio i gyllido'r £130,000.

5. CAMAU NESAF AC AMSERLEN

Pe byddai'r Cabinet yn cymeradwyo rhyddhau'r arian yma i'r pwrpas uchod byddai'r gwaith uwchraddio'r siambrau yn digwydd yn ystod y misoedd nesaf ac hynny fel blaenoriaeth i ymateb i ofynion y Ddeddf. Byddai'r gwaith ar gyfer uwchraddio (i sicrhau mynediad o bell i gyfarfodydd hybrid) mewn lleoliadau eraill, yn dilyn dros y misoedd canlynol gyda disgwyliad i gwblhau'r gwaith erbyn Mawrth 2022.

6. UNRHYW YMGYNGHORIAD A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

Y Swyddog Monitro

Fel y nodir yn yr adroddiad mae newidiadau sylweddol ar droed gyda threfniadau cyfarfodydd yr Awdurdod a hynny o amgylch dulliau electroneg o gyfarfod yn benodol . Golygai fod rhaid mynd ati i gynnig darpariaethau sydd yn caniatáu cyfarfodydd all gyfarch y gofynion a hawliau statudol newydd yma. Rwy'n cefnogi'r argymhelliad.

Y Pennaeth Cyllid

Rwyf wedi cydweithio gyda'r awdur i baratoi'r agweddau technolegol a ffigyrau ariannol sy'n yr adroddiad uchod, ac rwy'n cadarnhau cywirdeb y cynnwys perthnasol.

CABINET CYNGOR GWYNEDD



Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

Dyddiad y cyfarfod:	27 Gorffennaf 2021
Aelod Cabinet:	Y Cyngorydd Nia Jeffreys
Swyddog Cyswllt:	Geraint Owen, Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol
Rhif Ffôn Cyswllt:	01286 679335
Teitl yr Eitem:	Uned 2a, Parc Busnes Eryri, Penrhyndeudraeth

1 Y PENDERFYNIAD A GEISIR

Gofynnir am gefnogaeth y Cabinet i ddefnyddio £83,000 o'r gronfa Trawsffurfio Busnes i wireddu addasiadau i adeilad Uned 2a, Parc Busnes Eryri, Penrhyndeudraeth er mwyn hwyluso cyswllt rhwng staff yr Adran Oedolion â'r gwasanaethau iechyd, a chreu 'Siop Gwynedd' i wasanaethu trigolion yr ardal.

2 CEFNDIR

- 2.1 Ar hyn o bryd, mae Uned 2, Parc Busnes Eryri, Penrhyndeudraeth yn cael ei ddefnyddio ar gyfer:
- Canolfan alwadau'r Cyngor, 'Galw Gwynedd'
 - 3 ystafell hyfforddi / cyfarfod sy'n cael eu llogi gan amryw o adrannau'r Cyngor ac Aelodau, yn bennaf
 - Deintyddfa Bupa, sy'n llogi rhan o'r adeilad.
- 2.2 Cyn y pandemig, roedd y nifer o staff a leolir yn swyddfa Galw Gwynedd ym Mhenrhyndeudraeth wedi lleihau, a hynny o ganlyniad i drefniadau gweithio'n fwy hyblyg rhwng y ganolfan alwadau a'r tair Siop Gwynedd yng Nghaernarfon, Pwllheli a Dolgellau.
- 2.3 Mae'r pandemig hefyd wedi cynyddu'r cyfleoedd i weithio'n hyblyg o adra.
- 2.4 Erbyn hyn, a phan fydd ein swyddfeydd yn ail-agor, uchafswm o 12 o staff ac Arweinydd Tîm a fydd wedi eu lleoli yn y ganolfan alwadau ar un adeg, o gymharu ag oddeutu 25 o staff rai blynyddoedd yn ôl, mae hyn yn bennaf oherwydd bod gweddill y staff yn gweithio o un o'n Siopau Gwynedd sydd yn agosach i'w cartrefi.

- 2.5 Mae galw cynyddol hefyd wedi bod ar gyfer 'drws ffrynt' i wasanaethau'r Cyngor yn yr ardal.
- 2.6 Yn ychwanegol i hyn, mae rhai o staff yr Adran Oedolion yn cydweithio'n agos ac yn gyson gyda gwasanaeth iechyd yn yr ardal ac wedi datgan dymuniad i gael lleoliad swyddfa i'w staff ei ddefnyddio a fyddai o fewn pellter rhesymol o Ysbyty Alltwn.
- 2.7 Er mwyn uchafu'r defnydd posib o'n hasedau ble mae'r galw, mae cynlluniau arfaethedig wedi eu paratoi er mwyn addasu'r adeilad.
- 2.8 Amcangyfrifir i'r addasiadau gostio oddeutu £83,000.

3 RHESYMEG A CHYFIAWNHAD DROS ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

- 3.1 O ganlyniad i newid yn y ffordd y mae'r Ganolfan Alwadau yn gweithredu, mae hwn yn gyfle i wneud defnydd gwell o ased mewn lleoliad hwylus i staff sy'n gwasanaethu Eifionydd.
- 3.2 Bydd y cynllun hefyd yn cynyddu presenoldeb wyneb i wyneb ar gyfer ein trigolion drwy sefydlu Siop Gwynedd ychwanegol ym Mhenrhyndeudraeth, i'w staffio gan staff y Ganolfan Alwadau.

4 CYDRADDOLDEB

- 4.1 Nid yw'r oblygiadau cydraddoldeb wedi eu hadnabod ar hyn o bryd a bydd asesiad cydraddoldeb cyflawn yn cael ei ddatblygu ar y cyd â'r broses dylunio.

5 UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

Barn yr Aelod Lleol:

Mae'n amlwg bod y Pandemig Covid wedi golygu y bydd rhaid i'r Cyngor ailystyried ei drefniadau parthed cyswllt gyda'r Trigolion ac mae'r hyn sydd yn cael ei gynnig yn yr adroddiad yn synhwyrol ac yn gwneud gwell defnydd o'r gofod yn yr adeilad. Mae cael cyfleuster Siop Gwynedd hefyd yn mynd i fod o fydd i bobl leol gan y byddent yn gallu cael cymorth wyneb yn wyneb gydag unrhyw broblem yn y dyfodol.

Barn y Swyddogion Statudol:

Y Swyddog Monitro:

Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb.

Swyddog Cyllid Statudol:

Nid yw'r penderfyniad a geisir yma am olygu ymhlygiad ariannol parhaol i'r Cyngor, a byddai'r Cabinet yn medru ystyried ariannu'r costau £83,000 un tro o'r Gronfa Trawsffurfio. Deallaf fod y bwriad yma'n cyd-fynd efo'r ail strwythuro sydd wedi digwydd yn y gwasanaeth Cyswllt Cwsmer yn ddiweddar er mwyn ymateb yn well i anghenion y cyhoedd. Mater i'r aelodau'r Cabinet ystyried yw blaenoriaethu dyraniadau o'r Gronfa Trawsffurfio. Cadarnhaf fod arian digonol wedi'i neilltuo yno gan y Cabinet ar 18 Mai 2021 wrth dderbyn yr adroddiad 'Alldro' ar gyfrifon 2020/21.

Eitem 8

CABINET CYNGOR GWYNEDD



Adroddiad i'r Cabinet

Dyddiad y cyfarfod:	27 Gorffennaf 2021
Aelod Cabinet:	Y Cyngorydd Cemlyn Rees Williams
Swyddog Cyswllt:	Rhian Parry Jones
Rhif Ffôn Cyswllt:	
Teitl yr Eitem:	Cynllun Strategol Y Gymraeg mewn Addysg 2022-2032.

1. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

1.1 Gofynnir i'r Cabinet gymeradwyo Cynllun Strategol Y Gymraeg mewn Addysg 2022-32, i fynd i gyfnod ymgynghori cyhoeddus yn nhymor yr Hydref 2021. Bydd Cynllun Strategol Y Gymraeg mewn Addysg (CSGA) yn cael ei gweithredu fel dogfen statudol o fis Medi 2022 hyd at Awst 31ain 2032.

Bwriad y Cynllun Strategol yw:

- disgwyl i awdurdodau lleol fod yn atebol i Lywodraeth Cymru am gynllunio darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg a iaith Gymraeg;
- adlewyrchu nodau'r Strategaeth;
- darlunio'r sefyllfa bresennol, amlinellu'r gweithgareddau priodol a dangos cynnydd;
- bod yn hwylus ac yn ddefnyddiol i awdurdodau lleol; a dangos cynnydd clir **dros ddeng mlynedd** ym mhob awdurdod lleol ac ardal consortiwm tuag at gyflawni targedau'r Strategaeth.

2. Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

2.1 Noda Llywodraeth Cymru'r angen am ymgynghori am ddim llai nag 8 wythnos â'r personau canlynol:

- awdurdodau lleol cyfagos;
- pennaeth pob ysgol a gynhelir gan yr awdurdod;
- corff llywodraethu pob ysgol a gynhelir gan yr awdurdod;
- pob sefydliad yn y sector addysg bellach yn yr ardal ;
- mewn perthynas ag unrhyw ysgol sylfaen neu ysgol wirfoddol yn yr ardal, yr unigolyn sy'n gyfrifol am benodi llywodraethwyr; os oes gan yr ysgol nodweddion crefyddol, y corff crefyddol perthnasol
- Comisiynydd y Gymraeg (o fewn ystyr adran 2 o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011);
- Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (o fewn yr ystyr "Early Years Development and Childcare Partnership" yn adran 119 o Ddeddf 1998);
- Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru;
- darparwyr hyfforddiant cychwynnol athrawon ysgol;
- unrhyw sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau i blant a phobl ifanc y mae'r awdurdod lleol yn ystyried eu bod yn briodol;
- unrhyw bersonau neu gyrff eraill yr ymddengys i'r awdurdod lleol eu bod yn briodol.

Y mae'n ofynnol, o dan adran 84 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion Cymru (2013), ac i gydymffurfio gyda Rheoliadau Cynlluniau Strategol Y Gymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019, i bob Awdurdod Addysg Lleol baratoi a chyflwyno Cynllun Strategol Y Gymraeg mewn Addysg sy'n amlinellu gweledigaeth addysg cyfrwng Cymraeg o fewn yr awdurdod dros y deng mlynedd nesaf, yn ogystal â'r prif amcanion strategol ar gyfer y cyfnod hwn.

3. CYFLWYNIAD

- 3.1 Pwrpas Cynllun Strategol Y Gymraeg mewn Addysg (CSGA) yw amlinellu gweledigaeth o gael cyfundrefn addysg Gymraeg a dwyieithog sydd yn rhoi anghenon ein holl ddysgwyr yn ganolog i'n darpariaeth.
- 3.2 Daeth y cynlluniau cyntaf hyn yn weithredol ar 1 Ebrill 2014 am gyfnod o 3 blynedd hyd at fis Mawrth 2017, ac fe ddiweddarwyd y Cynllun am y tair blynedd dilynol. Oherwydd amgylchiadau digynsail Pandemig Covid-19, ymestynnwyd ei gyfnod am un flwyddyn yn ychwanegol. Bydd y Cynllun newydd hwn yn weithredol am gyfnod o ddeng mlynedd, o fis Medi 2022 hyd 31ain Awst 2032.
- 3.3 Dehonglir y Strategaeth yng nghyd-destun Polisi Iaith Cyngor Gwynedd a thrwy hynny wireddu'r deilliannau. Bydd yr Awdurdod yn sicrhau fod y prif elfennau yn cael eu hadlewyrchu ac yn cael sylw priodol yn y Cynllun Strategol.
- 3.4 Mae'r Cynllun yn gosod ymrwymiad a chyfeiriad clir ar gyfer sicrhau bod dysgwyr Gwynedd yn cyflawni'r safonau uchaf er mwyn cynnal yr iaith, diwylliant a'r economi yn lleol.

4. RHESYMEG A CHYFIAWNHAD DROS ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

- 4.1 Bydd cymeradwyo Cynllun Strategol Y Gymraeg mewn Addysg (CSGA) yn fodd i Lywodraeth Cymru allu monitro'r ffordd y bydd yr awdurdod yn ymateb i'r angen i weithredu nodau'r Strategaeth a chyfrannu tuag atynt trwy:
 - sicrhau bod pob cam o brosesau addysg yr awdurdod lleol yn rhoi ystyriaeth lawn i addysg cyfrwng Cymraeg;
 - ehangu addysg cyfrwng Cymraeg, lle bo galw, ar sail cynllunio gwell;
 - sicrhau fod gwasanaethau cefnogi addysg cyfrwng Cymraeg yn cael eu cyflwyno ar sail consortia;
 - wella safonau ac ehangu defnydd o'r Gymraeg ymhlith plant a phobl ifanc; a
 - dangos cynnydd yn erbyn targedau penodol y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg.
- 4.2 Bydd cymeradwyo'r Strategaeth yng nghyd-destun Polisi Iaith Cyngor Gwynedd yn gwireddu'r saith deilliant a amlinellir ynddi.

DEILLIANNAU'R CSGA	
1	Mwy o blant meithrin/ tair oed yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg.
2	Mwy o blant dosbarth derbyn/pump oed yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg.
3	Mwy o blant yn parhau i wella eu sgiliau Cymraeg wrth drosglwyddo o un cyfnod o'u haddysg statudol i'r llall.
4	Mwy o ddysgwyr yn astudio ar gyfer cymwysterau Cymraeg (fel pwnc) a phynciau drwy gyfrwng y Gymraeg.

5	Mwy o gyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destunau gwahanol yn yr ysgol.
6	Cynnydd yn y ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) (yn unol â'r dyletswyddau a bennir gan y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnys Addysg (Cymru) 2018)
7	Cynnydd yn nifer y staff addysgu sy'n gallu addysgu Cymraeg (fel pwnc) a thrwy gyfrwng y Gymraeg.

5 CAMAU NESAF AC AMSERLEN

Y camau sydd yn rhan o'r ymgynghori anffurfiol presennol:

PRYD	PWY
27 Mai 2021	Tîm Rheoli Addysg
9 Mehefin 2021	GYDCA
9 Mehefin 2021	GCSU
22 Mehefin 2021	Pwyllgor Iaith
27 Gorffennaf 2021	Cabinet yn cytuno i gael ymgynghori'n gyhoeddus
27 Gorffennaf 2021 – 1 Medi 2021	Ystyried ac ymgorffori sylwadau'r ymgynghori anffurfiol

Amserlen arfaethedig yr ymgynghoriad cyhoeddus a'r camau nesaf:

PRYD	PWY
13 Medi 2021 – 15 Tachwedd 2021	Ymgynghoriad Cyhoeddus
15 Tachwedd – 13 Rhagfyr 2021	Ystyried ac ymgorffori sylwadau'r ymgynghoriad
13 Rhagfyr 2021	Cabinet yn mabwysiadu'r CSGA
Ionawr 2022	Cyflwyno CSGA i Lywodraeth Cymru
Mawrth 2022	Derbyn sylwadau gan Lywodraeth Cymru
Mawrth 2022 – Mai 2022	Ystyried ac ymgorffori sylwadau Llywodraeth Cymru
Mehefin 2022	Cabinet yn mabwysiadu'r CSGA gydag unrhyw addasiadau
Mehefin 2022	Cyflwyno'r CSGA Terfynol i Lywodraeth Cymru
1 Medi 2022	CSGA yn dod yn weithredol

6. UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWDYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

- 6.1 Trafodwyd y dogfen yn y fforymau penaethiaid cynradd ac uwchradd -09/07/21
Trafodwyd yn y Pwyllgor Iaith- 22/06/21

7. SYLWADAU SWYDDOGION STATUDOL

7.1 Swyddog Cyllid Statudol:

Mae awdur yr adroddiad wedi cadarnhau nad oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn, gan fydd yr Adran Addysg yn gweithredu eu Cynllun Strategol Y Gymraeg o fewn adnoddau'r grantiau perthnasol. O ganlyniad, nid oes gennyf sylwadau i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb ariannol.

7.2 Swyddog Monitro:

Yn unol a'r hyn yr adroddir mae Cynllun Strategol yr Iaith Mewn Addysg bellach yn ddogfen statudol. Un o oblygiadau hyn yw fod prosesau ymgynghori a chadarnhau i'w dilyn er cynhyrchu y Strategaeth. Mae'n bwysig fod y Cabinet yn fodlon ar y ddogfen drafft cyn symud ymlaen i'r camau ffurfiol nesaf.

CYNLLUN STRATEGOL CYMRAEG MEWN ADDYSG

Enw'r Awdurdod Lleol

Gwynedd

Cyfnod y Cynllun hwn

Medi 2022-Awst 31ain, 2032.

Mae'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg hwn yn cael ei wneud o dan adran 84 o *Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013* ac mae'r cynnwys yn cydymffurfio â *Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019¹⁻²*. Rydym wedi rhoi sylw dyledus i'r canllawiau statudol a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru wrth bennu ein targedau.

Llofnod: Dyddiad:

(Mae angen i'r Prif Swyddog Addysg yn eich awdurdod lleol lofnodi'r Cynllun hwn)

¹ [Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg \(Cymru\) 2019](#)

² [Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg \(Cymru\) \(Diwygio\) \(Coronafeirws\) 2020](#)

Nodiadau i'ch cynorthwyo

Bydd angen i chi amlinellu gweledigaeth addysg cyfrwng Cymraeg eich awdurdod lleol dros y deng mlynedd nesaf a'r prif amcanion strategol ar gyfer y cyfnod hwn. Dangoswch sut y byddwch yn cyflawni Deilliant 1-7 gan gyfeirio at y Canllawiau.

Cyn cwblhau'r templed hwn, cyfeiriwch yn benodol at Rhan 2 o'r Canllawiau ar Gynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg.

<https://llyw.cymru/cynlluniau-strategol-cymraeg-mewn-addysg>

Mae'r rhan hon yn nodi'r gofynion statudol ar gyfer yr hyn y mae'n rhaid ei gynnwys yn eich Cynllun (fel yr amlinellir yn Atodlen y Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019). Yn ogystal â'ch targed 10 mlynedd cyffredinol, mae rhai datganiadau yn yr Atodlen yn gofyn i chi osod targedau eraill, ac os felly, dylech hefyd gyfeirio at y rheini.

Ein gweledigaeth deng mlynedd ar gyfer cynyddu a gwella'r cynllunio darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg yn ein hardal

“Rwy’n falch o gyhoeddi **Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Gwynedd 2022-2032**. Mae’r Cynllun yn adlewyrchu fy ngweledigaeth o gael cyfundrefn addysg Gymraeg a dwyieithog sydd yn rhoi anghenon ein holl ddysgwyr yn ganolog i’n darpariaeth. Mae’r Cynllun yn gosod ymrwymiad a chyfeiriad clir ar gyfer sicrhau bod dysgwyr Gwynedd yn cyflawni’r safonau uchaf er mwyn cynnal yr iaith, diwylliant a’r economi yn lleol.

Mae Adrannau’r Cyngor, ysgolion a phartneriaid ehangach yn ymrwymo i wireddu holl nodau ac amcanion **Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg** ac yn sgil hynny gefnogi strategaeth Llywodraeth Cymru i gyrraedd y nod o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, gan sicrhau bod cyfleoedd ar bob cyfnod ym mywyd unigolyn i ddysgu Cymraeg ac i ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Ymgorfforir yma weledigaeth *Cynllun Hybu’r Gymraeg yng Ngwynedd (2013-23)*, a rhoddir ystyriaeth yn ogystal, i ofynion y deddfau a’r strategaethau canlynol wrth lunio’r Cynllun: *Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (2015)* *Ffyniant i Bawb: Y Strategaeth Genedlaethol: Symud Cymru Ymlaen (2016-2021)*, *Cytundeb Blaengar (2016)*, *Deddf ADY a Thribiwnlys Addysg (Cymru) (2018)*.”

Y Cyngorydd Cemlyn Rees Williams,
Aelod Cabinet Addysg.

“Mae hi’n gyfnod hynod o gyffrous i’r iaith Gymraeg a hoffwn sicrhau darpariaeth, profiadau a chefnogaeth o ansawdd uchel yn y Gymraeg sydd yn ymateb i anghenion y dysgwyr a’u teuluoedd, ac yn gyfrwng i’w harfogi fe dysgwyr annibynnol a hyderus ddwyieithog i’w galluogi i lwyddo a ffynnu. Yn yr un modd, hoffwn sicrhau bod holl weithlu ein hysgolion yn hyderus ddwyieithog, gan dderbyn pob cefnogaeth i feithrin eu hyder a’u sgiliau yn yr iaith Gymraeg, gan allu trosglwyddo’r sgiliau hynny’n effeithiol i addysgu a dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn ddwyieithog ar lawr dosbarth.”

Garem Prytherch Jackson
Pennaeth Addysg Gwynedd.

Ein nod yw sicrhau y bydd yr holl rhanddeiliaid yn gweithredu’n effeithiol mewn perthynas â’r Gymraeg er mwyn sicrhau dilyniant o un cyfnod allweddol i’r nesaf yn unol â’r trefniadau a nodir yn y **Cytundeb Partneriaeth** rhwng yr Awdurdod a’r ysgolion a’r cylchoedd meithrin. Yn y cyd-destun hwn, byddwn yn tynnu sylw’r aelodau etholedig lleol ynghyd â Chadeirydd y Llywodraethwyr at unrhyw faterion o bryder sydd yn berthnasol i ddiffyg gweithredu ar gynnwys y Polisi Iaith neu Gynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg.

Cysylltu

Os hoffech ragor o wybodaeth am y Gymraeg, Polisi Iaith Addysg, neu Gynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg, gallwch gysylltu â:

Pennaeth Addysg
Adran Addysg
Pencadlys
Cyngor Gwynedd
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1SH

Ffôn: 01286 679 467

e-bost: garemjackson@gwynedd.llyw.cymru

Fersiynau Hygyrch

Os y dymunir, gellir darparu fersiynau hygyrch o Gynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Gwynedd 2017-20 ar gais; mae hyn yn cynnwys:

- Fersiwn print bras
- Fersiwn ar dâp
- Fersiwn mewn braille
- Fersiwn iaith arwyddion (BSL)

Cysylltwch gyda'r Pennaeth Addysg i archebu fersiwn hygyrch.

Deilliant 1

Mwy o blant meithrin/ tair oed yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg

Ble rydym ni nawr?

Nod Polisi Iaith Gwynedd yw sicrhau bod holl ddisgyblion y sir yn meddu ar sgiliau ieithyddol priodol yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Sicrheir bod pob lleoliad Blynyddoedd Cynnar yn gosod sylfaen gadarn ar gyfer y Gymraeg, a sicrhau fod pob plentyn yn cael asesiad sgiliau iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu yn y Gymraeg ar fynediad ac ar derfyn addysg feithrin rhan amser ac ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen. Rhaid sicrhau darpariaeth addas i ganiatáu i bob disgybl ddatblygu'n hyfedr ddwyieithog. Ceir 58 o leoliadau addysg nad sy'n cynnal y Blynyddoedd Cynnar yng Ngwynedd.

Mae cytundeb darparu addysg feithrin Gwynedd yn ei gwneud yn hanfodol i ddarparu drwy gyfrwng y Gymraeg.

Gweler isod ein sefyllfa bresennol mewn perthynas â nifer y plant meithrin/tair oed sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

Data Cylchoedd Meithrin Gwynedd 2018-19 (Dim data 2019-20 ar gael yn sgil COVID):

Ardal	Nifer Cylchoedd Meithrin	Nifer / % plant meithrin 3 oed sydd yn trosglwyddo i addysg Gymraeg	
Arfon	28	834	99.3%
Dwyfor	18	301	100%
Meirionnydd	19	346	100%

Ble rydym yn ceisio bod o fewn 5 mlynedd cyntaf y Cynllun hwn a sut rydym yn bwriadu cyrraedd yno?

Byddwn yn anelu i barhau i gynnal y safonau uchel o gyrraedd y targed o 100% o blant 3 oed yn derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg.

EIN PRIF AMCANION I GYFLAWNI'N DEILLIANNAU	SUT Y BYDDWN YN CYFLAWNI'N HAMCANION
Gwneud defnydd o ddata o adolygiad o ddigonolrwydd darpariaeth gofal plant er mwyn cynllunio addysg cyfrwng Cymraeg o fewn y Sir.	Cynllunio i sicrhau bod yr Awdurdod yn cyflawni'r gofyn statudol o sicrhau lle meithrin i bob plentyn o'r tymor yn dilyn ei ben-blwydd yn 3 oed. Swyddog Addysg Meirion/Dwyfor (GApRh)
	Monitro'n rheolaidd yr holl leoliadau, gan gynnwys leoliadau'r mudiadau gwirfoddol, i sicrhau'u cydymffurfiaeth â gofynion Polisi Iaith y Sir.

	<p>Cydweithio gyda'r Mudiadau gofal plant i hyrwyddo'r prosiect 'EDI' - rhan o'r cynllun 'Cymraeg Gwaith' sy'n cael ei ddatblygu gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol, ar gyfer unrhyw aelodau staff angen cryfhau eu defnydd o'r iaith yn y gweithle.</p> <p>Rheolwr Gwasanaeth Blynyddoedd Cynnar (SAO) Swyddog Addysg Meirion/Dwyfor (GApRh)</p>
<p>Darparu gwybodaeth i rieni o ran argaeledd addysg cyfrwng Cymraeg a'r math o addysg cyfrwng Cymraeg gaiff ei gynnig.</p>	<p>Manteisio ar bob cyfle i gyfathrebu a chyd-gynllunio gyda chyrrff ym maes y Blynyddoedd Cynnar, gan gynnwys Mudiad Meithrin, i gryfhau ac ehangu'r ddarpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg, er mwyn sicrhau llwybr didor at addysg ddwyieithog, yn unol â Pholisi Iaith y Sir.</p> <p>Rheolwr Gwasanaeth Blynyddoedd Cynnar (SAO) Swyddog Addysg Meirion/Dwyfor (GApRh)</p>
<p>Darparu gwybodaeth i rieni a gofalwyr sy'n datgan bod addysg cyfrwng Cymraeg yn opsiwn i bersonau, waeth beth fo'u cefndir ieithyddol.</p>	<p>Sicrhau bod gwybodaeth glir a chynhwysfawr yn cael ei chynnwys yn y llyfryn/trefniadau ar gyfer derbyniadau cyfrwng Cymraeg, gan ei adolygu a'i ddiweddarau'n gyson.</p> <p>Swyddogion Addysg (DJ/RhPJ)</p> <p>Cynnwys y wybodaeth berthnasol ar wefan yr Awdurdod.</p> <p>Swyddogion Addysg (DJ/RhPJ)</p>
<p>Gwneud y defnydd gorau o wybodaeth ynghylch y manteision a ddaw yn sgil dwyieithrwydd ac amlieithrwydd.</p>	<p>Manteisio ar ymgyrchoedd a rhaglenni marchnata'r Llywodraeth e.e gwefannau, sianel YouTube, sianeli eraill y Llywodraeth wrth wneud hynny.</p> <p>Cydllynydd Siarter Iaith/ Swyddog Addysg Meirion/Dwyfor (GApRh) Swyddog Addysg Arfon (DJ)</p> <p>Darparu hyfforddiant i swyddogion sy'n ymdrin ag ymholiadau gan rieni ar sut i drafod yr opsiynau addysg cyfrwng Cymraeg sydd ar gael yn ogystal â chwestiynau/pryderon cyffredin all godi.</p> <p>Cydllynydd Siarter Iaith/ Swyddog Addysg Arfon (DJ)</p> <p>Sicrhau bod Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd ar gyfer rhieni/gofalwyr a darpar rieni/gofalwyr yn darparu gwybodaeth am fanteision magu plant yn ddwyieithog.</p> <p>Cydllynydd Siarter Iaith/ Rheolwr Gwasanaeth Blynyddoedd Cynnar (SAO) Swyddog Addysg Meirion/Dwyfor (GApRh)</p>

	<p>Cyfeirio unigolion at lenyddiaeth a chyhoeddiadau Cymraeg a darparu gwybodaeth am gyfleoedd i oedolion ddysgu Cymraeg, gan roi ystyriaeth i beth allai fod yn bryder i rieni/gofalwyr. Ymateb i'r pryderon hynny mewn gwybodaeth/llynyddiaeth sy'n cael ei dosbarthu.</p> <p>Cydlynnydd Siarter Iaith/ Rheolwr Gwasanaeth Blynnyddoedd Cynnar Swyddog Addysg Meirion/Dwyfor (GApRh)</p>
	<p>Cyd-weithio gyda chyrrff cyhoeddus megis Cymraeg i Blant, Consortia Rhanbarthol, RhAG, Urdd Gobaith Cymru a Mentrau Iaith.</p> <p>Cydlynnydd Siarter Iaith/ Swyddog Addysg Meirion/Dwyfor (GApRh)</p>
	<p>Sicrhau cyfleoedd i ddisgyblion a rhieni ddeall a thrafod manteision dwyieithrwydd ac amlieithrwydd, gan arddel y Gymraeg, gan egluro beth yw'r manteision addysgol, cymdeithasol, diwylliannol a chael gwaith ac ennill arian o wneud hynny.</p> <p>Negeseuon cyson a chilir yn cael eu rhannu gyda rhieni am drefn a gweledigaeth y Sir. Llawlyfr Gwybodaeth i Rieny yn cael ei adolygu a'i ddiweddarau i atgyfnerthu'r prif negeseuon. Amlygu Polisi Iaith y Sir ym mhob trafodaeth gyda rhieni. Parhau i geisio ysbrydoli'n plant i wneud defnydd llawn o'u Cymraeg yn eu bywydau bob dydd gan egluro beth yw'r manteision addysgol, cymdeithasol, diwylliannol a chael gwaith ac ennill arian o wneud hynny.</p> <p>Swyddog Dysgu a Datblygu Iaith Gymraeg/Swyddog Addysg Meirion/Dwyfor (GApRh)/Penaethiaid ac athrawon ysgolion</p>

Ble rydym yn disgwyl bod ar ddiwedd ein Cynllun deng mlynedd?

Ar ddiwedd ein cynllun deng mlynedd fe ddylai Gwasanaethau Addysg y Blynnyddoedd Cynnar fod yn cynnal yr un safonau uchel, ac yn sicrhau darpariaeth addas i ganiatáu i bob disgybl ddatblygu'n hyfedr ddwyieithog ymhob un o'r darpariaethau.

Data Allweddol

Nid oes unrhyw ddata genedigaethau ar gael. Gellir nodi fod y genedigaethau yn gyffredinol is – gyda 1300 genedigaeth wedi'u cofnodi yn 2022.

Niferoedd a % y plant meithrin/ tair oed yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg

2022 - 2023	2023 - 2024	2024 - 2025	2025 - 2026	2026 - 2027

2027 - 2028		2028 - 2029		2029 - 2030		2030 - 2031		2031 - 2032	

Deilliant 2

Mwy o blant dosbarth derbyn/ pump oed yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg

Ble rydym ni nawr?

Nod y Polisi Iaith yw sicrhau bod holl ddisgyblion y sir, ym mhob un o'n hysgolion, yn meddu ar sgiliau ieithyddol priodol yn y Gymraeg a'r Saesneg. Nid yw'r Sir yn diffinio ysgolion yn ôl categorïau ieithyddol gan fod yr un Polisi Iaith ar waith ymhob ysgol. Rhaid sicrhau darpariaeth addas i ganiatáu i bob disgybl ddatblygu'n hyfedr ddwyieithog. Ceir 80 Ysgol Gynradd, 2 Ysgol Ddilydol a 2 Ysgol Arbennig yng Ngwynedd.

Mae Polisi Iaith yr Awdurdod yn rhoi pwyslais ar drochi dysgwyr 0-7 oed yn y Gymraeg, gan sicrhau mai asesiad Cymraeg yn unig a gânt ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen. Yn 2018-19, bu i 98.5% o ddysgwyr gael eu hasesu yn y Gymraeg fel iaith Gyntaf ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen.

Ein sefyllfa bresennol yn ymwneud â nifer y disgyblion dosbarth derbyn/pump oed sydd yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg.

BLWYDDYN	NIFEROEDD
2021	1127
2022	1105
2023	1019

Ble rydym yn ceisio bod o fewn 5 mlynedd cyntaf y Cynllun hwn a sut rydym yn bwriadu cyrraedd yno?

Byddwn yn anelu i sicrhau y bydd 100% o'n dysgwyr dosbarth derbyn/plant pump oed yn derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg, drwy sicrhau hyfforddiant priodol i gefnogi a chynnal staff fydd angen y gefnogaeth i'w galluogi i wneud hynny. Amlinellir ein prif amcanion i gyflawni'r deilliannau yma:

EIN PRIF AMCANION I GYFLAWNI'N DEILLIANNAU	SUT Y BYDDWN YN CYFLAWNI'N HAMCANION
Sicrhau bob pob dysgwr dosbarth derbyn/5 oed yng Ngwynedd yn derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg.	Sicrhau bod yr ysgolion yn ymwybodol o'r drefn yng Ngwynedd. GwE/ Swyddog Addysg Arfon (DJ)
	Arfogi gweithlu'r Cyfnod Sylfaen yn egwyddorion addysg drochi i'w galluogi i ymateb i anghenion disgyblion sy'n newydd ddyfodiaid i'r ysgol, ac/neu i newydd ddyfodiaid sy'n trosglwyddo'n ôl i'r ysgolion yn dilyn cyfnod yn y Gyfundrefn Drochi. Cydlynedd Siarter Iaith/ Cydlynedd Strategaeth Iaith Uwchradd/ Swyddog Dysgu a Datblygu Iaith Gymraeg, Cefnogaeth Gorfforaethol/ Swyddog Addysg Arfon (DJ) Staff Ysgolion

	<p>Bydd yr ysgolion yn adeiladu ar y sylfaen a osodwyd yn y cyfnod meithrin drwy barhau i ddatblygu gafael disgyblion pump oed ar y Gymraeg, a chychwyn ar y broses o ddatblygu eu sgiliau yn y Saesneg.</p> <p>Cydlynnydd Siarter Iaith/ GwE Swyddog Addysg Arfon (DJ)</p>
	<p>Bydd newydd-ddyfodiaid y Sir yn derbyn cefnogaeth y Gyfundrefn Addysg Drochi ac yn meithrin sgiliau'r Gymraeg yn gynnar.</p> <p>Swyddog Addysg Arfon (DJ) Swyddog Addysg Meirion/Dwyfor (GapRh)</p>
	<p>Sicrhau rhaglen o hyfforddiant priodol ar gyfer staff CS yn athrawon a chymorthyddion yn maes trochi ieithyddol.</p> <p>GwE/ Swyddog Addysg Arfon (DJ)</p>
	<p>Sicrhau y bydd y mwyafrif o'r ysgolion yn cychwyn cyflwyno'r Saesneg yn ffurfiol yn y tymor olaf ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen.</p> <p>GwE/ Swyddog Addysg Arfon (DJ)</p>
	<p>Y Gymraeg fydd iaith swyddogol yr asesu yn yr ysgol ar ddiwedd y cyfnod allweddol.</p> <p>Swyddog Addysg Arfon (DJ)</p>
	<p>Darganfod gwaelodlin o ran sefyllfa'r Gymraeg yn y CS er mwyn deall anghenion y dysgwyr/gweithlu yn y sector yma. Ymateb i'r negeseuon ac yna ymgysylltu yn gyson i fonitro cynnydd gan addasu'r blaenoriaethau yn ôl y gofyn.</p> <p>Swyddog Addysg Arfon (DJ)</p>
	<p>Llunio a sicrhau bod cynllun gweithredu manwl gyda thargedau pendant ar waith os neu ble mae'r disgwyliadau wedi llithro.</p> <p>Swyddog Addysg Arfon (DJ)</p>
<p>Ystyried sut y bydd newidiadau arfaethedig i ddynodiadau ysgolion yn ôl eu darpariaeth yn effeithio ar ymrwymiad y Sir i gynyddu darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg a dwyieithog/ffrwd ddeuol o fewn y Sir.</p>	<p>Bydd unrhyw gynlluniau newydd a gyflwynir, yn ddarostyngedig i ofynion y Polisi Iaith. Bydd rhai ysgolion penodol yn derbyn targedau penodol i sicrhau eu bod yn ehangu ar eu harlwy cyfrwng Cymraeg yn sgil gweithredu gofynion y Dynodiadau Iaith.</p> <p>Cydlynnydd Siarter Iaith/ Cydlynnydd Strategaeth Iaith Uwchradd Swyddog Addysg Arfon (DJ)</p>
<p>Sicrhau bod gofynion y Dynodiadau Iaith yn cael eu gweithredu, a chynlluniau cadarn mewn lle i gefnogi ble bydd angen.</p>	<p>Bydd gofynion y Dynodiadau Iaith yn cael eu gweithredu, a bydd yr holl weithlu addysg yn gyfrifol am lenwi Hunanasesiad Sgiliau Iaith yn flynyddol er mwyn diweddarau'n briodol i arddangos cynnydd.</p>

	<p>Cydlynnydd Siarter Iaith/Cydlynnydd Strategaeth Iaith Uwchradd Swyddog Addysg Arfon (DJ)</p>
<p>Sicrhau bod trefniadaeth o ran darpariaeth newydd-ddyfodiaid i addysg cyfrwng Cymraeg yn cael ei chyfathrebu mewn modd clir ac effeithiol gyda rhieni a gofawyr.</p>	<p>Sicrhau cyfleoedd i ddisgyblion a rhieni ddeall a thrafod manteision dwyieithrwydd ac amlieithrwydd, gan arddel y Gymraeg, gan egluro beth yw'r manteision addysgol, cymdeithasol, diwylliannol a chael gwaith ac ennill arian o wneud hynny. Negeseuon cyson a chlir yn cael eu rhannu gyda rhieni am drefn a gweledigaeth y Sir. Llawlyfr Gwybodaeth i Rieni yn cael ei adolygu a'i ddiweddarau i atgyfnerthu'r prif negeseuon.</p>
	<p>Amlygu Polisi Iaith y Sir ym mhob trafodaeth gyda rhieni. Parhau i geisio ysbrydoli'n plant i wneud defnydd llawn o'u Cymraeg yn eu bywydau bob dydd gan egluro beth yw'r manteision addysgol, cymdeithasol, diwylliannol a chael gwaith ac ennill arian o wneud hynny. Swyddog Dysgu a Datblygu Iaith Gymraeg/Swyddog Addysg Arfon (DJ)/Penaethiaid ac athrawon ysgolion</p>
	<p>Anelu at newid agweddau / cynnal agweddau iach tuag at yr iaith a manteision dwyieithrwydd, gyda phob ysgol yn gyfrifol am gyflwyno a throsglwyddo'r neges pa mor werthfawr ydy siarad Cymraeg a'r fantais sydd yna o fod yn hyfedr ddwyieithog. Cydlynnydd Siarter Iaith/Cydlynwyr Iaith Dalgylchol/Swyddog Addysg Arfon (DJ)/Mentrau Iaith</p>
	<p>Bwrdd Prosiect Deilliant 2 i drafod ac adrodd yn ôl i'r Fforwm Iaith. Swyddog Addysg Arfon (DJ)/Bwrdd Prosiect Deilliant 2</p>
	<p>Sicrhau bod digon o adnoddau deniadol o safon ar gael ar wahanol ffurfiau a phlatfformau i ddiwallu anghenion y CS ac i hybu patrymau iaith a datblygiad y Gymraeg y neid dysgwyr ieuengaf. GwE</p>

Ble rydym yn disgwyl bod ar ddiwedd ein Cynllun deng mlynedd?

Ar ddiwedd ein cynllun deng mlynedd fe ddylai'r Gwasanaeth fod yn arddangos twf yn y ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg, sydd yn caniatáu i bob disgybl ddatblygu'n hyfedr ddwyieithog. Bydd newydd-ddyfodiaid y Sir yn elwa o gyfundrefn addysg drochi aroloesol, sydd yn hyblyg ac yn darparu addysg drochi gyfoes o'r radd flaenaf, gan feithrin eu sgiliau yn y Gymraeg i'w galluogi i lwyddo a ffynnu yn ein hysgolion gan ddod yn siaradwyr hyfedr ddwyieithog.

Data Allweddol

Nid oes rhagolwg pellach na 2023/24 ar gael gan nad oes unrhyw ddata genedigaethau ar gael. Gellir nodi fod y genedigaethau yn gyffredinol is – gyda 1300 genedigaeth wedi'u cofnodi yn 2022.

Niferoedd a % y plant 5 oed sy'n derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg

2022 - 2023	2023 - 2024	2024 - 2025	2025 - 2026	2026 - 2027
1105	1019			
2027 - 2028	2028 - 2029	2029 - 2030	2030 - 2031	2031 - 2032

Deilliant 3

Mwy o blant yn parhau i wella eu sgiliau Cymraeg wrth drosglwyddo o un cyfnod o'u haddysg statudol i un arall

Ble rydym ni nawr?

Bydd Cydlynwyr Iaith pob Clwstwr o fewn y Sir yn atebol i Gydlynnydd Siarter Iaith a Chydlynnydd Strategaeth Iaith Uwchradd yr Awdurdod. Fe fydd yn aelod o staff o blith ysgolion cynradd neu ysgol uwchradd o fewn y dalgylchoedd. Bydd yn annog a sbarduno trafodaeth fydd yn sicrhau cydweithio rhwng yr holl ysgolion, gan sicrhau llinellau clir o gyfathrebu wrth ddod i benderfyniadau. Bydd y Cydlynnydd Clwstwr yn mynychu Cyfarfod Clwstwr tymhorol, fydd wedi'u trefnu gan yr Awdurdod, ac a fydd yn cael eu mynychu gan GwE, gan adrodd yn ôl i berson cyswllt ym mhob ysgol gynradd, a'r ysgol uwchradd, am gynnwys trafodaethau a phenderfyniadau. Bydd y Cydlynnydd Clwstwr yn hybu cydweithio, yn unol â deilliannau Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSGA) yr Awdurdod.

Disgwylir i holl sefydliadau addysg y sir adlewyrchu ac atgyfnerthu'r Polisi Iaith yn eu gweinyddiad, eu bywyd cymdeithasol a'u trefn fugeiliol yn ogystal ag yn eu darpariaeth gwricwlaidd. Rhoddir pwyslais yn y Polisi Iaith ar ddwyieithrwydd a'r angen i osod sylfeini cadarn ar gyfer y Gymraeg yn y blynyddoedd cynnar a datblygu ar hyn yn y cyfnodau allweddol sy'n dilyn. Rydym yn edrych ar ffyrdd y gall ysgolion cynradd ac uwchradd gydweithio mewn partneriaeth agos i dargedu rhieni/gofalwyr er mwyn hyrwyddo dilyniant ieithyddol, ac yn sicrhau bod yr holl staff sy'n debygol o ddod i gysylltiad gyda rhieni yn ymwybodol o'r negeseuon allweddol ynghylch addysg cyfrwng Cymraeg a dwyieithog a dilyniant ieithyddol i allu ateb cwestiynau all godi.

Ein sefyllfa bresennol yn ymwneud â mwy o blant yn parhau i wella eu sgiliau Cymraeg wrth drosglwyddo o un cyfnod o'u haddysg statudol i un arall.

O ganlyniad i bandemig Covid-19 nid oes data ar gael ar gyfer 2019/20 na 2020/21.

2018-19	Dysgwyr blwyddyn 9 yn cael eu hasesu yn Y Gymraeg (Iaith Gyntaf)	84.5%
2018-19	Dysgwyr Cyfnod Sylfaen yn ennill Deilliant 5+ Y Gymraeg (asesiadau athro)	78.8%
2018-19	Dysgwyr CA2 yn ennill Lefel 4+ Y Gymraeg Iaith Gyntaf (asesiadau athro)	86.9%
2018-19	Dysgwyr CA3 yn ennill Lefel 5+ Y Gymraeg Iaith Gyntaf (asesiadau athro)	91.9%
2018-19	Dysgwyr CA3 yn ennill Lefel 5+ Y Gymraeg Ail Iaith (asesiadau athro)	77.1%

Ble rydym yn ceisio bod o fewn 5 mlynedd cyntaf y Cynllun hwn a sut rydym yn bwriadu cyrraedd yno?

Byddwn yn cynllunio'n briodol i sicrhau bod disgyblion a addysgir yn ddwyieithog yn parhau i gael eu haddysgu felly wrth drosglwyddo o un grŵp blwyddyn i grŵp blwyddyn arall. Byddwn yn cydweithio gyda'r ysgolion i sicrhau fod disgyblion yn dilyn trywydd ieithyddol sy'n ddatblygiad naturiol o un flwyddyn i'r llall ac o un cyfnod allweddol i'r llall, ac yn monitro hyn yn ofalus. Byddwn yn trafod ac adnabod ar y cyd gyda'r ysgolion, gyfleoedd i gynyddu'r gyfran o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg sy'n cael ei chynnig gan osod targedau sydd yn gyraeddadwy i'w cyflawni ac sy'n eu gallugoi i gyflawni gofynion Dynodiad Iaith yr ysgol.

EIN PRIF AMCANION I GYFLAWNI'N DEILLIANNAU	SUT Y BYDDWN YN CYFLAWNI'N HAMCANION
Sicrhau cysondeb traws sirol drwy sicrhau fod pob disgybl sydd wedi ennill lefel 3+ yn y Gymraeg ar ddiwedd CA2 yn parhau gyda'r Gymraeg fel iaith Gyntaf yn B7 ac yn cael asesiad Cymraeg iaith Gyntaf ar ddiwedd CA3, a thrwy hynny, cynyddu'r % a asesir yn y Gymraeg fel iaith Gyntaf ar ddiwedd CA3, gan ddylanwadu'n gadarnhaol ar y % sydd yn symud ymlaen i sefyll arholiad TGAU yn y Gymraeg iaith Gyntaf.	Monitro a sicrhau cysondeb ar draws yr ysgolion er mwyn sicrhau cynnydd yn y % a asesir yn y Gymraeg fel iaith Gyntaf ar ddiwedd CA3. Cydweithio gyda ysgolion penodol i sicrhau parhad ieithyddol o GA2 i GA3. Cydlynwyr Iaith/ Cydlynnydd Strategaeth Iaith Uwchradd/ Swyddog Addysg Uwchradd(RhPJ)
Cynyddu nifer canran y disgyblion sy'n parhau i wella'u sgiliau Cymraeg wrth drosglwyddo o un cyfnod o'u haddysg statudol i un arall yn ystod y pum mlynedd cyntaf o weithredu'r Cynllun (fel carreg filltir hanner ffordd) ac un arall ar gyfer gweddill y Cynllun.	Sicrhau bod disgyblion yn derbyn cefnogaeth briodol i ddatblygu'u sgiliau Cymraeg. Sicrhau mynediad at Gyfundrefn Addysg Drochi Gwynedd, fydd yn cynnig addysg o'r safon uchaf o flwyddyn 2 ymlaen. Bydd cefnogaeth dilynol priodol i unrhyw ddisgybl sy'n newydd ddyfodiad CA2/CA3 i'r sir. Swyddog Addysg Meirion/Dwyfor (GAPRh) Swyddog Addysg Arfon (DJ)/ Swyddog Addysg Uwchradd(RhPJ)
Cynyddu canran disgyblion Y Cyfnod Sylfaen enillodd ddeilliant 5+ ar gyfer asesiadau athro mewn Cymraeg (Llafaredd) (Lefel 2+/Deilliant 5+)	Monitro'n fanwl ac yn gyson safonau yn ein hysgolion ac yn gosod a gwirio targedau ar ddeilliannau a lefelau uwch. Cydlynnydd Siarter Iaith/ Cydlynnydd Strategaeth Iaith Uwchradd/ GwE- Ymgynghorydd Craidd Cynradd/ Swyddog Addysg Arfon (DJ)/ Swyddog Addysg Uwchradd(RhPJ)
Cynyddu canran disgyblion CA2 enillodd lefel 4+ ar gyfer asesiadau athro mewn Cymraeg (Llafaredd)	Dadansoddi data profion darllen cenedlaethol ac asesiadau athrawon, a rhannu arferion da ar gyfer addysgu, cyd addysgu, modelu, hyfforddi, monitro, paratoi a chynhyrchu adnoddau. Cydlynnydd Siarter Iaith/ Cydlynnydd Strategaeth Iaith Uwchradd/ GwE- ymgynghorydd craidd cynradd/

	Swyddog Addysg(DJ)/ Swyddog Addysg Uwchradd(RhPJ)
Cynyddu canran disgyblion CA3 enillodd lefel 5+ ar gyfer asesiadau athro mewn Cymraeg (Llafaredd)	Dadansoddi data asesiadau athrawon ac yn rhannu arferion da ar gyfer addysgu, cyd addysgu, modelu, hyfforddi, monitro, paratoi a chynhyrchu adnoddau. Cydlynnydd Siarter Iaith/ Cydlynnydd Strategaeth Iaith Uwchradd/ GwE- Ymgynghorydd Craidd Uwchradd/ Swyddog Addysg(DJ)/ Swyddog Addysg Uwchradd(RhPJ)
	Sicrhau y bydd newydd-ddyfodiaid yn derbyn addysg o'r safon uchaf fel rhan o Gyfundrefn Addysg Drochi'r Sir a cefnogaeth briodol i gefnodi unrhyw ddisgybl all fod angen hwb ychwanegol i gynyddu ei hyder'sgiliau yn y Gymraeg. Swyddog Addysg Arfon (DJ), Swyddog Addysg Meirion/Dwyfor (GapRh)
	Darparu rhaglen safonol o HMS/DPP sydd o ansawdd uchel. Cydlynnydd Siarter Iaith/ Cydlynnydd Strategaeth Iaith Uwchradd/ Swyddog Addysg(DJ)/ Swyddog Addysg Uwchradd(RhPJ)
	Adnabod plant o fewn ysgolion allai elwa o hwb ychwanegol i'w cefnogi i gyrraedd y trothwy lefel 5+. Cydlynnydd Siarter Iaith/ Cydlynnydd Strategaeth Iaith Uwchradd/ GwE- Ymgynghorydd Craidd Uwchradd/ Swyddog Addysg(DJ)/ Swyddog Addysg Uwchradd(RhPJ)

Ble rydym yn disgwyl bod ar ddiwedd ein Cynllun deng mlynedd?

Bydd gweithredu ar y camau uchod yn dystiolaeth o gynnydd yn erbyn ein targedau. Bydd y cynnydd yn cael ei adolygu'n flynyddol ac yn sail i ymyrraethau a chamau gweithredu pellach i sicrhau gweithredu mewn modd sydd yn ymateb i dystiolaeth a geir. Bydd disgyblion y Sir yn elwa o gyfundrefn addysg drochi aroloesol, sydd yn hyblyg ac yn darparu addysg drochi gyfoes o'r radd flaenaf i'r dysgwyr, gan feithrin eu sgiliau yn y Gymraeg i'w galluogi i lwyddo a ffynnu yn ein hysgolion gan ddod yn siaradwyr hyfedr ddwyieithog.

Data Allweddol

Mae'r data isod yn ddata 2018/19 gan nad oes data mwy cyfredol ar gael. Bydd cynnal y safonau isod yn flaenoriaeth.

Niferoedd a % y dysgwyr sy'n parhau i wella eu sgiliau Cymraeg wrth drosglwyddo o un cyfnod o'u haddysg statudol i un arall

2022 - 2023		2023 - 2024		2024 - 2025		2025 - 2026		2026 - 2027	
CS/CA2	98.3%								
CA2/CA3	86.9%								
CA3/CA4	84.5%								
2027 - 2028		2028 - 2029		2029 - 2030		2030 - 2031		2031 - 2032	

DEILLIANT 3: CYNLLUN GWEITHREDU STRATEGAETH IAITH UWCHRADD

Cryfhau pontio o'r cynradd i'r uwchradd i sicrhau dilyniant pwrpasol i waith y Siarter Iaith.	Peilota cynllun pontio gyda blynyddoedd 5 a 6 yn yr ysgolion cynradd. Gweithio ar gynllun gydag Adran Y Gymraeg yn yr Ysgolion Uwchradd i hybu'r dilyniant o un Cyfnod Allweddol i'r llall. Darn o waith ymchwil i weld beth sydd yn achosi'r problemau, a pham fod rhai eisiau gwneud 'Ail Iaith' ar ôl trosglwyddo. Defnyddio'r data a gesglir fel sail i lunio cynllun gweithredu fydd yn targedu hynny, ac yn fodd i fesur unrhyw gynnydd neu sgil effeithiau posib.
Dilyniant Y Gymraeg	Ystyried yn union beth yw rôl Cydlynnydd y Strategaeth yn y broses o fonitro hyn a sut mae gwneud hynny mewn modd effeithiol? Angen edrych ar y data a thargedu ble mae angen. Yw hyn yn fwy 'cwricwlaidd' nag o ddefnydd anffurfiol fel sy'n rhan o'r Strategaeth? Angen eglurder ar hyn.
Hybu'r Gymraeg mewn modd cadarnhaol.	Ystyried sut y gellir cydweithio gyda'r Siarter Iaith er mwyn hybu'r ddelwedd o'r Gymraeg – targedu blynyddoedd 4, 5 a 6? Meddwl am farchnata'r iaith mewn ffordd fydd yn dylanwadu ar y disgyblion ac yn cael ei wreiddio a'i gynnal wedi mynd i'r Uwchradd. Cynnal grwpiau ffocws efo grwpiau mewn ysgolion er mwyn clywed barn a gweithredu ar hynny. Ystyried cynnal digwyddiad i ail-danio diddordeb a sbarduno'r diddordeb unwaith eto.

DEILLIANT 3: CYNLLUN GWEITHREDU SIARTER IAITH

<p>Uwchsgilio'r gweithlu gan feithrin hyder disgyblion i ddefnyddio a datblygu'u sgiliau llafar ar draws yr ysgol.</p>	<p>Rhannu gwybodaeth/ trosolwg o'r disgwyliadau sirol/bwriadau cenedlaethol/gofynion Estyn ynghlwm â'r Gymraeg mewn cyflwyniad pwerbwynt. Sicrhau hyfforddiant uwchsgilio'r gweithlu a methodoleg trochi effeithiol er mwyn meithrin hyder disgyblion i ddefnyddio a datblygu'u sgiliau llafar ayyb (Tybed a fyddai neges 'byw' neu neges wedi'i recordio gan Dyfrig Ellis AEM, ynglŷn â chyfeiriad Estyn ar lafaredd Cymraeg yn neges bwerus i'w throsglwyddo i benaethiaid? (mi fydda'r neges yna wedyn hefyd yn HWB er mwyn atgoffa staff ar gyfer y dyfodol)</p>
<p>Casglu a dadansoddi data ynglŷn â defnydd iaith a medrau llafar Cymraeg.</p>	<p>Penaethiaid yn ymrwymo i weithredu cynllun datblygu llafaredd. Ysgolion yn adnabod tirwedd ieithyddol eu hysgolion trwy gasglu a dadansoddi data o'r holiaduron gwe iaith</p>
<p>Uwchsgilio'r gweithlu a chefnogi'r gweithredu trwy sicrhau adnoddau pwrpasol.</p>	<p>Uwchsgilio'r gweithlu i weithredu technegau methodoleg trochi effeithiol (sesiwn ar gyfer holl weithlu'r ysgolion sydd wedi ymrwymo i weithredu'r cynllun datblygu llafaredd)</p>
<p>Rhannu profiadau ac arferion effeithiol ac olrhain effaith unrhyw weithredu.</p>	<p>Amserlennu a gweithredu'r cynllun datblygu llafaredd-ysgolion peilot yn rhannu'u profiadau ar arferion effeithiol a sicrhau cydweithrediad holl staff yr ysgol (dau sesiwn rhithiol ar gyfer cydgysylltwyr iaith yr ysgolion)</p> <p>Olrhain effaith y gweithredu a rhannu'r arferion gorau mewn cyfarfod rhwng Cydlynwyr iaith yr ysgolion cynradd/uwchradd. yn rhannu'u bwriadau a thrafod y drefn mwyaf effeithiol o olrhain effaith y gwaith a rhannu'r arferion gorau. Adrodd yn ôl ar weithredu dalgylchol yn dymhorol-cynradd/uwchradd ayyb</p>
<p>Sicrhau cyswllt cynradd/uwchradd gan rannu'r arferion gorau.</p>	<p>Sesiwn cynnal momentwm- sesiwn fyddai yma i rannu syniadau newydd a rhannu'r arferion gorau/mwyaf effeithiol rhwng holl ysgolion y Sir- cyswllt cynradd/uwchradd</p>

Deilliant 4

Mwy o ddysgwyr yn astudio ar gyfer cymwysterau Cymraeg (fel pwnc) a phynciau drwy gyfrwng y Gymraeg

Ble rydym ni nawr?

Sicrheir cefnogaeth i newydd-ddyfodiaid barhau i ddatblygu eu sgiliau iaith a'u hyfedredd yn y Gymraeg, gan gynnwys astudio cymwysterau Cymraeg (fel pwnc) a phynciau drwy gyfrwng y Gymraeg. Disgwylir i bob disgybl sydd wedi cyrraedd lefel 3 cadarn ar ddiwedd CA2 ddilyn Rhaglen Astudio Cymraeg [Iaith Gyntaf] er mwyn sicrhau dilyniant a pharhad priodol. Yn ychwanegol, mae angen sicrhau bod pob disgybl yn astudio'r Gymraeg fel pwnc hyd at ddiwedd B11 ac yn sefyll profion ac arholiadau allanol priodol ar ddiwedd CA3 a CA4.

Ein sefyllfa bresennol yn ymwneud â mwy o ddysgwyr yn astudio ar gyfer cymwysterau Cymraeg (fel pwnc) a phynciau drwy gyfrwng y Gymraeg:

O ganlyniad i bandemig Covid-19 nid oes data ar gael ar gyfer 2019/20 na 2020/21.

2018/19	Dysgwyr gofrestrwyd i wneud TGAU Cymraeg (Iaith Gyntaf) a chofrestru ar gyfer o leiaf dau gymhwyster pellach drwy gyfrwng y Gymraeg.	78.1%
2018/19	Dysgwyr gofrestrwyd i wneud TGAU Cymraeg (Iaith Gyntaf) a chofrestru ar gyfer o leiaf pump cymhwyster pellach ar lefel 1 neu lefel 2 drwy gyfrwng y Gymraeg.	64.2%
2018/19	Dysgwyr ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 4 enillodd raddau A*-C mewn TGAU Cymraeg Iaith Gyntaf	70.7%

Ble rydym yn ceisio bod o fewn 5 mlynedd cyntaf y Cynllun hwn a sut rydym yn bwriadu cyrraedd yno?

Bydd cynnydd yn niferoedd y dysgwyr gofrestrwyd i wneud:

- TGAU Cymraeg (Iaith Gyntaf);
- cymhwysterau pellach drwy gyfrwng y Gymraeg;
- cymhwysterau pellach galwedigaethol ar lefel 1 neu lefel 2 drwy gyfrwng y Gymraeg; a
- chynnydd yn nifer y dysgwyr ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 4 enillodd raddau A*-C mewn TGAU Cymraeg Iaith Gyntaf.

Bydd pob ysgol yn ymateb i dargedau i gyrraedd y cynnydd, a bydd cynhaliath briodol yn cael ei chynnig a'i monitro'n gyson i'w galluogi i gyflawni'r cynnydd.

EIN PRIF AMCANION I
GYFLAWNI'N DEILLIANNAU

SUT Y BYDDWN YN CYFLAWNI'N HAMCANION

<p>Cynyddu ymhellach ganran y disgyblion sy'n parhau i astudio'u pynciau drwy'r Gymraeg neu'n ddwyieithog yn CA4 hyd at sefyll arholiadau allanol</p>	<p>Sicrhau bod yr holl ysgolion yn ymateb i ofynion y Mesur Dysgu a Sgiliau ac wedi manteisio ar bartneriaethau cydweithredol. Sicrhau bydd staff addysgol yn llenwi Holiadur Sgiliau Iaith yn flynyddol, ar ddechrau blwyddyn addysgol i ddiweddarau'r data er mwyn cynllunio hyfforddiant a chefnogaeth briodol i wireddu hyn. Cydlynnydd Addysg Ôl-16 Gwynedd ac Ynys Môn/ Cydlynnydd Strategaeth Iaith Uwchradd/ Swyddog Addysg Uwchradd(RhPJ)</p>
<p>Sicrhau bod Cyrsiau Galwedigaethol Cydweithredol a ariennir trwy grant Rhwydwaith 14-19 ar gael yn y Gymraeg/dwyieithog [gan gynnwys unrhyw gyrsiau a ddarperir gan y Colegau]</p>	<p>Parhau i geisio gwella a chodi safonau'n y Gymraeg. Bydd disgwyl i bob ysgol uwchradd ddefnyddio'r carfanau iaith i gynllunio'n ieithyddol ar gyfer defnyddio'r Gymraeg fel cyfrwng dysgu. Cydlynnydd Strategaeth Iaith Uwchradd/ Swyddog Addysg Uwchradd(RhPJ)</p> <p>Hyrwyddo datblygiad addysg ddwyieithog fel un o brif flaenoriaethau strategol y Rhwydwaith 14-19, gan sicrhau dilyniant ieithyddol priodol fel rhan greiddiol o gylch gorchwyl grwpiau gweithredol y Rhwydwaith. Cydlynnydd Addysg Ôl-16 Gwynedd ac Ynys Môn/ Cydlynnydd Strategaeth Iaith Uwchradd/ Swyddog Addysg Uwchradd(RhPJ)</p> <p>Bydd disgwyl i bob cwrs 14-16 gaiff ei gyllido trwy'r grant fod ar gael yn ddwyieithog. Cydlynnydd Addysg Ôl-16 Gwynedd ac Ynys Môn/ Cydlynnydd Strategaeth Iaith Uwchradd/ Swyddog Addysg Uwchradd(RhPJ)</p> <p>Blaenoriaeth i barhau i ddatblygu adnoddau e-ddysgu rhyngweithiol dwyieithog trwy waith Tîm e-ddysgu'r Rhwydwaith 14-19, a gyllidir trwy arian grant 14-19. Cydlynnydd Addysg Ôl-16 Gwynedd ac Ynys Môn/ Swyddog Addysg Uwchradd(RhPJ)</p> <p>Gweithio gyda'r prif randdeiliaid i sicrhau bod yr arlwy a gynigir yn caniatáu mynediad i ddarpariaeth ddwyieithog ar draws y pynciau galwedigaethol a Bagloriaeth Cymru yn CA4. Cydlynnydd Addysg Ôl-16 Gwynedd ac Ynys Môn/ Cydlynnydd Strategaeth Iaith Uwchradd/ Swyddog Addysg Uwchradd(RhPJ)</p>
<p>Sicrhau bod y Grwpiau Partneriaeth ac Is-grŵp Ansawdd Rhwydwaith 14-19 yn monitro dilyniant ieithyddol y cyrsiau a ddarperir.</p>	<p>Arwain y gwaith cynllunio strategol Ôl-16 yng nghydestun gofynion agenda Trawsnewid gan y Bartneriaeth Ddysgu 16+. Bydd adnabod effaith tebygol model cydweithredol ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg/dwyieithog yn un o'i brif ffrydiau gwaith. Cydlynnydd Addysg Ôl-16 Gwynedd ac Ynys Môn / Swyddog Addysg Uwchradd(RhPJ)</p> <p>Rhoi sylw i adnabod y prif ffactorau sy'n dylanwadu ar ddewis cyfrwng dysgu 16+. Cydlynnydd Addysg Ôl-16 Gwynedd ac Ynys Môn / Swyddog Addysg Uwchradd(RhPJ)</p>

	<p>Monitro data cofrestriadau ar gyfer arholiadau allanol trwy gyfrwng y Gymraeg o bob sefydliad (yn cynnwys cyrsiau partneriaeth Alwedigaethol yn y Colegau) a gosod Targedau Cynnydd i bob sefydliad / cwrs partneriaeth.</p> <p>Cydlynnydd Addysg Ôl-16 Gwynedd ac Ynys Môn / Swyddog Addysg Uwchradd(RhPJ)</p>								
<p>Monitro cyfrwng iaith astudiaethau dysgwyr CA4 a CA5.</p>	<p>Cefnogi ysgolion uwchradd i gynyddu nifer y cymwysterau y gall dysgwyr eu hastudio drwy gyfrwng y Gymraeg.</p> <p>Cydlynnydd Addysg Ôl-16 Gwynedd ac Ynys Môn/ Cydlynnydd Strategaeth Iaith Uwchradd/ Swyddog Addysg Uwchradd(RhPJ)</p> <p>Gweithio gydag adrannau'r Gymraeg yn yr ysgolion gan roi sylw i ostwng y niferoedd nad sy'n sefyll y Gymraeg fel iaith gyntaf ac/neu ail iaith, er mwyn sicrhau nad oes un disgybl yn gadael yr un o'r ysgolion yn 16 oed heb gymhwyster cydnabyddedig yn y Gymraeg.</p> <p>Cydlynnydd Strategaeth Iaith Uwchradd/ Swyddog Addysg Uwchradd(RhPJ)</p>								
<p>Cefnogi Adrannau Iaith yr ysgolion i gefnogi disgyblion i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg</p>	<p>Cydweithio i gefnogi datblygiad sgiliau Cymraeg i sicrhau bod pob disgybl yn parchu pob iaith a dealltwriaeth o iaith. Gweledigaeth y Strategaeth Iaith Uwchradd yn glir o fewn yr adrannau wrth weithredu disgwyliadau i ddisgyblion ddilyn rhaglen Cymraeg Iaith Gyntaf sy'n ddilyniant effeithiol o un cyfnod allweddol i'r llall. Sicrhau profiadau cwricwlaidd fydd yn adeiladu, dangos cynnydd ac yn ddilyniant o un Cyfnod Allweddol i'r llall. Sicrhau cefnogaeth effeithiol i rieni drwy hyrwyddo manteision addysgol dwyieithrwydd, a chreu cyswllt cadarn â'r gymuned, i gyflwyno'r Gymraeg mewn modd adeiladol a chadarnhaol a chroesawgar.</p> <p>Cydlynnydd Strategaeth Iaith Uwchradd/ Swyddog Dysgu a Datblygu Iaith Gymraeg, Cefnogaeth Gorfforaethol/ Swyddog Addysg Arfon (DJ)/ Swyddog Addysg Uwchradd(RhPJ)/Staff Ysgolion</p>								
<p>Cynyddu canran disgyblion CA4 sy'n cyrraedd graddau A*-C mewn TGAU Cymraeg</p>	<p>Monitro canran y disgyblion ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 4 sy'n cyrraedd graddau A* i C mewn TGAU Cymraeg Iaith Gyntaf a gosod targedau ar gyfer ysgolion:</p> <table border="1" data-bbox="762 1570 1378 1720"> <thead> <tr> <th>Sefyllfa gyfredol</th> <th>2018/2019</th> <th>2019/2020</th> <th>2020/2021</th> </tr> </thead> <tbody> <tr> <td>76.3%</td> <td>78.1%</td> <td>79%</td> <td>DIM DATA AR GAEL</td> </tr> </tbody> </table> <p>Cydlynnydd Strategaeth Iaith Uwchradd/ Ymgynghorwyr GwE/ Swyddog Addysg Uwchradd(RhPJ)</p>	Sefyllfa gyfredol	2018/2019	2019/2020	2020/2021	76.3%	78.1%	79%	DIM DATA AR GAEL
Sefyllfa gyfredol	2018/2019	2019/2020	2020/2021						
76.3%	78.1%	79%	DIM DATA AR GAEL						
<p>Cydweithio ag ysgolion i sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei chynnig fel pwnc Safon Uwch mewn ysgolion, gan gefnogi ysgolion i</p>	<p>Cydweithio ag ysgolion i hyrwyddo manteision astudio'r Gymraeg fel pwnc ymhlith disgyblion a rhieni/gofalwyr</p> <p>Cydlynnydd Strategaeth Iaith Uwchradd/ Swyddog Addysg Uwchradd(RhPJ)</p>								

gynnal dosbarthiadau llai os oes rhaid er mwyn diogelu'r pwnc.	Gwneud defnydd o gynnwys ymgyrchoedd i annog mwy i ystyried Cymraeg fel Safon Uwch ar wahanol gyfryngau. Cydlynnydd Strategaeth Iaith Uwchradd/ Swyddog Addysg Uwchradd(RhPJ)
	Ceisio annog disgyblion i barhau gyda'r Gymraeg hyd Safon Uwch, drwy bwysleisio manteision y Gymraeg fel pwnc i'w astudio ymhellach yn dilyn TGAU. Cydlynnydd Strategaeth Iaith Uwchradd/ Swyddog Addysg Uwchradd(RhPJ)
	Ceisio gwneud y pwnc yn apelgar a pherthnasol i ddisgyblion – drwy sicrhau dulliau dysgu ac addysgu amrywiol a defnydd effeithiol o adnoddau perthnasol yn yr ysgolion. Cydlynnydd Strategaeth Iaith Uwchradd/ Swyddog Addysg Uwchradd(RhPJ)
Sicrhau nad oes yr un disgybl yn gadael yr un o'r ysgolion heb gymhwyster cydnabyddedig yn y Gymraeg	Monitro cofrestriadau ysgolion, a darparu ôl-ofal priodol i gynnig cefnogaeth i hwyr-ddyfodiaid i gynnal eu sgiliau yn yr ysgolion, a monitro cofrestriadau ysgolion. Cydlynnydd Strategaeth Iaith Uwchradd/ Ymgynghorwyr GwE/ Swyddog Addysg Uwchradd(RhPJ)
DEILLIANT 4: CYNLLUN GWEITHREDU STRATEGAETH IAITH UWCHRADD	
Cryfhau pontio a sicrhau dilyniant ieithyddol:	Cydweithio ar gynllun pontio tebyg i'r un a nodir yn neilliant 3, gan ganolbwyntio ar flynyddoedd 8 a 9. Grwpiau Ffocws i weld beth yw'r gofidiau/anawsterau maen nhw'n poeni amdanynt. Ystyried sut mae cryfhau'r neges o ran manteision dwyieithrwydd. Ystyried a oes modd cryfhau'r cysylltiad gyda'r cartref. Gweithio gydag adrannau penodol o fewn ysgolion all fod angen cymorth i'w cefnogi i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Anghenion hyfforddiant – sut hyfforddiant sydd ei angen, a monitro deilliannau unrhyw hyfforddiant a gynigir. Eglurder o ddisgwyliadau'r Awdurdod o ran ysgolion gosod targedau i ysgolion parthed gweithredu Polisi Iaith y Sir.
Cyrsiau Galwedigaethol	Sefydlu a chynnal partneriaeth gyda'r Darparwyr. Monitro'r ddarpariaeth ieithyddol, sefydlu cytundeb gwasanaeth sy'n driw i Bolisi Iaith y Sir. Eglurder o ran beth yw'r ddarpariaeth i gael ei chyfathrebu'n glir gyda rhieni a disgyblion.
Y Gymraeg (Safon Uwch)	Agenda genedlaethol – sut mae hyn yn berthnasol i Wynedd? Angen codi ymwybyddiaeth a marchnata'r pwnc. Unwaith eto, gwrando ar Lais y Disgyblion o ran beth

	sy'n apelio a beth nad sy'n apelio atynt, ac ystyried sut mae gweithredu ar hynny.
--	--

Ble rydym yn disgwyl bod ar ddiwedd ein Cynllun deng mlynedd?

Byddwn yn anelu i adfer a chynnal safonau trwy dargedu yr anghenion penodol sydd yn cael eu hamlygu, ac olrhain effaith y gweithredu i gydymffurfio gyda nod Polisi Iaith y Sir. Bydd dylanwad gadarnhaol y Gyfundrefn Addysg Drochi'n y Sir wedi'i gwreiddio a bydd effaith gadarnhaol i'w weld ar gynnydd y disgyblion. Bydd cynnydd amlwg yn niferoedd y dysgwyr fydd yn astudio ar gyfer cymwysterau Cymraeg (fel pwnc) a phynciau drwy gyfrwng y Gymraeg.

Data Allweddol

Fe welir bod maint y cohort sydd yn astudio Cymraeg Iaith Gyntaf yn sylweddol uwch yng Ngwynedd. Mae'r data isod yn ddata 2018/19 gan nad oes data mwy cyfredol ar gael. Bydd cynnal y safonau isod yn flaenoriaeth, ac fe fydd targedau yn cael eu pennu yn dilyn trafodaethau gyda'r ysgolion.

% disgyblion (Cymraeg Iaith Gyntaf) ar ddiwedd CA4 sy'n cyrraedd graddau A*-C mewn TGAU Cymraeg Iaith Gyntaf	
PERFFORMIAD 2019	70.7%

% disgyblion (Ail Iaith) ar ddiwedd CA4 sy'n cyrraedd graddau A*-C mewn TGAU Ail Iaith (Cwrs Hir)	
PERFFORMIAD 2019	97.7%

Niferoedd a % y dysgwyr sy'n astudio ar gyfer cymwysterau Cymraeg (fel pwnc) a phynciau drwy gyfrwng y Gymraeg

2022 - 2023	2023 - 2024	2024 - 2025	2025 - 2026	2026 - 2027
2027 - 2028	2028 - 2029	2029 - 2030	2030 - 2031	2031 - 2032

Deilliant 5

Mwy o gyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destunau gwahanol yn yr ysgol

Ble rydym ni nawr?

Cyflawnir prif amcanion y Siarter Iaith a'r Strategaeth Iaith Uwchradd trwy:

- gefnogi datblygiad sgiliau i allu defnyddio'r Gymraeg
- drwytho'r dysgwyr mewn agweddau cadarnhaol o safbwynt Y Gymraeg
- cynnig cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg mewn ystod o sefyllfaoedd
- greu awydd i fod eisiau defnyddio'r Gymraeg

Mae ymroddiad a pherchnogaeth y tîm arweinyddiaeth ym mhob ysgol yn gadarn o'i phlaid ac â disgygliadau uchel o safbwynt ei gweithredu. Mae strwythur staffio'r ysgolion yn nodi cyfrifoldebau ac atebolrwydd clir am weithrediad gwahanol agweddau o fywyd ysgol sy'n ymwneud â'r Gymraeg, mewn partneriaeth â'r gymuned ehangach er mwyn sicrhau perchnogaeth lawn ohoni.

Cynllunio pob ysgol yn fwriadus i gynnig cyfleoedd ffurfiol ac anffurfiol i'r disgyblion ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol. Cefnogir pob cyfle i'r disgyblion ddefnyddio neu ymarfer yr iaith a'u cynorthwyo i sylweddoli bod byd cymdeithasol a diwylliannol cyfoethog yn gysylltiedig â'r Gymraeg. Defnyddir data o Hunanasesiad Iaith Gymraeg y gweithlu i sicrhau fod unrhyw anghenion hyfforddi yn cael eu diwallu er mwyn cefnogi sgiliau llafar y disgyblion.

Caiff y Gwe Iaith ei gwblhau ddwy waith yn ystod blwyddyn addysgol. Gwneir defnydd o'r data i ganfod gwaelodlin o batrymau ac arferion ieithyddol dysgwyr oddi fewn a thu allan i furiau'r ysgol. Gwneir defnydd o'r data ynglŷn a'u hagweddau a'u hyder i ddefnyddio'r Gymraeg ar gyfer camau gweithredu pellach. Ni fu'n bosib i ysgolion gwblhau y Gwe Iaith o ganlyniad i'r Cyfnod Clo. Ni fu'n bosib defnyddio canlyniadau'r gwe i fesur effaith ymyrraethau'r flwyddyn ar ddefnydd cymdeithasol dysgwyr o'r Gymraeg, gan fod cwestiynau'r gwe iaith yn ymwneud a sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol dysgwyr yn yr ysgol. O ganlyniad, mae'r data yn anghyflawn am 2019-2020.

Yn sgil y Cyfnod Clo, nid oedd modd gweithredu ymrwymadau hunanarfarniadau'r ysgolion mewn ymateb i'r Siarter Iaith a'r Strategaeth Iaith Uwchradd. Drwy gefnogaeth cyllidol gan Lywodraeth Cymru drwy'r consortia rhanbarthol, cyd-gynlluniwyd ymyrraethau ar lefel clwstwr (cynradd ac uwchradd) i gryfhau defnydd cymdeithasol disgyblion o'r Gymraeg, ynghyd ag ymateb i anghenion sgiliau iaith y gweithlu addysg. Bu i rai clystyrau lwyddo i weithredu eu cynlluniau fel y bwriadwyd, ond ni fu hyn yn bosib ar draws pob clwstwr o fewn y Sir.

Arallgyfeiriwyd cefnogaeth y Cydlynwyr Siarter Iaith a Strategaeth Iaith Uwchradd drwy greu adnoddau addysgol i gefnogi'r Gymraeg yn sirol, rhanbarthol a chenedlaethol, gan ganolbwyntio'n bennaf ar hybu'u sgiliau Llafaredd. Comisiynwyd ymgynghorydd llawrydd i

greu clipiau fideo ar gyfer y Cyfnod Sylfaen fel adnodd i annog defnydd o'r iaith lafar i ddysgwyr (yn arbennig o aelwydydd di-Gymraeg).

Bydd cefnogaeth gyllidol gan Lywodraeth Cymru drwy'r consortia rhanbarthol yn galluogi ysgolion i gyd-gynllunio ymyraethau ar lefel clwstwr (cynradd ac uwchradd) er mwyn cryfhau defnydd cymdeithasol dysgwyr o'r Gymraeg, ynghyd ag ymateb i anghenion sgiliau iaith y gweithlu addysg. Bydd yr ysgolion yn ceisio sicrhau bod eu cynlluniau yn ceisio ymateb i sefyllfa'r Gymraeg yn y clwstwr yn sgil y Cyfnod Clo.

Yn sgil pandemig Covid-19, nid oes data meintiol ar gael i'w gynnwys yma. Byddwn yn defnyddio data canlyniadau'r Gwe Iaith i fesur cynnydd yn y defnydd o'r Gymraeg ymhlith ein disgyblion.

Ble rydym yn ceisio bod o fewn 5 mlynedd cyntaf y Cynllun hwn a sut rydym yn bwriadu cyrraedd yno?

Gweler ein cynllun gweithredu isod:

EIN PRIF AMCANION I GYFLAWNI'N DEILLIANNAU	SUT Y BYDDWN YN CYFLAWNI'N HAMCANION
Parhau gyda gwaith y Siarter Iaith a'r Strategaeth Iaith i arwain at gynnydd pellach yn nefnydd cymdeithasol a chwricwlaidd disgyblion o'r Gymraeg.	Datblygu ymhellach rôl y Siarter Iaith a'r Strategaeth Iaith gan sicrhau bod negesun a gwybodaeth perthnasol ynglŷn â chyflawni'u gofynion yn cael eu gweithredu'n effeithiol yn yr ysgolion. Cydlynnydd Siarter Iaith/ Cydlynnydd Strategaeth Iaith Uwchradd/ Swyddog Addysg Arfon (DJ)/ Swyddog Addysg Uwchradd(RhPJ)
	Cynnal cyfarfodydd tymhorol i rannu'r wybodaeth mwyaf diweddar efo'r cyd-gysylltwyr iaith ac yn annog yr ysgolion cynradd i wneud defnydd o ddeunyddiau a geir ar wefan y Siarter Iaith a sianeli Seren a Sbarc. Cydlynnydd Siarter Iaith/ Swyddog Addysg Arfon(DJ) Hyrwyddo ymhellach werth a manteision a defnyddioldeb dwyieithrwydd er mwyn cryfhau cymhelliant disgyblion i ddatblygu'n bersonau rhugl yn y ddwy iaith. Cydlynnydd Siarter Iaith/ Cydlynnydd Strategaeth Iaith Uwchradd/ Swyddog Addysg Arfon (DJ)/ Swyddog Addysg Uwchradd(RhPJ) Hyrwyddo defnydd cymdeithasol plant a phobl ifanc o'r Gymraeg yn yr ysgol ac yn y gymuned. Cydlynnydd Siarter Iaith/ Cydlynnydd Strategaeth Iaith Uwchradd/ Swyddog Addysg Arfon (DJ)/ Swyddog Addysg Uwchradd(RhPJ) Hunaniaith Byw'n Iach Urdd

	<p>Ffermwyr Ifanc Gwasanaeth Ieuencid</p> <p>Mapio'r ddarpariaeth gyfredol sydd ar gael i blant oed ysgol ddefnyddio'u sgiliau Cymraeg y tu allan i'r dosbarth a'r ysgol drwy weithio mewn partneriaeth â gwasanaethau ieuencid megis Yr Urdd a Menter Iaith.</p> <p>Cydlynnydd Siarter Iaith/ Cydlynnydd Strategaeth Iaith Uwchradd/ Swyddog Addysg Arfon (DJ)/ Swyddog Addysg Uwchradd(RhPJ) Rhanddeiliaid - gweler uchod</p>
Cyngor iaith yn gweithredu mhob ysgol ac yn glir o'u rôl a'u dyletswyddau.	<p>Sicrhau bod llais y disgybl yn ganolog yn y cynlluniau i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn gymdeithasol.</p> <p>Defnyddio data'r Gwe Iaith fel gwaelodlin wrth gytuno ar gamau gweithredu.</p> <p>Datblygu rôl arweinwyr a llysgenhadon iaith yn yr ysgol gyda disgwyliadau penodol.</p> <p>Cynnal a hyrwyddo digwyddiadau diwylliannol Cymraeg yn yr ysgol.</p> <p>Cyd-gynllunio i boblogeiddio'r Gymraeg fel cyfrwng ar y cyfryngau cymdeithasol.</p> <p>Cydlynnydd Siarter Iaith/ Cydlynnydd Strategaeth Iaith Uwchradd/ Swyddog Addysg Arfon (DJ)/ Swyddog Addysg Uwchradd(RhPJ) Staff Ysgolion</p>
Gweithgareddau wedi'u trefnu i hyrwyddo'r Gymraeg yn y Cyfnod Sylfaen.	<p>Trefnu amserlen o weithgareddau i hybu'r iaith ac i ennyn bwrlwm yn y Gymraeg mewn Addysg yn y CS.</p> <p>Cydlynwyr iaith /Mentrau Iaith/ Cefnogaeth Gorfforaethol / Cydlynnydd Siarter Iaith/ Swyddog Addysg Arfon (DJ)</p>
Manteisio ar gyfleoedd yn yr ysgol gynradd ac uwchradd i gydweithio gydag asiantaethau allanol i hybu defnydd o'r iaith Gymraeg.	<p>Cydweithio gydag asiantaethau allanol/cenedlaethol i hybu chwaraeon a chyfleoedd celfyddydol drwy gyfrwng y Gymraeg.</p> <p>Cydlynnydd Siarter Iaith Cynradd/Cydlynnydd Strategaeth Iaith Uwchradd</p>

DEILLIANT 5: CYNLLUN GWEITHREDU STRATEGAETH IAITH UWCHRADD	
Cryfhau rôl y Cydlynwyr Iaith.	Sicrhau bod strwythur clir i rôl Cydlynwyr Iaith i sicrhau rhaglen o weithgareddau pwrpasol, yn atebol i ddeilliannau'r CSGA. Arferion da i gael eu rhannu ymysg dalgylchoedd – angen am fwy o atebolrwydd a strwythur clir wrth gynllunio ar gyfer gwariant unrhyw grant posibl ddaw o du'r Llywodraeth. Bydd hynny yn osgoi cynllunio heb weledigaeth a phwrpas clir.
Cryfhau Llais y Disgybl	Beth yn union maen nhw'n ei deimlo all ddylanwadu arnynt? Annog cydweithio rhwng ysgolion o fewn y Sir – er mwyn rhannu arferion da a chreu cysylltiadau fydd yn hybu

	defnydd o'r iaith. Ystyried a oes lle i ymestyn y tu hwnt i ffiniau'r Sir? Sut?
Rôl Llysgenhadon iaith	Ail sefydlu a chryfhau system o Lysgenhadon iaith yn yr ysgolion. Statws i'r rôl, yn union fel statws Swyddogion. Gwranddo ar syniadau gan ddisgyblion i weld sut gallai hyn edrych – pa fodel fyddai orau? Creu ymdeimlad o gyfrifoldeb tuag at yr iaith ac i ddylanwadu ar rai iau yn yr ysgol. Archwilio'r posibilrwydd o gyd-weithio gydag ysgolion cynradd? Potensial ar gyfer hynny yn sicr.
DEILLIANT 5: CYNLLUN GWEITHREDU SIARTER IAITH	
Hybu cydweithio a chynllunio dalgylchol er mwyn ehangu'r mynediad at ddiwylliant Cymraeg a Chymreig. Magu mwynhad at weithgareddau trwy gyfrwng Y Gymraeg	Hybu ymagweddau cadarnhaol tuag at ddefnyddio a mwynhau'r Gymraeg-ystyried cynnal gweithdai creu podlediadau;gweithdai creu clipiau ffilm, rhaglenni radio, gweithgareddau flogio'n ddalgylchol; Cynllun Ynni Da- hyrwyddo Cerddoriaeth Cymraeg dros Y We gyda fideos arbennig ar gyfer disgyblion ysgol, gweithdai cerddoriaeth, ukulele neu gyfansoddi/sesiynau rhithiol yn cynnig sesiynau , actio, sgriptio, chwarae rôl.
Cryfhau'r berthynas o gydweithio a sgwrsio'n anffurfiol rhwng disgyblion cynradd/uwchradd	Adnabod sut y gall iaith disgyblion ddylanwadu ar ei gilydd Cryfhau'r berthynas o gydweithio cynradd/uwchradd e.e.cynnal cyfarfodydd cyswllt rhithiol/cyfarfodydd wyneb yn wyneb gan sefydlu'r arferiad o ddefnyddio'r Gymraeg yn anffurfiol ymysg disgyblion blwyddyn 6 a 7. Atgyfnerthu sgiliau TGCh. Sefydlu arferiad o gynnal cyfarfodydd 'Gwefeillio' rhwng disgyblion blwyddyn 6 a 7 er mwyn sefydlu patrwm o sgwrsio'n anffurfiol trwy gyfrwng Y Gymraeg cyn i'r plant o'r adran gynradd drosgwlyddo i'r uwchradd.
Hybu ymagweddau cadarnhaol tuag at ddefnyddio'r Gymraeg	Cynnal gweithdai efo staff a disgyblion ysgolion cynradd uwchradd gyda Mererid Hopwood aDr Enlli Thomas (pwysigrwydd dwyieithrwydd) er mwyn; <ul style="list-style-type: none"> • Codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd siarad Cymraeg a'r buddion o fod yn

	<p>ddwyieithog mewn byd amlieithog ac amlddiwylliannol.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Anelu at gynnal sgwrs ddwyieithog • Disgyblion yn ymateb i ddata'r Gwe laith ac yn meddwl am ffyrdd o drosglwyddo'r negesuon a chynyddu defnydd o'r Gymraeg.
--	---

Ble rydym yn disgwyl bod ar ddiwedd ein Cynllun deng mlynedd?

Bydd prif amcanion y Siarter Iaith a'r Strategaeth Iaith Uwchradd wedi'u gwreiddio ac yn rhan ganolog i Gynlluniau Datblygu pob ysgol. Bydd ymroddiad a pherchnogaeth gadarn ohonynt, a bydd disgwyliadau uchel o safbwynt ei gweithredu. Bydd strwythur staffio'r ysgolion yn nodi cyfrifoldebau ac atebolrwydd clir am weithrediad gwahanol agweddau o fywyd ysgol sy'n ymwneud â'r Gymraeg, mewn partneriaeth â'r gymuned ehangach er mwyn sicrhau eu perchnogaeth lawn ohoni. Bydd cyfleodd i ddefnyddio'r iaith wedi'u mapio'n glir, a bydd y gweithlu a'r disgyblion yn hyderus yn eu gallu a'u hawydd i ddefnyddio'r iaith ym mhob sefyllfa. Bydd y data a gesglir o'r Gwe laith yn cael ei ddefnyddio fel arf cynllunio ar gyfer camau gweithredu pellach. Bydd disgyblion y Sir yn elwa o gyfundrefn addysg drochi arloesol, sydd yn hyblyg ac yn darparu addysg drochi gyfoes o'r radd flaenaf i'r dysgwyr, gan feithrin eu sgiliau yn y Gymraeg i'w galluogi i lwyddo a ffynnu yn ein hysgolion gan ddod yn siaradwyr hyfedr ddwyieithog.

Data Allweddol

Bydd y data ar gyfer yr adran hon yn cael ei boblogi maes o law, i gynnwys: data'r Gwe laith, data mudiadau ac asiantaethau sy'n cydweithio ac yn darparu cyfleoedd gwahanol i blant a phobol ifanc i ddefnyddio'r Gymraeg e.e. yr Urdd, gweithgareddau Menter Iaith Bangor, Hunaniaith, Clybiau Ieuencid, CFFI, Cwmnïau drama, Clybiau chwaraeon ayyb, data gwirfoddolwyr e.e. gwirfoddolwyr sy'n ymwneud â chlybiau garddio, chwaraeon, darllen ayyb, data gan y Mudiad Meithrin, Dechrau'n deg, ystadegau/canrannau cyfrwng pwnc.

Cynyddu cyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destunau gwahanol yn yr ysgol

2022 - 2023	2023 - 2024	2024 - 2025	2025 - 2026	2026 - 2027
2027 - 2028	2028 - 2029	2029 - 2030	2030 - 2031	2031 - 2032

Deilliant 6

Cynnydd yn y ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (“ADY”) (yn unol â'r dyletswyddau a bennir gan y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018)

Ble rydym ni nawr?

Mae pob disgybl sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn cael mynediad at wasanaethau cyfrwng Cymraeg yng Ngwynedd. Mae darpariaethau a gwasanaethau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog ar gael ar gyfer yr holl ystod ac amrywiaeth o Anghenion Dysgu Ychwanegol.

Mae gofyn o fewn Deddfwriaeth ADY (2018) sydd yn dod i rym ym Medi 2021 yn gofyn i sicrhau fod dysgwyr yn gallu cael darpariaeth dysgu ychwanegol drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae pob aelod o staff o fewn y Gwasanaeth ADY a CH yn rhugl yn y Gymraeg ac yn gallu darparu yn ddwyieithog. Mae cyfrwng iaith y mewnbwn yn ddibynnol ar anghenion dysgu unigolion.

Ble rydym yn ceisio bod o fewn 5 mlynedd cyntaf y Cynllun hwn a sut rydym yn bwriadu cyrraedd yno?

EIN PRIF AMCANION I GYFLAWNI’N DEILLIANNAU	SUT Y BYDDWN YN CYFLAWNI’N HAMCANION
<p>Parhau i ddarparu addysg ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol trwy gyfrwng y Gymraeg, ac yn ddwyieithog, ar hyd pob cam o’r daith addysgol.</p>	<p>Pob disgybl sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn parhau i gael mynediad at wasanaethau cyfrwng Cymraeg yng Ngwynedd.</p> <p>Pennaeth Cynorthwyol Anghenion Addysg Arbennig a Chynhwysiad (FfEE)</p>
	<p>Asesu maint a gallu’r Gweithlu ADY cyfrwng Cymraeg gan ddefnyddio’r canlyniadau i gynllunio’r gweithlu’n briodol.</p> <p>Pennaeth Cynorthwyol Anghenion Addysg Arbennig a Chynhwysiad (FfEE)</p>
	<p>Cymryd camau i gynnal archwiliad blynyddol o wasanaethau ADY a Chynhwysiad os bydd bylchau’n ymddangos yn y ddarpariaeth Gymraeg.</p> <p>Pennaeth Cynorthwyol Anghenion Addysg Arbennig a Chynhwysiad (FfEE)</p>
	<p>Monitro, asesu’r galw a chynllunio o gwmpas anghenion plant a phobl ifanc a’u teuluoedd, a pharhau i sicrhau mynediad i wasanaethau sy’n gwbl ddwyieithog.</p> <p>Pennaeth Cynorthwyol Anghenion Addysg Arbennig a Chynhwysiad (FfEE)</p>
	<p>Ystyried unrhyw geisiadau rhesymol am gymorth a chefnogaeth gan siroedd eraill y</p>

	<p>rhanbarth sydd yn wynebu anawsterau o ran eu darpariaeth cyfrwng Cymraeg.</p> <p>Pennaeth Cynorthwyol Anghenion Addysg Arbennig a Chynhwysiad (FfEE)</p>
<p>Cynllunio o gwmpas anghenion plant a phobl ifanc a'u teuluoedd.</p>	<p>Ymgysylltu gyda rhieni/gofalwyr er mwyn sicrhau eu bod yn deall y ddarpariaeth a'r cymorth sydd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg.</p> <p>Pennaeth Cynorthwyol Anghenion Addysg Arbennig a Chynhwysiad (FfEE)</p>
	<p>Cynnal archwiliad o'r adnoddau dysgu sydd eu hangen ar hyn o bryd ac nad ydynt ar gael o fewn yr AALI er mwyn cefnogi dysgwyr ADY, yn ogystal ag edrych ar y ffordd mae adnoddau'n cael eu rhannu'n fewnol ac yn rhanbarthol.</p> <p>Pennaeth Cynorthwyol Anghenion Addysg Arbennig a Chynhwysiad (FfEE)</p>
<p>Gweithredu'r Strategaeth ADY a Chynhwysiad Gwynedd ac Ynys Môn.</p>	<p>Defnyddio canfyddiadau arolygiadau o dan adran 63 o Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 er mwyn gwella darpariaeth ar gyfer personau ag anghenion dysgu ychwanegol ac ar gyfer cynllunio gweithlu o fewn y sector ADY.</p> <p>Pennaeth Cynorthwyol Anghenion Addysg Arbennig a Chynhwysiad (FfEE)</p>
<p>Ble rydym yn disgwyl bod ar ddiwedd ein Cynllun deng mlynedd?</p>	
<p>Gweler Cynlluniau Gweithredu ADY y Sir.</p>	

Deilliant 7

Cynnydd yn nifer y staff addysgu sy'n gallu addysgu Cymraeg (fel pwnc) a thrwy gyfrwng y Gymraeg

Ble rydym ni nawr?

Disgwylir i weithlu addysg (athrawon, cymorthyddion, cymorthyddion cegin) ddiweddarau Holiadur Sgiliau Iaith yn flynyddol ar ddechrau'r flwyddyn addysgol er mwyn sicrhau data sydd yn gyfredol, i allgoui cynllunio hyfforddiant a chefnogaeth briodol ar eu cyfer, fydd yn eu gallgoui i addysgu Cymraeg (fel pwnc) a thrwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd gofynion y Dynodiadau Iaith yn cael eu gweithredu yn y broses recriwtio, a thargedau yn cael eu monitro i sicrhau cynnydd yn y nifer.

Yn sgil yr Awdit Sgiliau gyda gweithlu ein hysgolion a gynhaliwyd ar draws Rhanbarth y Gogledd yn 2017-18, mae gwaith manwl wedi ei gyflawni i edrych ar ganfyddiadau'r Awdit, ac ystyried pa hyfforddiant a chefnogaeth ieithyddol sydd ei angen ar weithlu ein hysgolion. Yn ystod 2018-19, cynhaliwyd yr hyfforddiannau canlynol:

- Gloywi Iaith: Ysgol Glan y Môr, Pwllheli
- Gloywi Iaith: Ysgol Syr Hugh Owen, Caernarfon
- Parhad o gynlluniau peilot i ddatblygu sgiliau iaith y gweithlu yn Ysgol Friars ac Ysgol Uwchradd Tywyn.

Ble rydym yn ceisio bod o fewn 5 mlynedd cyntaf y Cynllun hwn a sut rydym yn bwriadu cyrraedd yno?

Byddwn yn defnyddio canlyniadau Holiadur Iaith y Gweithlu er mwyn cynllunio cefnogaeth briodol ac yn monitro cynnydd unrhyw gynlluniau a weithredir.

EIN PRIF AMCANION I GYFLAWNI'N DEILLIANNAU	SUT Y BYDDWN YN CYFLAWNI'N HAMCANION
Gwneud defnydd o ddata Cyfrifiad Blynyddol y Gweithlu i lywio gwaith cynllunio'r gweithlu a rhagdybio faint o athrawon fydd eu hangen ar gyfer y dyfodol yn seiliedig ar ragdybiaethau.	Ymwybyddiaeth glir o'r nifer o swyddi gwag sydd o fewn ysgolion yr Awdurdod yn ôl y math o ysgol ac ystyried beth yw'r tueddiadau o ran swyddi gwag. GwE/Llywodraeth Cymru/ALI
	Ymwybyddiaeth glir o'r nifer o athrawon a phenaethiaid sydd eu hangen fesul math o ysgol (a phwnc os yn berthnasol) yn seiliedig ar y sefyllfa bresennol er mwyn ymateb i dargedau. GwE/Llywodraeth Cymru/ALI
Cydweithio gyda chonsortia rhanbarthol a'r Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol er mwyn sicrhau cyflenwad digonol o benaethiaid ar gyfer y sector cyfrwng Cymraeg.	Datgan ei bod yn ofynnol i ddeiliaid swyddi allu cyfathrebu trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg i lefel briodol y swydd wrth hysbysebu swyddi. Pennaeth Addysg(GJ)
	Ymrwymo i feithrin cynhwysedd arweinyddiaeth drwy annog a chefnogi pob ymarferydd i ddatblygu ei botensial arweinyddiaeth ei hun a photensial

	<p>arweinyddiaeth ymarferwyr eraill, gan annog staff i fanteisio ar y cyfleoedd DPP effeithiol hyn.</p> <p>GwE/ Swyddog Addysg Arfon (DJ)/ Swyddog Addysg Uwchradd(RhPJ)</p>
	<p>Llywodraethwyr ysgolion yn meddu ar ddealltwriaeth o ofynion ieithyddol swyddi sydd yn cael eu hysbysebu ac o oblygiadau methu llwyddo i benodi yn unol â gofynion ieithyddol y swydd.</p> <p>Swyddog Adnoddau Cynorthwyol, Addysg(BMJ)/ Swyddog Addysg Arfon (DJ)/ Swyddog Addysg Uwchradd(RhPJ)</p>
<p>Cydweithio gyda chonsortia rhanbarthol a darparwyr addysg gychwynnol i athrawon er mwyn sicrhau cyflenwad digonol o athrawon cyfrwng Cymraeg.</p>	<p>Datgan ei bod yn ofynnol i ddeiliaid swyddi allu cyfathrebu trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg i lefel briodol y swydd wrth hysbysebu swyddi.</p> <p>GwE/ Swyddog Addysg Arfon (DJ)</p>
<p>Mewn cydweithrediad gyda chonsortia rhanbarthol, cynorthwyo athrawon a gweithwyr cymorth i wella'u sgiliau Cymraeg a'u sgiliau addysgu cyfrwng Cymraeg drwy ddefnyddio cyrsiau fel Cynllun Sabothol a chynllunio ôl-ofal i unigolion ar ddiwedd cwrs.</p>	<p>Ymwybyddiaeth glir o faint o weithwyr cymorth dysgu sydd eu hangen o fewn yr Awdurdod, a sicrhau bod cymorth ar gael i gynnal sgiliau Cymraeg y gweithwyr.</p> <p>GwE/ Swyddog Dysgu a Datblygu Iaith Gymraeg, Cefnogaeth Gorfforaethol/ Pennaeth Addysg (GJ)</p>
	<p>Sicrhau bod staff sydd angen cynyddu a gwella'u sgiliau iaith yn derbyn anogaeth a chymorth i ddatblygu'u sgiliau dwyieithog hyd at safon addysgu.</p> <p>Pennaeth Addysg(GJ)/ GwE/ Swyddog Dysgu a Datblygu Iaith Gymraeg, Cefnogaeth Gorfforaethol</p>
	<p>Rhaeadru gwybodaeth am y cyrsiau sydd ar gael ar gyfer athrawon, hyfforddwyr, darlithwyr a chynorthwywyr dosbarth sydd eisieu gwella eu Cymraeg a magu hyder yn yr iaith.</p> <p>Pennaeth Addysg(GJ)/ GwE/ Swyddog Dysgu a Datblygu Iaith Gymraeg, Cefnogaeth Gorfforaethol</p>
	<p>Cynnal trafodaethau ar sut orau i ddatblygu a gloywi iaith ymarferwyr addysg, mamiaith ac ail iaith, er mwyn iddyn nhw deimlo'n hyderus i addysgu a gweinyddu trwy gyfrwng y Gymraeg.</p> <p>GwE/ Swyddog Dysgu a Datblygu Iaith Gymraeg, Cefnogaeth Gorfforaethol/ Cydlynnydd Siarter Iaith/ Cydlynnydd Strategaeth Iaith Uwchradd</p>

	<p>Parhau i gydweithio'n agos gyda Phrifysgol Bangor er mwyn sicrhau bod y Cynllun Sabothol yn cael ei ddefnyddio'n strategol i ddiwallu anghenion ysgolion.</p> <p>GwE</p> <p>Annog mwy o athrawon a chynorthwywyr dosbarth i fanteisio ar y cyfleoedd sy'n bodoli i loywi sgiliau cyfathrebu yn y Gymraeg trwy ddarpariaeth 'Cymraeg i Oedolion' a darpariaeth a geir gan y Cyngor yn uniongyrchol.</p> <p>GwE/ Swyddog Dysgu a Datblygu Iaith Gymraeg, Cefnogaeth Gorfforaethol/ Cydlynnydd Siarter Iaith/ Cydlynnydd Strategaeth Iaith Uwchradd</p> <p>Cynnal a hyrwyddo DPP sy'n cefnogi hyfforddiant i athrawon uwchradd ym methodolegau addysgu a dysgu dwyieithog, gan fanteisio ar enghreifftiau o arfer dda sydd eisoes ar waith yn nifer yr ysgolion ac ymchwil ddiweddar wrth wneud hynny.</p> <p>GwE/ Swyddog Dysgu a Datblygu Iaith Gymraeg, Cefnogaeth Gorfforaethol/ Cydlynnydd Siarter Iaith/ Cydlynnydd Strategaeth Iaith Uwchradd</p> <p>Datblygu hyfforddiant i gymorthyddion ac athrawon gan gynnal gweithdai cydweithredol ar ddatblygu cyfleoedd Llafaredd cyfoethog ac estynedig mewn dosbarthiadau Cyfnod Sylfaen.</p> <p>GwE/ Swyddog Dysgu a Datblygu Iaith Gymraeg, Cefnogaeth Gorfforaethol/ Cydlynnydd Siarter Iaith/ Cydlynnydd Strategaeth Iaith Uwchradd</p>
<p>Cefnogi gweithlu'r ysgolion i ddatblygu eu sgiliau yn y Gymraeg, i loywi iaith, yn ogystal â'u gallu i ddysgu ac addysgu yn Gymraeg a dwyieithog.</p>	<p>Sicrhau bod gan y gweithlu ddisgwyliadau cadarn a theimlad o falchder yn llwyddiant yr ysgol i weithredu'r Strategaeth.</p> <p>Darparu hyfforddiant perthnasol sydd yn ateb anghenion penodol ac yn cefnogi staff i ddatblygu a meithrin eu hyder i ddefnyddio'r iaith.</p> <p>Cefnogi'r gweithlu i allu cyflwyno pynciau yn gynyddol ac yn fwy effeithiol trwy gyfrwng y Gymraeg ac i ddarparu'n effeithiol ar gyfer disgyblion sy'n ddysgwyr y Gymraeg.</p> <p>Cydlynnydd Siarter Iaith/ Cydlynnydd Strategaeth Iaith Uwchradd/ Swyddog Dysgu a Datblygu Iaith Gymraeg, Cefnogaeth Gorfforaethol/ Swyddog Addysg Arfon (DJ)/ Swyddog Addysg Uwchradd(RhPJ)/Staff Ysgolion</p>

	<p>Darparu hyfforddiant addysg drochi priodol i addysgwyr y sir i'w galluogi i ymateb i anghenion disgyblion sy'n newydd ddyfodiaid i'r ysgol, ac/neu i newydd ddyfodiaid sy'n trosglwyddo'n ôl i'r ysgolion yn dilyn cyfnod yn y Gyfundrefn Drochi.'</p> <p>Cydlynnydd Siarter Iaith/ Cydlynnydd Strategaeth Iaith Uwchradd/ Swyddog Dysgu a Datblygu Iaith Gymraeg, Cefnogaeth Gorfforaethol/ Swyddog Addysg Arfon (DJ)/ Swyddog Addysg Uwchradd(RhPJ)/Staff Ysgolion</p>
DEILLIANT 7: CYNLLUN GWEITHREDU STRATEGAETH IAITH UWCHRADD	
Anghenion hyfforddi	Gwneud defnydd o ddata Awdit Sgiliau Iaith – adnabod anghenion a chynllunio ar gyfer diwallu'r anghenion hynny.
<p>Ble rydym yn disgwyl bod ar ddiwedd ein Cynllun deng mlynedd?</p>	
<p>Byddwn yn cydweithio gydag adrannau'r cyngor ar brosiect Dynodiadau iaith. Bwriadwn gryfhau'r defnydd ohonynt i adnabod anghenion ieithyddol Gweithlu Addysg Gwynedd, gan weithredu cynlluniau priodol mewn ymateb i'r anghenion a amlygir.</p>	

Sut y byddwn yn gweithio gydag eraill i gyflawni ein gweledigaeth

CYLCH GORCHWYL FFORWM IAITH GWYNEDD

PWRPAS:

I gymryd trosolwg o holl agweddau'r CSGA, gan sicrhau comisiynu addas, cynnydd ar gamau gweithredu a deilliannau, a chyd-lynedd y gweithredu i gyflawni'r deilliannau fel un cyfanwaith. Bydd hyn yn cynnwys:

- Trosolwg o'r holl ddeilliannau
- Darparu arweiniad a chynghor cyffredinol i bob deiliant
- Briffio a herio cynnydd ar gamau gweithredu
- Comisiynu gwaith gan Fyrddau Prosiect eraill a gwasanaethau eraill
- Awdurdodi unrhyw newidiadau o bwys i ddeiliant unigol neu CSGA fel cyfanwaith
- Ystyried unrhyw gyfyngiadau allanol ar y deilliannau neu'r CSGA fel cyfanwaith
- Adnabod a dileu unrhyw rwystrau mewnol neu allanol i ddeiliant unigol neu'r CSGA fel cyfanwaith.

AMLDER CYFARFODYDD:

Bydd y Bwrdd Rhaglen yn cyfarfod yn chwarterol. Pe cyfyd materion fydd angen eu dyrchafu o fyrddau prosiect unigol, yna bydd modd trefnu cyfarfodydd ychwanegol yn ôl yr angen.

RÔL:

Mae'r Bwrdd Rhaglen wedi ei awdurdodi i weithio o fewn i goddefiannau amser, cyllid ac ansawdd i sicrhau y cyflawnir deilliannau unigol a'r CSGA yn ei gyfanrwydd.

Disgwylir i'r Bwrdd Rhaglen liniaru unrhyw risgiau sydd yn codi, ynghyd â monitro perfformiad a chynnydd o safbwynt deilliannau unigol a'r CSGA yn ei gyfanrwydd.

Bydd y Bwrdd Rhaglen yn gweithredu fframwaith llywodraethu priodol i gefnogi'r CSA er mwyn cyrraedd y deilliannau disgwylidig.

DOGFENNAETH:

Bydd dogfennau perthnasol ar gyfer sylw aelodau yn cael eu dosbarthu oddeutu ythnos o flaen llaw. Bydd dogfennaeth yn cael eu dosbarthu yn electroneg, a bydd copi cael ar gael yn ôl yr angen.


TREFNIADAU ADRODD:

Disgwylir i allbwn cyfarfodydd y Bwrdd gael eu cofnodi a'u cadw fel rhan o ddogfennaeth y CSGA. Bydd dogfennaeth cyfarfodydd y Bwrdd Rhaglen a'r allbynnau yn gyfrwng i lunio Adroddiad Blynyddol yr Adran Addysg ar weithrediad y CSGA. Caiff Adroddiad Blynyddol CSGA ei gyflwyno gerbron y Pwyllgor Iaith cyn cael ei anfon ymlaen at Lywodraeth Cymru.

AMSERLEN:

Bydd y Bwrdd Rhaglen yn para hyd y CSGA, sef 10 mlynedd. Caiff y Cylch Gorchwyl ei adolygu bob 2 flynedd, neu'n achlysurol yn ôl yr angen

STRWYTHUR ARFAETHEDIG CSGA



AELODAETH FFORWM IAITH GWYNEDD

FFORWM IAITH GWYNEDD (BWRDD RHAGLEN)

Aelodaeth:

Garem Jackson (Cadeirydd)
 Debbie Anne Jones (Is-Gadeirydd)
 Cemlyn Rees Williams
 Nia Jeffreys
 Cai Larsen
 Gwern ap Rhiart
 Diane Jones
 Diane Jones
 Rhian Parry Jones
 Cynrychiolydd Hunaniaith
 Ffion Edwards Ellis
 Rhian Parry Jones

Pennaeth Addysg,
 Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol Addysg
 Aelod Cabinet Addysg
 Aelod Cabinet Cefnogaeth Gorfforaethol (Iaith)
 Pwyllgor Iaith
 Arweinydd Deilliant 1 CSGA
 Arweinydd Deilliant 2 CSGA
 Arweinydd Deilliant 3 CSGA
 Arweinydd Deilliant 4 CSGA
 Arweinydd Deilliant 5 CSGA
 Arweinydd Deilliant 6 CSGA
 Arweinydd Deilliant 7 CSGA

CABINET CYNGOR GWYNEDD



Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

Dyddiad y cyfarfod:	27 Gorffennaf 2021
Aelod Cabinet:	Y Cynghorydd Dafydd Meurig
Swyddog Cyswilt:	Morwena Edwards, Cyfarwyddwr Corfforaethol
Teitl yr Eitem:	Adroddiad Blynyddol Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru 2020/2021

1. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

- 1.1. Gofynnir i'r Cabinet nodi'r gwaith a'r cynnydd yn 2020/2021 yn y meysydd gwaith sy'n cael eu dwyn ymlaen yn rhanbarthol trwy Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru.

2. Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

- 2.1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw darparu gwybodaeth i bartneriaid mewn perthynas â Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru a'i weithgareddau yn ystod 2020/2021. Mae'r adroddiad yn dangos y cynnydd a wnaed a ffrydiau gwaith y Bwrdd yn ystod y flwyddyn.
- 2.2 Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn gofyn bod pob Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn cynhyrchu ac yn cyhoeddi adroddiad blynyddol ar ei waith ac yn ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru.

3. CYFLWYNIAD

- 3.1 Yr adroddiad hwn yw Adroddiad Blynyddol Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru ar gyfer 2020/2021 (Atodiad 1). Mae'n ofynnol yn Rhan 9 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 bod pob Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn paratoi, yn cyhoeddi ac yn cyflwyno ei adroddiad blynyddol i Lywodraeth Cymru.
- 3.2 Mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi canllawiau ar gwblhau'r Adroddiad Blynyddol bob blwyddyn. Felly mae Adroddiad Blynyddol Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn mynd i'r afael â'r wybodaeth sydd ei angen gan Lywodraeth Cymru. Mae rhagor o wybodaeth ar waith y Bwrdd ar gael ar <https://www.cydweithredfagogleddcymru.cymru/>. Mae adroddiad Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru yn cael ei ysgrifennu mewn fformat sy'n cynnwys yr holl wybodaeth sydd ei hangen.

- 3.3 Y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yw'r Bwrdd a sefydlwyd i fodloni gofynion Rhan 9 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol wneud trefniadau i hyrwyddo cydweithrediad â'u partneriaid perthnasol ac eraill, mewn perthynas ag oedolion ag anghenion am ofal a chymorth, gofalwyr a phlant. Mae'n gosod dyletswydd ar bartneriaid perthnasol i gydweithredu, a darparu gwybodaeth i'r awdurdodau lleol at ddibenion eu swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol.
- 3.4 Mae Rhan 9 o'r Ddeddf hefyd yn cynnwys trefniadau partneriaeth rhwng awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol i gyflawni eu swyddogaethau. Mae'r Ddeddf hefyd yn rhoi pwerau i Weinidogion Llywodraeth Cymru wneud rheoliadau mewn perthynas â threfniadau partneriaeth ffurfiol, adnoddau ar gyfer trefniadau partneriaeth (gan gynnwys cronfeydd cyfunol) a byrddau partneriaeth.
- 3.5 Diben Rhan 9 y Ddeddf yw gwella canlyniadau a lles pobl, yn ogystal â gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ddarparu gwasanaethau. Felly, gellir disgrifio amcanion allweddol cydweithredu, partneriaeth ac integreiddio fel a ganlyn:
- Gwella gofal a chymorth, gan sicrhau bod gan bobl fwy o lais a rheolaeth
 - Gwella canlyniadau ac iechyd a lles
 - Darparu gofal a chymorth cydlynol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn
 - Gwneud defnydd mwy effeithiol o adnoddau, sgiliau ac arbenigedd.
- Pwrpas yr adroddiad Blynyddol yw nodi'r cynnydd y mae Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol wedi'i wneud ac mae'n ystyried sut mae'r bwrdd yn cyflawni egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.
- 3.6 Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoedd Canllawiau Statudol Rhan 9 newydd ym mis Ionawr 2020 ac mae Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru yn gweithio yn unol â'r Canllawiau hynny. Mae'r prif newidiadau yn ymwneud ag aelodaeth ychwanegol, canolbwynt ychwanegol ar ddeilliannau ar gyfer plant a phobl ifanc a chanolbwynt ychwanegol ar integreiddio gwasanaethau.
- 3.7 Yn 2020/2021, mae dyfarniad cyllidebau a grantiau partneriaeth i'r Bwrdd, wedi gallu ariannu rhai gweithgareddau'r Bwrdd a thalu aelodau ychwanegol o staff i reoli ffrydiau gwaith y Bwrdd gan ddefnyddio'r cyllid hwn.
- 3.8 Mae Llywodraeth Cymru yn dyfarnu cyllid grant rhanbarthol trwy'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol e.e. y Gronfa Gofal Integredig, Grantiau Darparu Trawsnewid. Mae partneriaid yn cytuno ar ddefnydd y grantiau ac yn cytuno ar y cyd ar gapasiti pobl rhanbarthol sydd ei angen i ddarparu ei raglenni.
- 3.9 Y risg yw sicrhau cydymffurfiaeth â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a'r Canllawiau ar gyfer Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Nid oes gan y Byrddau ffynonellau cyllid dynodedig ac mae eu gweithgareddau yn cael eu cyllido ar hyn o bryd gan gymysgedd o gyllid yr awdurdod lleol wedi'i gyfuno a brigdorri cyllid grant gan Lywodraeth Cymru.
- 3.10 Disgwylir y bydd gweithio mewn partneriaeth ar draws y gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn helpu i gefnogi cymunedau gwydn a hefyd yn sicrhau gwasanaeth di-dor ar gyfer unigolion sydd angen gofal a chefnogaeth.

4. CAMAU NESAF AC AMSERLEN

5.1 Dim i'w nodi.

5. Barn y Swyddogion Statudol:

i) **Y Swyddog Monitro:**

Mae'r adroddiad yn cyfarch y gofyn cyfreithiol ar y Bwrdd i baratoi adroddiad blynyddol ar y graddau y bu iddo gyflawni ei amcanion statudol

ii) **Y Pennaeth Cyllid:**

Yn 2020-21, mae dyfarniad cyllidebau a grantiau partneriaeth i Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru wedi galluogi ariannu gweithgareddau a pharhau i dalu staff i reoli ffrydiau gwaith y Bwrdd.

Mae Llywodraeth Cymru yn dyfarnu cyllid grant rhanbarthol trwy'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, e.e. y Gronfa Gofal Integredig, a grantiau Darparu Trawsnewid. Mae partneriaid yn cytuno ar ddefnydd y grantiau ac yn cytuno ar y cyd ar gapasiti rhanbarthol sydd ei angen i ddarparu ei raglenni.




CYDWEITHREDFA GWELLA GWASANAETHAU
GOFAL A LLESIANT **GOGLEDD CYMRU**

NORTH WALES SOCIAL CARE AND WELL-BEING
SERVICES IMPROVEMENT COLLABORATIVE

Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru

Adroddiad Blynyddol

2020/21



Mae'r adroddiad hwn wedi'i lunio i fodloni'r gofynion a osodwyd gan Lywodraeth Cymru yn y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Tud. 60

Cynnwys

Rhagair gan Gadeirydd Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru (BPRhGC)	3
1. Llywodraethu'r Partneriaethau	4
2. Yr Wybodaeth Gyffredinol Ddiweddaraf ynghylch Cyflawni'r Cynllun Ardal	9
3. Cyfathrebu, Ymgysylltu a Gwerth Cymdeithasol	16
4. Edrych tuag at y Dyfodol	18
Atodiad 1 – Aelodaeth Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru	19
Atodiad 2 – Darpariaethau Statudol.....	20



(Tynnwyd y llun Ebrill 2019)

Rhagair gan Gadeirydd Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru (BPRhGC)

Teresa Owen, Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr



Fel Cadeirydd Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru mae'n bleser gen i gyflwyno adroddiad 20/21 – ac am flwyddyn oedd hi ers i'r math newydd o coronafirws ddod i mewn i'n bywydau.

Cafodd pob un ohonom ni ein heffeithio gan bandemig Covid-19. Yn anffodus, collodd lawer o bobl eu bywydau i'r coronafeirws newydd a bu iddo amharu ar ein bywydau mewn nifer o ffyrdd gwahanol, yn enwedig bywydau pobl ddiameddiffyn. Felly hefyd o safbwynt system; mae Covid-19 wedi bod yn her anferth i wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ond, wedi dweud hynny, mae ymroddiad ein gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol, ein gwirfoddolwyr a'n cymunedau wedi bod yn rhagorol.

Fel Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol bu i ni ganolbwyntio'n ddoeth ar 'bobl' – yn gleifion ac yn staff, ein trefniadau cydweithio, y dull partneriaeth a darparu gofal di-dor. Dros y deuddeg mis diwethaf rydym ni wedi ymateb, addasu ac arloesi.

Gwelais gyfraniadau rhyfeddol gan staff, timau, sefydliadau, cymunedau, grwpiau a gwirfoddolwyr yn arbennig, a dw i'n teimlo'n falch iawn wrth i mi fyfyrto ar y cydweithio sydd wedi digwydd – pa un ai oedd hynny'n strategol, tactegol neu'n weithredol. A phawb gyda'r un nod – i wneud gwahaniaeth.

Fel miloedd o bobl, yn gwarchod eu hunain neu'n ynysu am resymau amrywiol, rydym ni hefyd wedi croesawu technoleg ddigidol i gysylltu â'n gilydd fel partneriaid, arweinwyr a darparwyr. Fel system gyfan, mae'n rhaid i ni ddefnyddio'r flwyddyn ryfedd hon i'n haddysgu a sicrhau bod yna gamau gweithredu cydlynol i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau sydd wedi dod i'r amlwg. Yn wir, roedd yn flwyddyn o drawsnewid sylweddol mewn gwasanaethau, ac mae nŵan yn bryd i ni adeiladu ar yr arloesi hwnnw a bwrw ymlaen â'n datblygiadau gweithlu.

Wrth symud ymlaen mae'n rhaid i ni ganolbwyntio ar adfer ac adnewyddu, yn ogystal â pharhau i fod yn wiliadwrus rhag ton newydd o'r feirws. Mae'n rhaid canolbwyntio ar weithio mewn partneriaeth yn rhanbarthol a lleol er mwyn i ni gipio unrhyw gyfle am newid cadarnhaol.

Cofion gorau – Teresa Owen

1. Llywodraethu'r Partneriaethau

Mae'r adran hon o'r Adroddiad Blynyddol yn nodi pwrpas, rôl, aelodaeth, strwythur gweithredu a blaenoriaethau allweddol y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Mae'n amlinellu'r datblygiad partneriaeth allweddol dros y flwyddyn ddiwethaf a chynnydd o ran gweithredu newidiadau yn y Canllawiau Rhan 9 diwygiedig.

1.1 Pwrpas, Rôl, Aelodaeth, Strwythur Gweithredu a Blaenoriaethau Allweddol

Mae Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru yn cyfarfod bob mis ac mae bellach yn cynnal cymysgedd o gyfarfodydd busnes ynghyd â sesiynau datblygu. Ym mis Rhagfyr 2020 adolygodd a diweddarodd y Bwrdd ei gylch gorchwyl.

Datganiad o Weledigaeth

Cydweithio i wella lles pobl a chymunedau

Egwyddorion Arweiniol

Cytunodd y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ar ei egwyddorion arweiniol ym mis Tachwedd 2016 ac mae'r rhain yn parhau i fod addas i'r diben:

- Newid y system gyfan ac ail-fuddsoddi adnoddau i fodel ataliol sy'n hyrwyddo iechyd lles da, ac sy'n defnyddio tystiolaeth o'r hyn sy'n gweithio orau yn effeithiol
- Mae gofal yn cael ei ddarparu mewn dulliau cydlynol sy'n canolbwyntio ar anghenion, dewisiadau, ac asedau cymdeithasol pobl (defnyddwyr gwasanaeth, gofawyr a chymunedau)
- Mae pobl yn cael eu galluogi i ddefnyddio eu hyder a'u sgiliau i fyw'n annibynnol, gan dderbyn cefnogaeth gan ystod o ddewisiadau ansawdd uchel yn y gymuned
- Ymgorffori cyd-gynhyrchu yn y broses o wneud penderfyniadau er mwyn i ddinasyddion a'u cymunedau lunio'r gwasanaethau
- Rydym yn cydnabod yr ystod eang o ffactorau sy'n dylanwadu ar iechyd a lles a phwysigrwydd cysylltiadau â'r meysydd hyn (gan gynnwys addysg, tai, lles, lleihau digartrefedd, twf economaidd, adfywio, hamdden a'r amgylchedd).

1.2 Rôl Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru

Adolygir Cylch Gorchwyl y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn flynyddol, fodd bynnag rôl hanfodol y Bwrdd ydi:

“Yn ystod pandemig Covid-19 dw i wedi dysgu sut i ddefnyddio llechen electronig. Mae hyn wedi bod yn gymorth mawr i mi, gan fy mod i rŵan yn gallu cadw mewn cysylltiad â ffrindiau, teulu a grŵp cefnogi ar-lein. Dydw i ddim yn teimlo mor unig, ac mae wedi bod yn help mawr i'm hiechyd meddwl hefyd.”

Mae Will yn byw ar ei ben ei hun a doedd ganddo ddim mo'r arian i brynu llechen, felly gwnaeth y LAC gais i brosiect y Cyngor, a oedd yn cynnig dyfeisiau i-Pad i aelodau o'r gymuned er mwyn iddyn nhw gadw mewn cysylltiad â phobl.
Cydlynnydd Asedau Lleol (LAC) a ariennir gan y Gronfa Gofal Integredig – dull gweithio newydd gyda chymunedau a ddatblygwyd ar Ynys Môn

yn


a

o

- Sicrhau bod cydweledigaeth gytunedig a chyfeiriad clir o ran datblygiad y gwasanaeth ac integreiddiad iechyd, gofal a lles, yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014 a Chymru Iachach
- Sicrhau bod cynlluniau a rennir a strategaethau ar waith (wedi'u cefnogi gan achosion busnes priodol) i gyflawni'r weledigaeth
- Sicrhau bod y cynlluniau strategol yn cael eu gwerthuso a'u hadolygu yn erbyn y canlyniadau a dangosyddion perfformiad cytunedig a dealladwy
- Arwain ymagwedd strategol at gyfathrebu a hyrwyddo'r cyfeiriad y symudir iddo a'r cynnydd a wnaed
- Sicrhau y cedwir at egwyddorion y Bwrdd
- Cynnal trosolwg effeithiol o'r adnoddau a ddyrannwyd i gyflawni ei amcanion
- Adrodd i'r Bwrdd Arweinyddiaeth Rhanbarthol ar gynnydd, materion allweddol ac eithriadau, gan uwchgyfeirio unrhyw rwystr i gynnydd o fewn y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol er mwyn eu datrys
- Sicrhau bod adroddiad blynyddol ar gynnydd yn cael ei baratoi a'i gyflwyno yn unol â gofyniad Llywodraeth Cymru.

Mae'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn adrodd yn ffurfiol i Fwrdd Arweinyddiaeth Gogledd Cymru. Rheolir busnes y Bwrdd a busnes yr is-grwpiau rhanbarthol gan y Pennaeth Cydweithio Rhanbarthol ac aelodau o'r Tîm Cydweithio Rhanbarthol.

Cafodd strwythur llywodraethu'r Bwrdd ffurfioli ym mis Ionawr 2021 ac mae'r strwythur i'w weld isod. Adolygwyd ein cylch gorchwyl ym mis Tachwedd 2020. Mae aelodau'r Bwrdd (ar ddiwedd mis Mawrth 2021) i'w gweld yn Atodiad 1.




1.3 Datblygu Partneriaeth Allweddol

Oherwydd pandemig Covid-19 gohiriwyd yr holl ddatblygiadau partneriaeth a oedd ar y gweill.

Fel rhan o'n gwaith i ddatblygu partneriaeth, rydym ni wedi cymryd rhan ymhob digwyddiad dysgu Llywodraeth Cymru a chyfarfod gyda'r Gweinidog yn 2020. Mae'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn parhau i weithio gyda Bwrdd y Gwasanaethau Cyhoeddus i ddarparu ymateb lleol a rhanbarthol cydlynol i anghenion lles unigolion.

Rydym ni'n mynychu cynadleddau a seminarau i arddangos gwaith y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol e.e. Cynhadledd Flynyddol Genedlaethol Gofal Cymdeithasol. Fodd bynnag, yn 2020, gan fod y gynhadledd hon yn cael ei chynnal ar-lein, nid oedd modd arddangos gwaith y Bwrdd.

Rydym ni wedi cadarnhau ein blaenoriaethau a'n dogfen ffocws ar gyfer y tymor byr a'r tymor hwy. Mae hyn yn cysylltu â'n Cynllun Ardal a blaenoriaethau presennol y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.



1.4 Fforwm Mwy Na Geiriau

Nod fframwaith strategol Mwy Na Geiriau ydi arwain ar nifer o welliannau i sicrhau bod siaradwyr Cymraeg yn derbyn gwasanaethau iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol yn eu mam iaith, heb orfod gofyn am hynny. Mae aelodaeth y Fforwm Mwy Na Geiriau yn cynnwys Awdurdodau Lleol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Gofal Cymdeithasol Cymru, Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaeth Ambiwlans Cymru, Addysg a Gwella Iechyd Cymru ac Ysgol y Gwyddorau Gofal Iechyd Prifysgol Bangor.

Wrth gwrs, mae pandemig Covid-19 wedi cael effaith fawr ar ein gwaith fel Fforwm. Nid oedd modd i ni gwrdd wyneb yn wyneb yn 2019-21 ac felly rydym ni wedi penderfynu adrodd ar 2019-21 er mwyn darparu diweddariad cynhwysfawr o'r gwaith sy'n cael ei wneud ymhob sefydliad.

Er gwaethaf y pandemig, mae ystod eang o waith da wedi'i wneud gan bob partner, ar faterion fel gweithio integredig, hyfforddiant, gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg ac amrywiaeth o gynlluniau a rhaglenni. Wrth gwrs, mae'r partneriaid yn cyflawni peth wmbredd o fewn y maes gwaith hwn yn annibynnol o'r Fforwm, ond mae'r adroddiad hwn yn gyfle i rannu a lledaenu arferion da ymhellach, a nodi nodau ac amcanion i'r dyfodol.


1.5 Cynnydd o ran gweithredu newidiadau i'r canllawiau Rhan 9 diwygiedig

Yn dilyn derbyn y Codau a Chanllawiau Rhan 9 diweddaraf ym mis Ionawr 2020, roedd y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol wedi bwriadu trafod y newidiadau gofynnol yn ei gyfarfod ym mis Mawrth, ond bu'n rhaid gohirio hwnnw oherwydd Covid-19. Ymunodd cynrychiolwyr Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig â'r Bwrdd ym mis Rhagfyr 2018 a mis Chwefror 2019 yn y drefn honno; bydd Cadeirydd y Bwrdd yn ceisio enwebiadau ar gyfer cynrychiolwyr Addysg a Thai Awdurdod Lleol drwy'r Fforwm Prif Weithredwyr rhanbarthol.

Roedd Comisiynydd Plant Cymru yn bresennol i drafod gwaith y Bwrdd o ran cyflawni'r

flaenoriaeth i sefydlu gwasanaethau integredig ar gyfer 'plant gydag anghenion cymhleth oherwydd anabledau neu salwch ac i blant a phobl ifanc gyda phroblemau iechyd meddwl'. Mae is-grŵp eisoes wedi'i sefydlu i oruchwylio darpariaeth ein partneriaeth Rhaglen Trawsnewid Plant a Phobl Ifanc.

Mae gennym ni Ganolfan Gomisiynu Strategol hir-sefydlog yn y rhanbarth sydd wedi'i thanategu gan gytundeb partneriaeth a'i hariannu gan bartneriaid. Mae'r rhaglen waith wedi'i halinio gyda gwaith y Byrddau Trawsnewid, gan nodi ym mhle y galli ychwanegu gwerth / cefnogi'r rhaglen drawsnewid:



Gweithlu Rhanbarthol

Mae'r Bwrdd Gweithlu Rhanbarthol yn parhau i gefnogi darpariaeth Strategaeth Gweithlu Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymunedol Gogledd Cymru, yn ogystal â sicrhau darpariaeth i gefnogi strategaethau a blaenoriaethau cenedlaethol.

Mae datblygiad a darpariaeth rhaglen waith sy'n hyblyg ac yn canolbwyntio ar faterion penodol wedi bod yn sail i welliant parhaus a chyflawniad yn ystod 12 mis o heriau ac ansicrwydd.

Mae effaith pandemig y coronafeirws wedi amlygu'r angen i ddarparu cefnogaeth addas i ddarparwyr gofal ledled y rhanbarth. Arweiniodd trafodaethau cynnar gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) at ddatblygu a gweithredu Memorandwm o Ddealltwriaeth, gan alluogi darparwyr gofal i gael mynediad at staff banc BIPBC i gyflenwi yn ystod cyfnodau o ddiffyg staff. Wrth i'r pandemig barhau, roedd angen diwygio a gwella'r Memorandwm o Ddealltwriaeth. Cafodd y meini prawf ar gyfer angen eu mireinio, cadarnhawyd cyfrifoldebau pawb a oedd yn gysylltiedig a symleiddiwyd y gefnogaeth weinyddol. Dewisodd y chwe Awdurdod Lleol i gytuno â'r cytundeb gyda BIPBC, i ddefnyddio'r cyfleuster pan fo angen. Byddwn yn ail-edrych ar y Memorandwm o Ddealltwriaeth fel rhan o'n rhaglen gwaith i'r dyfodol. Bydd gwersi a ddysgwyd yn cael eu nodi a bydd y Memorandwm o Ddealltwriaeth yn cael ei adolygu i sicrhau bod y meini prawf, y cyfrifoldebau a'r prosesau yn parhau i fod yn ddilys, gan gyflwyno gwelliant ble bynnag fo'n bosib.

Mae ymgyrch genedlaethol Gofalwn i ddenu, recriwtio a chadw gweithwyr gofal wedi'i chefnogi drwy ddatblygu tudalen Facebook rhanbarthol. Ar ôl ei chreu ddiwedd mis Hydref

2020, erbyn mis Tachwedd roedd y dudalen wedi cyrraedd 31,195 o bobl, gyda 1,572 yn ymgysylltu a thros 200 wedi'i hoffi. Cafodd hyn ei ymestyn yn ystod y cyfnod cyn y ffair yrfaeodd ar-lein ac wythnos Gofalwn ym mis Tachwedd 2020.

Mae cofrestru gweithlu gofal preswyl yn un o ofynion RISCA a ddylid ei fodloni erbyn 2022. Yn ystod y pandemig dydi hyn ddim wedi bod yn fater sydd wedi'i bwysleisio. I fynd i'r afael â hyn, mae sesiynau briffio rhanbarthol ar draws y chwe Awdurdod Lleol wedi'u trefnu i egluro'r pedwar dull cofrestru sydd ar gael i weithwyr gofal ac i bwysleisio bod hyn yn gyfrifoldeb ar y cyflogwr. Bydd adolygiad o ddata Gofal Cymdeithasol Cymru, sy'n ymwneud â rheiny sydd wedi cofrestru, yn cael ei fonitro i nodi unrhyw risg gwasanaeth. Bydd y porth darparwyr rhanbarthol yn cael ei ddefnyddio i anfon negeseuon atgoffa a bydd y timau comisiynu hefyd yn cymryd camau gweithredu.

Mae Grŵp Tasg a Gorffen wedi'i sefydlu i nodi a gweithredu camau allweddol a fydd yn mynd i'r afael â'r heriau a'r rhwystrau i weithlu Gwaith Cymdeithasol plant yng ngogledd Cymru. Mae tair ffrwd waith wedi'i nodi – recriwtio, datblygu, cadw. Bydd gwaith yn cael ei wneud rhwng mis Ionawr a mis Mehefin 2021, a'r argymhellion yn cael eu cyflwyno i'r Bwrdd Gweithlu ym mis Gorffennaf.

Mae 'Rhaglen Camu i Waith' BIPBC yn rhaglen wirfoddoli sy'n darparu lleoliad gwaith i amrywiaeth o bobl e.e. unigolion o gartrefi di-waith, pobl sydd wedi bod yn ddi-waith ers peth amser, Scope a myfyrwyr addysg uwch a phellach. Mae gweithgor wedi'i sefydlu'n ddiweddar ac er y dyddiau cynnar iawn ymddengys y gallai cydweithio arwain at ddatblygu rhaglen sy'n bodloni gofynion y sector iechyd a'r sector gofal.

Mae'r Prosiect Economi Sylfaenol wedi nodi y byddai asiantaeth staffio nid-er-elw ardal yn ddatrasiad posibl i gyflenwi staff a gwasanaethau eraill i ychwanegu gwerth ar y sector gofal cymdeithasol a'r sector gofal iechyd yng ngogledd Cymru. Gall y model fod yn hyblyg i gwrdd ag anghenion lleol, a helpu i recriwtio a chadw staff yn yr ardal, gan ddarparu gweithwyr sy'n deall diwylliannau lleol ac yn siarad Cymraeg. Mae cyfarfodydd cychwynnol wedi'u trefnu gydag Ynys Môn/Gwynedd (Gorllewin), Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy/Cyngor Sir Ddinbych (Canol) a Chyngor Sir y Fflint/Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam (dwyrain) i weld sut mae modd defnyddio canfyddiadau'r prosiect er budd pob ardal.

2. Yr Wybodaeth Gyffredinol Ddiweddaraf ynghylch Cyflawni'r Cynllun Ardal

Yn y rhan hon o'r Adroddiad Blynyddol cyflwynir y cynnydd a wnaed wrth gyflawni'r amcanion allweddol yn y cynllun ardal a'r meysydd o flaenoriaeth ar gyfer integreiddio yn unol â'r cyfarwyddyd Rhan 9, gan gynnwys y canlyniadau a gyflawnwyd ar ran defnyddwyr y gwasanaeth a gofalwyr. Mae'n ymdrin yn benodol â'r grwpiau blaenoriaeth a bennwyd yn yr Asesiad o Anghenion y Boblogaeth.

Yn unol â gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, yn ystod 2020-21 parhaodd y Bwrdd i ddatblygu ei ddulliau o ran gwasanaethau integredig ar gyfer ei feysydd blaenoriaeth.

2.1 Cynllun Ardal Gogledd Cymru

Mae'r Cynllun Ardal yn pennu'r meysydd blaenoriaeth ar gyfer integreiddio gwasanaethau rhwng iechyd a gofal cymdeithasol ac mae hyn yn gosod y cyfeiriad i'r Bwrdd. Mae'r Cynllun Ardal yn nodi sut y bydd y rhanbarth yn mynd i'r afael â'r meysydd blaenoriaeth a nodwyd yn yr Asesiad o Anghenion y Boblogaeth, sef yr edefyn aur sy'n dal i gysylltu meysydd gwaith penodol yn y rhanbarth.

2.2 Cymru Iachach

Er bod Covid-19 wedi effeithio ar flaenoriaethau'r Bwrdd ar gyfer 2020/21, cafwyd llwyddiant wrth gyflawni'r pedair rhaglen drawsnewid ar gyfer 'Cymru Iachach' a ddyluniwyd i beri i wasanaethau integredig cymunedol ddatblygu'n gyflym ledled y rhanbarth, a chyflawnwyd canlyniadau cadarnhaol i bobl.

2.2.1 Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Cymunedol



Mae Trawsnewid Gwasanaethau Cymunedol yn rhaglen waith uchelgeisiol sydd â'r nod o integreiddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn well ar lefel ardal ar gyfer pobl hŷn, gan gynnwys y rhai hynny sy'n byw gyda dementia, pobl ag anableddau corfforol a gofalwyr di-dâl.

Wrth wraidd y model hwn sy'n seiliedig ar leoedd, mae penderfyniad i ddarparu trefniadau llywodraethu integredig gwell, yn ogystal â datblygu strwythurau darparu gweithredol sy'n sicrhau dull cydlynol a di-dor o ran darparu iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae gwaith sylweddol wedi'i wneud i greu rhaglen gadarn ar gyfer newid.


Mae trawsnewid y modd y mae gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol cymunedol yn cydweithio yn waith hirdymor. Gwnaed cynnydd wrth osod partneriaid mewn sefyllfa gref i gyflawni newid go iawn.

Yn y Gorllewin cynhelir cyfarfodydd amlddisgyblaethol ymhob maes. Ategir y gwaith integredig gan safle *SharePoint* a fydd ar gael i'r holl bartneriaid at ddibenion rhannu gwybodaeth am y Timau Adnoddau Cymunedol a'r Rhaglen Drawsnewid yn ei chyfanrwydd. Mae hynny'n cynnwys 'bwrdd sgrymio' ar gyfer pob un o feysydd gwaith y Timau Adnoddau Cymunedol, sy'n cynnal y momentwm ac yn sicrhau y caiff yr holl fudd-deiliaid allweddol fynediad at wybodaeth berthnasol. Bellach mae yno fwrdd electronig i gofnodi rhwystrau, ac mae gwaredu rhwystrau'n un o'r pynciau y mae uwch-reolwyr yn eu trafod yn y cyfarfodydd cynnydd a gynhelir bob pedair wythnos.

2.2.2 Rhaglen Trawsnewid Plant a Phobl Ifanc

Mae Trawsnewid Plant a Phobl Ifanc yn seiliedig ar amcan cyffredinol i gyflawni gwell canlyniadau i blant a phobl ifanc.

Mae tair haen i'r rhaglen:



- Ymgyrch aml-asiantaethol i wella iechyd emosiynol plant a phobl ifanc, eu lles a'u gwytnwch, drwy ymyrryd yn gynnar ac atal mewn ffordd integredig, gan gynnwys datblygu a diwygio canolfannau cymorth cynnar lleol ymhellach
- Ymchwilio a datblygu ymyriadau 'ymateb cyflym' (allgymorth argyfwng) yn seiliedig ar dystiolaeth i blant a theluoedd ar ffiniau gofal
- Datblygu gwasanaethau preswyl tymor byr.

Dros y flwyddyn ddiwethaf bu datblygiadau arwyddocaol yn y rhaglen; ffurfiwyd dau dîm amlddisgyblaethol is-ranbarthol newydd sydd wedi darparu gwasanaethau i 36 o blant, pobl ifanc a'u theluoedd. Crëwyd rhaglen hyfforddiant strategol i gefnogi trydydd tîm amlddisgyblaethol is-ranbarthol a darparwyd 341 o sesiynau hyfforddi.

Sefydlwyd dwy wahanol ddarpariaeth breswyl tymor byr i gefnogi'r timau amlddisgyblaethol. Mae'r ddau brosiect yn anelu at ddarparu'r gwasanaethau yn y flwyddyn a hanner nesaf.

Mae'r ffrwd waith Iechyd Emosiynol, Lles a Gwytnwch wedi creu fframwaith peilot rhanbarthol i blant 8-11 oed, gan lunio egwyddorion arweiniol ar gyfer cynnal datblygiad iach o ran iechyd emosiynol plant a phobl ifanc, eu lles a'u gwytnwch, gan gwmpasu'r pum ffordd at lesiant. Mae ffrwd waith arall wedi sefydlu tîm ymyrraeth gynnar i ganolbwyntio ar roi cymorth yn gynnar i blant a phobl ifanc ag anawsterau emosiynol ac ymddygiadol, a mabwysiadu dull 'dim drws anghywir' yn hynny o beth.

Wrth ymateb yn uniongyrchol i'r pandemig llwyddodd y rhaglen Trawsnewid Plant a Phobl Ifanc i gefnogi prosiectau gwytnwch cymunedol a fu'n gymorth i blant a phobl ifanc yn y cyfnod anodd hwn, yn ogystal â chyflawni'r amcanion a bennwyd ar gyfer y rhaglen.

2.2.3 Rhaglen Trawsnewid Anableddau Dysgu



Sylfaen y rhaglen yw Strategaeth Anableddau Dysgu Gogledd Cymru. Mae'r tîm yn gweithredu'r strategaeth drwy bump o ffrydiau gwaith: strwythurau integredig, datblygu'r gweithlu, comisiynu a chaffael, newid cymunedol a diwylliannol a thechnoleg gynorthwyol.

North Wales Together
Gogledd Cymru Gyda'n Gilydd
Seamless services for people with Learning Disabilities
Gwasanaethau ddi-dor i bobl ag Anableddau Dysgu

SUT I'M TRIN YN DDA	GADEWCH IMI REOLI FY MYWYD FY HUN	HELPWCH FI I GYRRAEDD FY MHOTENSIAL	BYDDWCH YN ONEST
<p>Dylid trin pob unigolyn gyda pharch ag urddas</p> <p>"mae fy mharchu i yn golygu parhau fy ngofod, fy mhethau, fy mhenderfyniadau a'm perthnasoedd"</p> <p>"gwrandwch arnaf, a threuliwch amser yn dod i'm hadnabod!"</p> <p>"Byddwch yn glân"</p> <p>AWGRYMIADAU GWYCH</p> <ul style="list-style-type: none"> Dylid cyfathrebu mewn modd agored, cyson a syml Peidiwch â defnyddio jargon Dylid diogelu a pharchu gwybodaeth personol a chyfrinachol pobl Dylid defnyddio hiwmor mewn modd priodol Dylid gwirio sut y dymuna bobl gael eu cyfeirio atynt Byddwch yn brydlon a gweithredwch ar unfryw gamau yr ydych wedi dweud y byddwch yn eu cymryd 	<p>Mae llais, dewis, rheolaeth ac annibyniaeth wrth wraidd popeth a wnawn.</p> <p>Rydym yn ymhyfydu mewn gweithio ar y cyd.</p> <p>"Hoffwn gael dewis lle hoffwn i fyw a phwy sy'n byw gyda mi"</p> <p>"Helpwch fi i wneud yr hyn yr wyf yn ei ddymino, a gwrandwch arnaf"</p> <p>"Mae arnaf eisiau teimio'n bwysig a gallu gwneud penderfyniadau fy hun"</p> <p>AWGRYMIADAU GWYCH</p> <ul style="list-style-type: none"> Dylid grymuse, annog a galluogi pobl sydd angen gofal a chefnogaeth i wneud pethau drostynt eu hunain ac i wneud eu penderfyniadau eu hunain. Dylid cefnogi unigolion i wneud y gorau o'u penderfyniadau a'u rheolaeth dros eu bywydau. 	<p>Rydym yn darparu gofal sy'n cenolbwyntio ar yr unigolyn, gan roi'r unigolyn wrth wraidd popeth a wnawn a'i helpu i gyrraedd eu potensial.</p> <p>"dysgwch gennyf, a cheisiwch gydnabod fy nghyfeirau"</p> <p>"helpwch fi i ddyegu pethau newydd"</p> <p>"rhwch ddigon, ond nid gormod o gefnogaeth imi"</p> <p>AWGRYMIADAU GWYCH</p> <ul style="list-style-type: none"> Byddwch yn bardd i gymryd risgiau cadarnhaol, gan esbonio canlyniadau risgiau yn glir i eraill. Ceisiwch fynd i'r afael â phroblemau newydd a phroblemau sy'n datblygu yn greadigol Peidiwch â meddwl am gamgymeriadau fel rhywbeth negyddol, meddyliwch amdanynt fel cyfle i ddyegu a thryfu Byddwch yn gynnes, yn garedig, yn empathig, yn ddibynadwy ac yn ddastronol yn eich gweithredoedd 	<p>Rydym bob amaer yn onest ac yn dryloyw ac nid oes arnom ni ofn dweud pan fydd rhywbeth yn mynd o'i le.</p> <p>Rydym yn hunanymwybodol ac yn myfyrio'n rheolaidd ar y gwaith yr ydym yn ei wneud, sut rydym yn ei wneud a'r effaith yr ydym yn ei chael ar y rhai sy'n cael eu cefnog.</p> <p>"Mae arnaf eisiau i bobl fod yn onest â mi, a dweud y gwir wrthyf"</p> <p>AWGRYMIADAU GWYCH</p> <ul style="list-style-type: none"> Rydym yn dysgu gan eraill ac yn rhannu gwybodaeth ac arfer orau. Ceisio adborth gan gydweithwyr, defnyddwyr gwasanaeth a'u teuluoedd, myfyrwyr a'u dyddio oddi wrtho Bod yn ddigon dewr i godi eich llais a herio eraill lle mae ganddyn nhw bryderon am ansawdd neu ddiolegwch y gofal sy'n cael ei ddarparu.

Bu 2020/2021 yn flwyddyn brysur iawn i **Raglen Trawsnewid Anableddau Dysgu Gogledd Cymru gyda'n Gilydd**; oherwydd effeithiau'r pandemig bu'n rhaid rhoi cynlluniau gwaith o'r neilltu wrth i rai swyddogion arweiniol ddychwelyd i'w swyddi parhaol i helpu gyda'r argyfwng. Fe wnaeth holl aelodau'r tîm ddal i weithio o bell a llunio strategaethau i oresgyn yr anawsterau fel y gellid gweithredu prosiectau'n rhithiol, gan gefnogi partneriaid i gyflawni eu hamcanion mewn gwahanol ffyrdd.

Er gwaethaf yr anawsterau cafwyd cryn lwyddiant mewn rhai meysydd: Ar y cyfan sefydlwyd 52 o brosiectau peilot a gomisiynwyd ar y cyd ledled gogledd Cymru i ategu cyflawniad y rhaglen.

Dilynwch y ddolen hon i weld rhai o'r uchafbwyntiau: [Hafan -Home - Gogledd Cymru Gyda'n Gilydd \(gogleddcymrugydangilydd.org\)](https://www.gogleddcymrugydangilydd.org)

Mae dogfen ar ein gwefan yn cynnwys blaenoriaethau 2020/2021: [Gwybodaeth am y Prosiect - Project Information - Gogledd Cymru Gyda'n Gilydd \(gogleddcymrugydangilydd.org\)](https://www.gogleddcymrugydangilydd.org)

2.2.4 Rhaglen Trawsnewid Law yn Llaw at Iechyd Meddwl



Gwnaed cynnydd arwyddocaol cyn Covid-19, er enghraifft, wrth sefydlu gwasanaeth Gofal heb ei Drefnu ICAN a datblygu canolfannau ICAN mewn wyth o drefni ledled y Gogledd.

Mae'r pandemig wedi creu cynnydd aruthrol yn y galw gan bobl sydd arnynt angen cefnogaeth gyda'u hiechyd a lles emosiynol. Bu rhwystrau arwyddocaol rhag datblygu'r Rhaglen gan fod y rheolau cadw pellter cymdeithasol yn cyfyngu ar gyfleoedd i ddarparu unrhyw wasanaethau wyneb yn wyneb. Roedd yn ofynnol hefyd i staff Tîm y Rhaglen ail-bennu eu blaenoriaethau er mwyn cynorthwyo gydag ymateb Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i'r pandemig. Er gwaethaf hynny, roedd ymateb y Rhaglen i'r amgylchiadau eithriadol hyn yn chwim, yn gadarn ac yn sensitif, ac aethpwyd ati i sefydlogi ac ehangu'r gweithlu o wirfoddolwyr er mwyn darparu gwasanaeth cefnogi dros y ffôn, a bu hynny'n hanfodol bwysig i nifer arwyddocaol o bobl.

Mae gan y Rhaglen ICAN gynllun pendant ar gyfer dal ati i weithredu'r rhaglen gydol 2021/22 ac wedi sicrhau cyllid ar gyfer hynny gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

2.2.5 Canolfan Cydlynu Ymchwil, Arloesi a Gwelliant

Nod y ganolfan yw cydlynu gwaith ymchwil, arloesi a gwella yng ngogledd Cymru i fod yn sail ar gyfer dulliau integredig newydd o ddarparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol fel rhan o'r ymrwymiad a wnaed yn y cynllun Cymru Iachach.

Roedd yr uchafbwyntiau yn 2020-21 yn cynnwys cwblhau adolygiad cyflym o effaith Covid-19 ar bobl sydd arnynt angen gofal a chymorth, gan gynnwys arloesi mewn gwasanaethau. Fe gynorthwyom brosiectau trawsnewid i ddefnyddio tystiolaeth drwy gynnal chwiliadau o ddeunydd darllen, gan gynnwys adnoddau i gynnal lles plant, a darparu cyngor a chymorth gyda chreu arolygon ar-lein, dadansoddi data a dulliau ymchwil ar gyfer adrodd hanes. Gweithiom â phrosiectau wedi'u hariannu gan y Gronfa Gofal Integredig i ystyried materion fel graddfa, arferion da ac arloesi. Fe gyfrannom at wella cydlyniant drwy adnabod prosiectau tebyg mewn gwahanol sectorau/asiantaethau a chreu cysylltiadau rhyngddynt. Buom yn gweithio ar brosiectau cenedlaethol er mwyn osgoi dyblygu gwaith yn lleol a ffurfiom rwydweithiau cedyrn â chanolfannau rhanbarthol eraill. Er enghraifft, gweithiom gyda Gofal Cymdeithasol Cymru wrth ystyried y modd y defnyddir tystiolaeth ym maes Gofal Cymdeithasol, ac fe rannom ffrwyth ein gwaith o chwilio deunydd darllen â rhanbarthau eraill. Aethom ati hefyd i ddefnyddio ein gwefan i amlygu'r gwahanol ddulliau o hyrwyddo arloesi mewn gwahanol sectorau (Labordai Byw, Hacs Iechyd, Labordai Arloesi). Trefnom Labordy Arloesi Gofal Cymdeithasol gyda Phrifysgol Bangor a oedd yn canolbwyntio ar dechnoleg ddigidol. Buom hefyd yn gweithio â'r Asiantaeth Arloesi wrth ddatblygu'r cysyniad o Labordy Byw a dod ag ymarferwyr ac ymchwilwyr ym maes iechyd a gofal cymdeithasol ynghyd er mwyn meithrin gwell dealltwriaeth o'r sefyllfa yng ngogledd Cymru o ran ymchwil, arloesi a gwella.

Daliom ati i hyrwyddo digwyddiadau, cyfleoedd ariannu a gwaith y tîm ar ein gwefan, ein cyfrif Twitter a thrwy newyddlenni rheolaidd dros e-bost. Mae hynny'n cynnwys trydar yn fyw yn ystod digwyddiadau allweddol yn y rhanbarth. Erbyn diwedd y flwyddyn roedd mwya na 170 o bobl yn dilyn ein cyfrif Twitter a 130 o bobl wedi tanysgrifio i restr bostio'r Ganolfan Cydlynu Ymchwil, Arloesi a Gwella.

Dilynwch ni ar Twitter @NW_RIICH_ / @NW_RIICH ac/neu ewch i [Hwb Cydlynu Ymchwil, Arloesi a Gwelliant | North Wales Collaborative \(cydweithredfagogleddcymru.cymru\)](http://Hwb.Cydlynu.Ymchwil.Arloesi.a.Gwelliant|North.Wales.Collaborative.cydweithredfagogleddcymru.cymru) i gael rhagor o wybodaeth.

2.3 Strategaeth Dementia Gogledd Cymru

Yn 2020-21 rhoes y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol gymeradwyaeth i Strategaeth



Dementia Gogledd Cymru, a rhannwyd y strategaeth honno'n helaeth â phartneriaid er mwyn ei mabwysiadu a'i gweithredu. Ail-ffurfiwyd Grŵp Llywio Dementia'r Bartneriaeth yn dilyn y don gyntaf o'r pandemig byd-eang, a buddsoddiwyd i greu swydd Rheolwr Prosiect Dementia Rhanbarthol i gynorthwyo gyda gweithredu'r Strategaeth Dementia yn y rhanbarth. Ers mis Ionawr 2021 mae'r grŵp llywio wedi diwygio'i gylch gorchwyl ar gyfer

gweithredu'r strategaeth, mynd ati i adolygu ac ystyried effaith y pandemig ar y strategaeth, a llunio cynllun gweithredu ar gyfer y rhanbarth yn 2021-22.

Mae'r hyn a gyflawnwyd yn 2020-21 yn cynnwys:

- Adolygu Llwybr Safonau Gofal Dementia ar gyfer Cymru Gyfan fel y'i cyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru a'i gynnwys yn ein cynllun gweithredu ar gyfer y Strategaeth Dementia
- Datblygu Fforwm Ymgysylltu Dementia er mwyn cefnogi'r Grŵp Llywio i weithredu'r strategaeth mewn modd priodol ac effeithiol
- Mapio'r cyfleoedd ar gyfer adnabod blaenoriaethau i'w gweithredu drwy'r Strategaeth Dementia a'u cynnwys yng Nghynllun Gweithredu 2021/22
- Buddsoddi mewn prosiectau ac adnoddau cefnogi sy'n ategu gweithrediad y Strategaeth Dementia
- Datblygiadau i ddarparu Gwasanaeth Asesu Cof rhithiol yn y rhanbarth wrth fynd i'r afael â'r rhestr aros sydd wedi tyfu oherwydd y pandemig
- Dosbarthu pecynnau Enfys Lles i bobl ar restr aros y gwasanaethau Asesu Cof, i'w cefnogi wrth iddynt aros am asesiad
- Cais llwyddiannus am arian gan Lywodraeth Cymru i gyflogi Rheolwr Prosiect i ymdrin yn benodol â materion gwledig a'r iaith Gymraeg yng ngogledd Cymru a Phowys
- Mynd ati gyda phartneriaid i weithredu 11 o'r 31 o gamau gweithredu yn y Strategaeth Dementia.


Bydd Grŵp Llywio Dementia Gogledd Cymru'n dal i ddatblygu ei raglen waith er mwyn medru gweithredu'r Strategaeth a Llwybr Safonau Gofal Dementia Cymru Gyfan ledled y rhanbarth yn 2021-22.

2.4 Cyllid Gofal Integredig

Yn ystod 2020-21, buddsoddiwyd cyfanswm o £18.92 miliwn o gyllid refeniw o'r Gronfa Gofal Integredig mewn 120 o brosiectau ledled ein rhanbarth. Gwariwyd ychydig dros £5.2 miliwn ar brosiectau a oedd yn cefnogi gofalwyr yn uniongyrchol a buddsoddiwyd £2.6 miliwn i gefnogi prosiectau gan sefydliadau trydydd sector.

Mae'r grwpiau canlynol yn rhai sydd â blaenoriaeth o ran integreiddio ac mae'n rhaid i bob rhaglen ranbarthol y Gronfa Gofal Integredig ymgymryd â nhw yn unol â'u hasesiadau poblogaeth rhanbarthol a'u cynlluniau ardal:

- Pobl hŷn ag anghenion cymhleth a salwch tymor hir, gan gynnwys dementia;
- Pobl ag anableddau dysgu;
- Plant ag anghenion cymhleth; a
- Gofalwyr, gan gynnwys gofalwyr ifanc.



Daliwyd ati i ddatblygu prosiectau i gefnogi pobl hŷn ag anghenion cymhleth a chyflyrau hirdymor. Mae yno 26 o brosiectau sy'n cefnogi pobl â dementia a'u teuluoedd, 36 o brosiectau i gefnogi pobl ag anableddau dysgu a 21 o brosiectau sy'n darparu ymyrraeth gynnar i bobl ifanc a'u teuluoedd.

Addaswyd 24 o brosiectau fel bod modd dal ati i'w darparu'n ddiogel yn ystod y pandemig Covid-19. Bu'n rhaid atal nifer o brosiectau dros dro gan nad oedd modd eu darparu'n ddiogel, a dargyfeiriwyd y cyllid i brosiectau a oedd wedi'u haddasu ac angen mwy o adnoddau.

Yn ogystal â chyllid refeniw derbyniodd rhanbarth y Gogledd £9.41 miliwn o gyllid cyfalaf o'r Gronfa Gofal Integredig a ddefnyddiwyd i gynnal 70 o brosiectau yn 2020/21. Cafodd y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ganiatâd Llywodraeth Cymru i ddargyfeirio cyllid cyfalaf i gynlluniau a oedd yn cefnogi'r ymdrechion rhag Covid-19 a thrwy hynny ariannwyd 35 o gynlluniau Covid. Defnyddiwyd cyllid cyfalaf o'r Gronfa Gofal Integredig i gynnal 17 o brif gynlluniau cyfalaf yn ystod y flwyddyn. Roedd y rheiny'n cynnwys canolfan llesiant yn Wrecsam, Canolfan Dementia Integredig ym Mhwlheli a Chanolfan Asesu Breswyl i Blant ym Mae Colwyn.

2.5 Arian y Gaeaf

Dyrannodd Llywodraeth Cymru £2.05 miliwn i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol i gefnogi cyflawniad y llwybrau Rhyddhau i Adfer ac yna Asesu fel rhan o Gynllun y Gaeaf.

Mae'r llwybrau Rhyddhau i Adfer ac yna Asesu wedi'u nodi isod, a chynhaliodd y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol 44 o gynlluniau i ategu darpariaeth y llwybrau hynny.

Roedd y cynlluniau'n cynnwys:

- Timau Adnoddau Cymunedol yn gweithio saith niwrnod yr wythnos, ac ychwanegu at dimau fel y gellid bod yn barod i ddarparu gwasanaeth Gartref o'r Ysbyty
- Ymateb cyflym llai dwys a darparu ychwanegedd yn y gwasanaeth gofal cartref
- Ychwanegu Gweithiwr Cymdeithasol, Therapydd Galwedigaethol, Ffisiotherapydd a Nyrsys Cymunedol, gan gynnwys Nyrs Seiciatryddol, i gefnogi asesiadau a rhyddhau o'r ysbyty
- Mwy o Weithwyr Cymorth Dementia

LLWYBR 0	LLWYBR 1	LLWYBR 2	LLWYBR 4	LLWYBR 3
				
Osgoi derbyn trwy gefnogaeth trydydd sector byr-dymor	A yw'r unigolyn mewn cyflwr priodol i'w derbyn?	Pam ddim gartref? Pam ddim heddiw??	Cartref gyntaf pan mai cartref gofal yw eich cartref	Cefnogaeth i gael adferiad mewn cyfleuster gofal canolraddol gyda gwliâu
<p>Darparu gwasanaethau ataliol ar y cyd â sefydliadau trydydd sector.</p> <p>Anelu i osgoi atgyfeirio a derbyniad pellach</p>	<p>Asesiad tîm aml-ddisgyblaethol o fewn unedau 'drws ffrynt' ysbyty i osgoi derbyn llawn.</p> <p>Trefnu triniaeth ac adferiad gyda chymorth yn y cartref, pryd bynnag fo'n ddiogel gwneud hynny.</p>	<p>Cychwyn cyn gynted ag y bydd triniaeth, a ellir ond ei darparu o fewn amgylchedd ysbyty aciwt, yn cael ei gwblhau.</p> <p>Cefnogi pobl i gael adferiad yn y cartref cyn cael eu hasesu ar gyfer unrhyw angen parhaus.</p>	<p>Tebyg i Lwybr 2, ond yn cydnabod ystyriaethau penodol i'w trin yn yr amgylchedd cartref gofal presennol.</p> <p>Dylai unigolion gael cyfnod o adferiad, ac yna asesiad yn eu hamgylchedd arferol.</p>	<p>Dylid ond ei ystyried pan fo anghenion yr unigolyn yn golygu na ellir cael adferiad ac asesiad yn y cartref.</p> <p>Adolygu a throsglwyddo i Lwybr 2 ble bynnag fo'n bosib, a chyn gynted a phosib.</p>

3. Cyfathrebu, Ymgysylltu a Gwerth Cymdeithasol

Yn y rhan hon o'r Adroddiad Blynyddol nodir sut aeth y Bwrdd ati i ymgysylltu'n uniongyrchol â defnyddwyr gwasanaethau neu baneli dinasyddion, a hyrwyddo cydweithrediad a chyfranogiad â phartneriaid perthnasol ac eraill. Mae'n esbonio sut mae'r Bwrdd wedi ymgysylltu â budd-ddeiliaid yn y trydydd sector a'r sector annibynnol a'r cynnydd a wnaed wrth sefydlu fforymau i hybu gwerth cymdeithasol a rhannu arferion da.

3.1 Ymgysylltu yng Ngogledd Cymru

O ganlyniad i Covid-19 nid oedd modd cynnal gweithgareddau ymgysylltu fel fforymau, sesiynau grŵp, digwyddiadau cyhoeddus a sesiynau wyneb yn wyneb, ond mae'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn dal i ymgysylltu â phobl drwy dulliau gwahanol, gan gynnwys cyfryngau cymdeithasol, ar-lein, Teams/Zoom, ar y ffôn a thrwy bartneriaid a budd-ddeiliaid.

Yn 2020 llwyddodd y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol â chais am gyllid gan Lywodraeth Cymru i gyflogi Swyddog Ymgysylltu i weithio gyda swyddogion cyfathrebu ac ymgysylltu presennol y sefydliadau partner, er mwyn atgyfnerthu'r trefniadau ar gyfer ymgysylltu a chyfathrebu ynghylch y Bwrdd a'i waith. Drwy gael Swyddog Ymgysylltu pwrpasol mae'r Bwrdd yn medru cyflymu ei weithgareddau cyfathrebu ac ymgysylltu a datblygu ar sail y gwaith sydd eisoes wedi'i wneud.

3.2 Grŵp Llywio Gwerth Cymdeithasol Gogledd Cymru

Yn anffodus nid yw'r Grŵp Llywio wedi cwrdd ers mis Chwefror 2020 gan na fu modd dod o hyd i Gadeirydd, a bu'n rhaid i nifer o aelodau symud i wasanaethau eraill i roi cefnogaeth. Serch hynny, mae Cadeirydd dros dro wedi'i benodi bellach a bydd y grŵp yn aildechrau o'r newydd.

Bydd y grŵp llywio'n dod ynghyd unwaith eto i rannu profiadau a gwersi a ddysgwyd, ac adnabod cyfleoedd i gydweithio er mwyn sicrhau y datblygir dull cyson gydol y rhanbarth. Bu nifer o newidiadau ers pan gyfarfu'r grŵp ddiwethaf, nid yn unig o ran deddfwriaeth newydd a diwygiedig sy'n gosod mwy o ddyletswyddau ar y sector cyhoeddus i ymgorffori gwerth cymdeithasol yn eu dulliau gweithredu, ond hefyd ar ffurf cymeradwyaeth Llywodraeth Cymru i'r fframwaith Themâu, Canlyniadau a Mesurau Cenedlaethol. Hefyd, mae Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol wedi cyhoeddi'r adroddiad Caffael Llesiant yng Nghymru sy'n cynnwys argymhellion i awdurdodau lleol ynglŷn â gweithredu'r Ddeddf.

Mae aelodaeth bresennol Grŵp Llywio Gwerth Cymdeithasol Cymru yn cynnwys trawstoriad o'r holl rwydweithiau perthnasol. Gan nad yw'r grŵp wedi cwrdd ers mis Chwefror 2020, fodd bynnag, mae'n awr yn gyfle da i adnabod y cysylltiadau allweddol/swyddogion arweiniol gwerth cymdeithasol ymhob awdurdod lleol, y Bwrdd lechyd a sefydliadau yn y sector gwirfoddol er mwyn sicrhau y ceir cynrychiolaeth briodol a chywir, ac er mwyn ehangu aelodaeth y Grŵp Llywio i gynnwys y rhai hynny sy'n cynnig yr adnoddau a gwasanaethau a fedr ategu gwerth cymdeithasol a dod â buddion cymunedol i bob cwr o'r Gogledd.

Yn sgil cam gweithredu a ddeilliodd o gyfarfod y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn ddiweddar i fwrw ymlaen â chynigion gan y trydydd sector, mae'r Tîm Cydweithio Rhanbarthol bellach yn gweithio â'r Cynghorau Gwirfoddol Sirol a chynrychiolwyr dinasyddion ar y Bwrdd i greu rhestr o holl gynigion y trydydd sector er mwyn bod yn

barod ar gyfer unrhyw gyllid a ddaw ar gael. Bydd y chwe Chyngor Gwirfoddol Sirol yn cymryd rhan yn y prosiect er mwyn sicrhau y mabwysiadir dull rhanbarthol.

Er mwyn cael golwg ehangach ar ddatblygiad y cynigion hyn ar ran y trydydd sector, bydd y syniadau a nodir gyda'r Cyngorau Gwirfoddol Sirol yn cael eu rhannu drwy Rwydwaith Gwerth Cymdeithasol Gogledd Cymru a Grŵp Llywio Fforwm Gwerth Cymdeithasol Gogledd Cymru, yn ogystal â'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, fel y gellir cytuno pa gynigion y dylid eu blaenoriaethu ar sail y galw ar hyn o bryd ac yn y dyfodol.

3.3 Grwpiau Gofalwyr Gogledd Cymru

Mae Grŵp Gweithredol Gofalwyr Gogledd Cymru a Grŵp Gweithredol Gofalwyr Ifanc Gogledd Cymru wedi dal ati wrth gyflawni Strategaeth Gofalwyr Ranbarthol Gogledd Cymru drwy ddarparu gwasanaethau cynnal gofalwyr ar ran awdurdodau lleol, y gwasanaethau iechyd a'r trydydd sector yn y rhanbarth.

Penderfynwyd y llynedd i uno'r ddau grŵp gweithredol er mwyn prif-ffrydio gwasanaethau cynnal i ofalwyr a gofalwyr ifanc gydol y sector, ac ers hynny bu'r grŵp newydd yn cwrdd bob chwarter. Yn ôl y grŵp mae hyn wedi rhoi'r cyfle i aelodau nodi meysydd gwaith lle gall swyddogion arweiniol gofalwyr a gofalwyr ifanc gydweithio gyda phartneriaid ar brosiectau a ffrydiau gwaith.

Mae cynlluniau gweithredu Grŵp Gweithredol Gofalwyr Gogledd Cymru a Grŵp Gweithredol Gofalwyr Ifanc Gogledd Cymru dan adolygiad ar hyn o bryd, yn unol â'r Strategaeth Gofalwyr Di-dâl a gyhoeddodd Llywodraeth Cymru'n ddiweddar a'r pedair blaenoriaeth genedlaethol, er mwyn cadw golwg ar gynnydd y partneriaid unigol ymhob grŵp gweithredol a mesur hynny yn erbyn safonau craidd y Strategaeth.

Ym mis Ebrill 2021 dechreuodd ein gwasanaeth hwyluso rhanbarthol ar gyfer gofal sylfaenol ac eilaidd, Buddsoddi mewn Gofalwyr: Gweithio gyda'n Gilydd i Gefnogi Gofalwyr, a ariannwyd drwy Grant Gofalwyr blynyddol Llywodraeth Cymru. Ein partneriaid yn y trydydd sector sy'n darparu'r gwasanaeth hwn, gan weithio'n agos â chanolfannau gofal sylfaenol ac eilaidd a'u hannog i adnabod gofalwyr a gofalwyr ifanc yn fuan a chodi ymwybyddiaeth o ofalwyr a'u hawliau. Mae Cynnal Gofalwyr a Gwasanaeth Gwybodaeth i Ofalwyr Gogledd-ddwyrain Cymru yn gweithio mewn partneriaeth ledled gogledd Cymru i gefnogi meddygfeydd, ysbytai a sefydliadau eraill yng nghymunedau gofalwyr i ddatblygu cynlluniau i gynnig gwybodaeth a chyngor i ofalwyr, gan gynnwys cynllun achredu Buddsoddwyr mewn Gofalwyr. Seiliwyd contract eleni ar ganlyniadau'n bennaf, gyda dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn wrth ei wraidd, gan gydnabod fod pob gofalwr yn unigryw a bod ganddynt oll wahanol anghenion. Bydd y darparwyr yn cyflawni'r canlyniadau allweddol fel bod yr unigolion a gefnogir yn cyflawni eu nodau, dyheadau a'u blaenoriaethau hwythau.

4. Edrych tuag at y Dyfodol

Yn y rhan hon o'r Adroddiad Blynyddol cyflwynir y blaenoriaethau y bydd y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn canolbwyntio arnynt yn 2021-22 a thu hwnt, gan amlygu'r meysydd hynny y mae Covid-19 wedi cael effaith arnynt gan arwain at ail-bennu blaenoriaethau neu gyfeiriad strategol.

4.1 Effaith Covid

Mae COVID-19 yn dal yn ein plith, ond cynhaliwyd cyfarfodydd y Bwrdd Partneriaeth bob mis yn rhithiol.

Er mwyn sicrhau bod aelodau'r Bwrdd, partneriaid, budd-ddeiliaid a'r cyhoedd yn dal i dderbyn yr wybodaeth ddiweddaraf, dosbarthwyd newyddlen ym mis Chwefror 2021 i amlygu'r llwyddiant a gafodd y gwasanaethau wrth weithredu'u rhaglenni gydol 2020/21. Sefydlwyd trefniadau llywodraethu dros dro ym mis Mawrth 2020, gyda sêl bendith y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, a pharhaodd y rheiny gydol y cyfnod Covid. Gan nad oedd modd cynnal cyfarfodydd y Bwrdd yn rhithiol ar y dechrau, a bod angen sefydlu trefniadau ar fyrder, fe wnaeth y trefniadau llywodraethu dros dro alluogi'r Bwrdd partneriaeth i gynnal ei drafodion drwy e-bost.

4.2 Blaenoriaethau ar gyfer 2021/22 a thu hwnt

Rydym wedi cadarnhau ein blaenoriaethau a dogfen ffocws ar gyfer y tymor byr a'r tymor hwy. Mae hyn yn cysylltu gyda'n Cynllun Ardal a'r blaenoriaethau presennol ar gyfer y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Sonnir am hyn yn adran 1.1.

Atodiad 1 – Aelodaeth Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru

Fel ag yr oedd ddiwedd mis Mawrth 2021

Enw	Teitl
Bethan Jones Edwards	Pennaeth Cydweithio Rhanbarthol
Bethan E Jones	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Fôn Roberts	Cyngor Sir Ynys Môn
Alwyn Jones	Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Dr Chris Stockport	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Y Cynghorydd Bobby Feeley	Cyngor Sir Ddinbych
Y Cynghorydd Christine Jones	Cyngor Sir y Fflint
Y Cynghorydd Joan Lowe	Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Y Cynghorydd Louise Emery	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Y Cynghorydd Llinos Medi Huws	Cyngor Sir Ynys Môn
Y Cynghorydd Dafydd Meurig	Cyngor Gwynedd
Roma Hooper (Gweithredu dros Blant)	Cynrychiolydd y Trydydd Sector
Estelle Hitchon	Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru (Cyfetholedig)
Ffion Johnstone	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Jenny Williams	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Judith Greenhalgh	Cynrychiolydd Bwrdd Arweinyddiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru/Prif Weithredwr Cyngor Sir Ddinbych
Kevin Roberts	Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (Cyfetholedig)
Lucy Reid	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Mark Wilkinson	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Mary Wimbury	Cynrychiolydd Darparwyr
Morwena Edwards	Cyngor Gwynedd
Helen Corcoran (o fis Tachwedd 2019)	Heddlu Gogledd Cymru (Cyfetholedig)

Neil Ayling	Cyngor Sir y Fflint
Nicola Stubbins	Cyngor Sir Ddinbych
Rob Smith	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Steve Gadd	Prif Swyddog Cyllid (Adran 151) (Cyfetholedig)
Shan Lloyd Williams	Cynrychiolydd Tai
Teresa Owen	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
John Gallanders	Cefnogaeth Gymunedol a Gwirfoddol Gogledd Cymru (Cyfetholedig)
Ruth Whittingham	Cydweithio Rhanbarthol

Atodiad 2 – Darpariaethau Statudol

Mae partneriaid y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol wedi mynd i gytundeb cyfreithiol – “Cytundeb Integreiddio” – sy’n cadarnhau ei ymrwymiad i gydweithio ar brosiectau allweddol a nodwyd fel rhai addas ar gyfer gwasanaethau integredig a threfniadau cyllideb gyfun.

Caniateir defnyddio'r darpariaethau statudol canlynol i danategu gwaith y Bwrdd:

- Rhan 9 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 – adrannau 166 a 167 yn benodol a rheoliadau cysylltiol (Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth (Cymru) 2015).

Dibynnwyd ar bwerau cyfreithiol eraill i gefnogi partneriaethau rhanbarthol yr ymunwyd â hwy, gan gynnwys:

- Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 – adrannau 1, 2, 10, 33, 38 ac 82 yn bennaf.
- Pwerau Adran 9 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 mewn perthynas â chydweithio gydag awdurdodau lleol eraill.
- Deddf Llywodraeth Leol 1972 – yn enwedig adran 2, sy’n rhoi pwerau i awdurdodau wneud unrhyw beth y maent yn ystyried ei fod yn debygol o gyflawni un neu fwy o'r buddion canlynol: hyrwyddo neu wella lles economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol yr ardal, ac adran 113 sy’n galluogi un awdurdod lleol i gynnig ei staff i awdurdod iechyd neu Fwrdd Iechyd arall.

Mae Adran 111 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1982 yn caniatáu i awdurdod lleol gael y pŵer i wneud unrhyw beth sy’n cael ei bennu i hwyluso, neu'n ffafriol neu'n ddamweiniol, i gyflawni ei swyddogaethau.

Eitem 10

CABINET CYNGOR GWYNEDD



Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

Dyddiad y Cyfarfod: 27 Gorffennaf 2021
Aelod Cabinet: Y Cyngorydd Catrin Wager
Swyddog Cyswllt: Steffan Jones, Pennaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol
Rhif Ffôn Cyswllt: 32402
Teitl yr Eitem: Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus (GDMC): Rheoli Cŵn

1. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

Gofynnir i'r Cabinet:

- Gymeradwyo cyflwyno Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus (GDMC) mewn perthynas â rheoli cŵn ledled y Sir yn unol â'r Gorchymyn Arfaethedig a atodir (**Atodiad 1a**), ar y sail ei fod yn fodlon bod y prawf o dan adran 59 o'r Ddeddf Ymddygiad Gwrth-gymdeithasol, Troseddu a Phlisma 2014 wedi ei gwrdd.
- Cymeradwyo costau cyflwyno GDMC (arian untro a bid dilynol am arian blyneddol).
- Awdurdodi'r Pennaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol i ymgymryd â chyflwyno'r GDMC.

Y rheswm pam bod angen penderfyniad:

- Swyddogaeth Awdurdodau Lleol a neb arall yw creu GDMC. Yn unol â Chyfansoddiad yr Awdurdod Lleol, mae creu gorchymyn o'r fath yn swyddogaeth weithredol a'r Cabinet sy'n gyfrifol amdani.

2. CYFLWYNIAD

Mae Deddf Ymddygiad Gwrth-gymdeithasol, Troseddu a Phlisma 2014 ("Deddf 2014") yn darparu fframwaith o rymoedd i unigolion a sefydliadau er mwyn gallu taclo ymddygiad gwrthgymdeithasol mewn mannau cyhoeddus. Mae'r Ddeddf yn rhoi'r grym i Awdurdodau Lleol gyflwyno Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus ("GDMC") i ymdrin â niwsans(au) neu broblem(au) penodol mewn mannau penodol. Ymddygiadau y pennir eu bod yn cael effaith andwyol ar ansawdd bywyd cymunedau lleol yw'r ymddygiadau problemus hyn. Gall gorchymynion o'r fath barhau am hyd at 3 blynedd.

Mae ymddygiadau o'r fath yn gallu cwmpasu, ymhlith materion eraill, ymddygiadau yn gysylltiedig â rheoli cŵn.

Cyn gwneud gorchymyn o'r fath rhaid i'r Awdurdod Lleol fod yn fodlon bod y prawf o dan adran 59 o'r Ddeddf wedi ei gwrdd, sef –

- bod sail resymol dros gredu fod y gweithgareddau hyn mewn man cyhoeddus wedi cael, neu yn debygol o gael, effaith andwyol ar ansawdd bywyd pobl yn y cyffiniau;
- bod y gweithgareddau yn, neu'n debygol o fod yn fynych ac yn barhaus eu natur;
- bod y gweithgareddau yn, neu'n debygol o fod yn afresymol; a
- eu bod yn cyfiawnhau'r cyfyngiadau a nodir.

Yn ogystal, cyn gwneud gorchymyn mae rhaid i'r Awdurdod Lleol ymgynghori â'r Heddlu a'r gymuned ehangach.

Mae GDMC yn gweithio drwy alluogi i ymddygiadau gael eu herio a rhoi cyfle i'r unigolyn ddod â'r gweithgaredd i ben yn y rhan fwyaf o amgylchiadau. Os nad oes modd gwneud hyn mae modd cymryd camau gorfodaeth, gan gynnwys cyflwyno rhybudd cosb benodedig a/neu dwyn erlyniad am y drosedd o fethu â chydymffurfio â gofyniad neu waharddiad mewn GDMC.

Cyflwynwyd adroddiad i'r Cabinet ar 18 Mai 2021 yn argymhell fod y Cabinet yn cymeradwyo proses o ystyried a ddylid cyflwyno GDMC ledled y sir mewn perthynas â rheoli cŵn, ac y bydd cyfnod o ymgynghori yn digwydd am 28 diwrnod ynglŷn â'r mater, gan ddychwelyd y mater i'r Cabinet er mwyn penderfynu a ddylid cyflwyno y GDMC.

Roedd yr adroddiad hwnnw yn darparu achos cychwynnol dros gyflwyno'r GDMC, yn seiliedig ar ddarpariaethau'r hen Orchmynion Rheoli Cŵn a wnaed gan yr Awdurdod yn 2013¹ ond gyda gwahaniaethau fel a ganlyn:

Lleoliad traeth	Trefniadau o dan y Gorchmynion Rheoli Cŵn	Trefniadau o dan y Gorchymyn Arfaethedig
Tywyn	Gwaharddiad cŵn tymhorol ar y traeth rhwng man i'r gorllewin o Ffordd Warwig (Warwick Place Road) a man i'r gorllewin o ben gogleddol Plas Edwards	Gwaharddiad cŵn tymhorol ar y traeth rhwng man i'r gorllewin o Ffordd Warwig (Warwick Place Road) a man i'r gorllewin o Ffordd y Pier (Pier Road)
Friog	Gwaharddiad cŵn tymhorol ar y traeth rhwng 'pillbox' yn ne'r traeth a man i'r gorllewin o'r maes golff	Gwaharddiad cŵn tymhorol ar y traeth rhwng man i'r de o'r 'pillbox' yn ne'r traeth a man i'r gorllewin o gyffordd Ffordd y Traeth

¹ Cyn i Ddeddf 2014 ddod i rym, roedd grym yr Awdurdod Lleol i daclo problemau rheoli cŵn yn tarddu o'r Ddeddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd 2005 a'r Rheoliadau Gorchmynion Rheoli Cŵn (Darpariaethau Amrywiol) (Cymru) OS 2007/702. Yn unol â'r darnau hyn o ddeddfwriaeth, gwnaeth yr Awdurdod y Gorchmynion Rheoli Cŵn canlynol: Gorchymyn Gwahardd Cŵn (Cyngor Gwynedd) 2013, Gorchymyn Baeddu Tir Gan Gŵn (Cyngor Gwynedd) 2013, a'r Gorchymyn Cŵn ar Dennyn drwy Gyfarwyddyd (Cyngor Gwynedd) 2013.

Cricieth - Marine	Gwaharddiad cŵn tymhorol ar y cyfan o'r traeth	Dim gwaharddiad cŵn tymhorol ar y traeth
Abersoch	Gwaharddiad cŵn tymhorol ar y traeth rhwng yr harbwr a man i'r dwyrain o Lôn Golff	Gwaharddiad cŵn tymhorol ar y traeth rhwng Pen Bennar a man i'r dwyrain o Lôn Golff
Porthor	Gwaharddiad cŵn tymhorol ar y cyfan o Draeth Porthor	Gwaharddiad cŵn tymhorol ar Draeth Porthor i'r dwyrain o Gaffi Porthor

Ceir copi o'r Gorchymyn Arfaethedig yn **Atodiad 1a**.

Yn seiliedig ar yr achos a gyflwynwyd ar y pryd, penderfynodd y Cabinet fod cyfiawnhad dros symud i'r cam nesaf a chynnal ymgynghoriad cyhoeddus. Bellach, mae angen i'r Cabinet ystyried canfyddiadau'r ymgynghoriad ac, yn sgil yr ymgynghoriad hwnnw, penderfynu a yw'n cymeradwyo cyflwyno y GDMC.

Bydd y GDMC yn ymwneud â thri agwedd o reoli cŵn:

1. Gwahardd cŵn: Bydd cŵn yn cael eu gwahardd o 18 traeth penodol rhwng 1 Ebrill a 30 Medi bob blwyddyn. Mae'r ardaloedd gwahardd ar y traethau hyn wedi eu diffinio yn fanwl mewn cynlluniau (mapiau) sydd ynghlwm â'r Gorchymyn Arfaethedig. Yn ogystal, bydd cŵn yn cael eu gwahardd drwy gydol y flwyddyn o'r llefydd canlynol: llefydd awyr-agored cyhoeddus lle ceir arwydd "Ardal Eithrio Cŵn" neu eirfa tebyg; llefydd chwarae i blant; tiroedd hamdden o fewn ffiniau ysgolion, colegau a phrifysgolion; meysydd chwarae a chyfleusterau chwaraeon.
2. Dim baeddu: Pan fydd ci yn baeddu, bydd gofyn i'r sawl sydd yn gyfrifol dros y ci glirio'r baw ar unwaith. Bydd y rheol hwn yn berthnasol drwy gydol y flwyddyn i bob man awyr-agored mae gan y cyhoedd fynediad iddo.
3. Cŵn ar dennyn drwy gyfarwyddyd: Bydd gofyn i'r sawl sydd yn gyfrifol dros gi roi'r ci hwnnw ar dennyn, os yw person sydd wedi ei awdurdodi yn briodol gan y Awdurdod Lleol yn cyfarwyddo hynny. Bydd y rheol hwn yn berthnasol drwy gydol y flwyddyn i bob man awyr-agored mae gan y cyhoedd fynediad iddo.

3. RHESWM A CHYFIAWNHAD DROS Y PENDERFYNIAD

Lansiwyd yr ymgynghoriad cyhoeddus ar 24 Mai 2021 a daeth i ben ar 21 Mehefin 2021.

Cyhoeddwyd datganiad i'r wasg a bu ymgyrch i godi ymwybyddiaeth o'r ymgynghoriad ar blatfformau cyfryngau cymdeithasol yr Awdurdod. Rhoddwyd copi o'r Gorchymyn Arfaethedig a phecyn gwybodaeth ar wefan yr Awdurdod yn ogystal â chopïau caled ym mhob llyfrgell / Siop Gwynedd drwy'r Sir.

Gyrrwyd negeseuon e-bost i randdeiliaid allweddol yn gwahodd iddynt gyfrannu at yr ymgynghoriad, gan gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) Heddlu Gogledd Cymru, Comisiynydd Heddlu a Throseddau Gogledd Cymru, cynghorau cymuned a thref, y sector addysg, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, deiliaid tiroedd o bwys a mudiadau perchnogion cŵn.

Yn ogystal, rhoddwyd holiadur ar y wefan er mwyn hwyluso cyfranogiad y cyhoedd i'r ymgynghoriad.

Derbyniwyd cyfanswm o 1,324 o ymatebion i'r holiadur. Yn ogystal, derbyniwyd cyfanswm o 7 e-bost neu neges arwahan yn mynegi barn ar yr ymgynghoriad.

Mae adroddiad manwl o'r ymateb a ddaeth i law o'r ymgynghoriad wedi ei gynnwys yn **Atodiad 2**.

Yn gryno, mae'r ymateb i'r ymgynghoriad drwy'r holiadur yn cadarnhau'r canlynol:

- 80% o'r farn bod baw ci yn broblem yn eu hardal nhw
- 78% o blaid gwaharddiad cŵn tymhorol o'r 18 traeth a ddynodwyd yn y Gorchymyn Arfaethedig.
- 74% o blaid gwaharddiad cŵn gydol y flwyddyn o diroedd awyr agored cyhoeddus ble mae arwydd 'Ardal Eithrio Cŵn'
- 95% o blaid gwaharddiad cŵn gydol y flwyddyn o lefydd chwarae plant
- 89% o blaid gwaharddiad cŵn gydol y flwyddyn o diroedd hamdden ysgolion, colegau ac ati
- 93% o blaid gwaharddiad cŵn gydol y flwyddyn o feysydd chwarae
- 85% o blaid gwaharddiad cŵn gydol y flwyddyn o gyfleusterau chwaraeon eraill
- 99% o blaid rheol bod rhaid i bobl lanhau ar ôl i'w ci baeddu mewn man cyhoeddus
- 95% o blaid rheol yn galluogi swyddog awdurdodedig i ofyn i unrhyw un sy'n gyfrifol am gi i'w roi ar dennyn.
- 61% o'r farn nad oedd angen cyflwyno unrhyw reol neu reolau eraill tu hwnt i'r hyn sydd eisioes yn Gorchymyn Arfaethedig.

At ei gilydd, roedd mwyafrif clir o'r ymatebion a ddaeth i law drwy'r holiadur yn gefnogol o gynnwys y Gorchymyn Arfaethedig fel ag y mae. Nid oedd consensws o blaid ehangu sgôp y GDMC i gynnwys rheolau ychwanegol.

Yn yr amgylchiadau, argymhellir bod y meini prawf o dan adran 59 o Ddeddf 2014 wedi eu cyrraedd a bod y Cabinet yn bwrw ymlaen i gymeradwyo GDMC yn unol â'r Gorchymyn Arfaethedig.

Mae asesiad cydraddoldeb a baratowyd yn unol â gofynion y Ddeddf Cydraddoldeb 2010 wedi ei atodi yn **Atodiad 3**. Mae'r asesiad hwn yn ddiweddiariad yn dilyn yr ymgynghoriad o'r un a baratowyd gyda'r adroddiad cyntaf i'r Cabinet ar 18 Mai 2021. Tra bo'r asesiad fel y'i diweddarwyd yn cyfarch materion a godwyd yn yr ymgynghoriad, daethpwyd i'r casgliad nad oedd rheswm teilwng wedi ei ddatgelu i beidio â pharhau gyda'r broses o gyflwyno'r GDMC yn unol â'r Gorchymyn Arfaethedig.

Yn unol ag argymhellion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 mae'r adroddiad hwn hefyd wedi ystyried egwyddorion y ddeddfwriaeth, ac yn benodol y cysyniad o'r 5 ffordd o weithio fel y dangosir isod:

Hirdymor: Bydd y GDMC yn parhau mewn lle am 3 blynedd gyda'r bwriad o newid agweddau pobl tuag at eu hymddygiad mewn mannau cyhoeddus o ran rheoli cŵn. Yn y tymor hirach gobeithir y bydd hyn yn cyfrannu tuag at agweddau a pharch mwy cyfrifol tuag at warchodaeth o'n cymunedau a dealltwriaeth o'r angen i ystyried yr effaith ar eraill.

Atal: Bydd GDMC yn helpu i leihau'r niferoedd o ymddygiadau gwrthgymdeithasol o ran rheoli cŵn ac yn help i atal y sefyllfa rhag dirywio yn y dyfodol.

Integreiddio: Mae'r GDMC yn cyfarch nodweddion nifer o sefydliadau (Cyngor Gwynedd, yr Heddlu, cynghorau cymuned, grwpiau cymunedol/perchnogion cŵn). Bydd hefyd yn cyfrannu at amcanion yr Heddlu sef lleihau troseddau a gwneud y strydoedd a llefydd cyhoeddus yn fwy diogel i drigolion ac ymwelwyr ac at uchelgais yr Awdurdod o weld cymunedau sy'n llwyddo a ffynnu.

Cydweithio: Byddai'r datblygiad yma o ganlyniad i ymgynghoriad gyda'r Heddlu, cynghorau cymuned, grwpiau cymunedol a pherchnogion cŵn.

Cynnwys: Mae adrannau amrywiol o'r Awdurdod wedi bod ynghlwm â thrafodaethau cychwynnol, ac mae ymgynghoriad cyhoeddus bellach wedi digwydd cyn penderfyniad terfynol ar y cais.

Ar ôl derbyn cyfarwyddiadau yn ystod y cyfnod ymgynghori, gwnaed mân ddiwygiadau argraffyddol neu dechnegol i'r Gorchymyn Arfaethedig. Nid yw'r diwygiadau hyn yn effeithio cwmpas nac effaith fwriedig y Gorchymyn Arfaethedig.

4. COSTAU ARIANNOL

Roedd yr adroddiad dyddiedig 18 Mai 2021 yn cyfeirio at yr angen i ail osod arwyddion er adlewyrchu'r gorchymyn newydd a rhagweler cost un tro o £18k i'w ail osod. Mae'r adborth o'r holiadur ymgynghori hefyd yn darparu arweiniad defnyddiol a phwysig iawn o ran y meysydd lle mae'r cyhoedd yn ystyried y mae angen blaenoriaethu adnoddau o ran gorfodaeth. Roedd dymuniad i weld mwy o bresenoldeb gorfodaeth yn dod allan yn hynod gryf a hefyd disgwyliad buasai'r Cyngor yn darparu mwy o finiau ar gyfer baw cŵn.

Heb ymrwymiad ariannol gan y Cyngor ni fydd yn bosibl gwireddu'r GDMC yn llawn ac felly mae'r tabl isod yn crynhoi'r anghenion ariannol sydd wedi ei amlygu uchod.

GWEITHGAREDD	Costau Blwyddyn 1	Costau Blynnyddoedd dilynol
Arwyddion Rhybudd - tiroedd a thraethau Codi arwyddion newydd, tynnu'r hen rai i lawr, cynnal a chadw blynnyddol ac adnewyddu.	£ 18,000	£ 3,000
Biniau Baw Cŵn Darparu cynwysyddion addas ychwanegol, dosbarthwr bagiau, gwasanaethu a chael gwared â'r gwastraff yn ddiogel.	£ 12,500	£ 5,000
Capasiti Gorfodi Cyflogi 2 Warden Gorfodaeth Stryd (Rheoli Cŵn) fydd a briff ond ar GDMC ond a phwyslais cryf ar godi ymwybyddiaeth. Cost yn cynnwys trafndiaeth.	£ 67,620	£ 67,620
CYFANSWM	£ 98,120	£ 75,620

5. CAMAU NESAF AC AMSERLEN

Y Cabinet i gymeradwyo cyflwyno GDMC rheoli cŵn yn unol â'r Gorchymyn Arfaethedig.

Os y'i cymeradwyir, bydd yr Awdurdod Lleol yn gwneud y Gorchymyn dan sêl cyn gynted a bo modd ond ddim cynt na 5 diwrnod clir ar ôl cyhoeddi penderfyniad y Cabinet.

Os y'i cymeradwyir, bydd yr Awdurdod Lleol yn cyhoeddi'r Gorchymyn wedi ei selio ar wefan y Cyngor.

Os y'i cymeradwyir, bydd yr Awdurdod Lleol yn gosod arwyddion y mae'n ei ystyried yn ddigonol drwy'r sir gan dynnu sylw'r cyhoedd i fodolaeth ac effaith y Gorchymyn.

6. UNRHYW YMGYNGHORIADAU A WNAED CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Mae'r ymgynghoriadau hyd yma yn unol â'r hyn a nodir yn yr adroddiad.

Atodiadau

Atodiad 1a - Gorchymyn Arfaethedig

Atodiad 1b - Mapiau

Atodiad 2 - Adroddiad o'r Ymgynghoriad

Atodiad 3 - Asesiad Cydraddoldeb

7. BARN Y SWYDDOGION STATUDOL

Y Swyddog Monitro:

Mae'r adroddiad yma wedi bod yn destun mewnbwn gan y Gwasanaeth Cyfreithiol. Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb.

Y Pennaeth Cyllid:

Byddai'r Cabinet yn medru ystyried ariannu costau un tro o £30,500, ynghyd â £67,620 o gyllideb refeniw ychwanegol eleni o'r Gronfa Trawsffurfio. Fodd bynnag, gallai ariannu'r gost refeniw parhaol yma olygu'r angen i'r Cyngor orfod gwireddu mwy o arbedion ariannol mewn meysydd eraill erbyn 2022/23. Er hynny, yn yr achos benodol yma, er gwaetha'r risg, deallaf sut byddai'r gweithrediad yn cyfarch blaenoriaethau pobl Gwynedd. Felly, deallaf os yw'r Cabinet am roi ystyriaeth briodol i flaenoriaethu'r cais am £75,620 o gyllideb refeniw parhaol. Yn effeithiol, byddai penderfyniad ar hyn rwan yn rhagfarnu 'bid' am adnoddau yng nghyllideb 2022/23, ac os bydd y Cabinet yn cadarnhau'r flaenoriaeth, yna byddwn yn cynllunio yn briodol.

CYNGOR GWYNEDD

DEDDF YMDDYGIAD GWRTH-GYMDEITHASOL, TROSEDD A PHLISMONA 2014

GORCHYMYN DIOGELU MANNAU CYHOEDDUS CYNGOR GWYNEDD (RHEOLI CŴN) 2021

Mae Cyngor Gwynedd (“y Cyngor”), drwy arfer y grym a roddwyd iddo gan adran 59 o’r Ddeddf Ymddygiad Gwrth-gymdeithasol, Trosedd a Phlisma 2014 (“y Ddeddf”), yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

1. Enw’r Gorchymyn hwn yw y Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus Cyngor Gwynedd (Rheoli Cŵn) 2021.
2. Daw y Gorchymyn hwn i rym ar 15 Awst 2021 a bydd yn parhau mewn grym am gyfnod o 3 blynedd tan 14 Awst 2024 oni bai y caiff yn y cyfamser ei ddiddymu, ei ddiwygio, neu ei ymestyn gan Orchymyn pellach yn unol â grymoedd statudol y Cyngor.

Gwahardd cŵn

3. Mae erthygl 4 yn gymwys i’r tir a bennir yn Atodlen 1.
4. (1) Yn ystod yr amserau a bennir yn Atodlen 2, gwaherddir person sydd â chyfrifoldeb dros gi rhag mynd â’r ci hwnnw ar unrhyw dir y mae’r erthygl hon yn gymwys iddo, neu rhag caniatáu i’r ci fynd ar neu aros ar y tir hwnnw, oni bai –
 - (a) bod gan y person hwnnw esgus rhesymol dros wneud hynny; neu
 - (b) bod y perchennog, meddiannydd neu berson neu awdurdod arall sydd â rheolaeth dros y tir wedi cydsynio (yn gyffredinol neu yn benodol) i’r person hwnnw wneud hynny.
- (2) Nid oes unrhywbeth yn yr erthygl hon yn gymwys i berson –
 - (a) sydd wedi ei gofrestru fel person dall mewn cofrestr a luniwyd o dan adran 29 o Ddeddf Cymorth Gwladol 1948; neu
 - (b) sydd yn fyddar, mewn perthynas â chi wedi ei hyfforddi gan Hearing Dogs for Deaf People (elusen gofrestredig rhif 293358) ac y mae’r person hwnnw yn dibynnu arno am gymorth; neu
 - (c) sydd ag anabledd sydd yn effeithio ar ei symudedd, ei ddehurwydd llaw, ei gydlynedd corfforol neu ei allu i godi, i gario, neu symud fel arall teclynnau pob dydd, mewn perthynas â chi a hyfforddwyd gan elusen ragnodedig ac y mae’r person hwnnw yn dibynnu arno am gymorth.

(3) At ddibenion yr erthygl hon –

(a) cymerir bod person y mae ci fel rheol yn ei feddiant yn gyfrifol am y ci hwnnw ar unrhyw deg onid oes rhyw berson arall â chyfrifoldeb dros y ci hwnnw ar yr adeg honno;

(b) mae pob un o'r canlynol yn "elusen ragnodedig" –

(i) Dogs for the Disabled (elusen gofrestrdig rhif 700454);

(ii) Support Dogs (elusen gofrestrdig rhif 1088281);

(iii) Canine Partners for Independence (elusen gofrestrdig rhif 803680).

Baeddu tir gan gŵn

5. Mae erthygl 6 yn gymwys i'r tir a bennir yn Atodlen 3.

6. (1) Os yw person sydd â chyfrifoldeb dros gi yn achosi neu yn gadael i'r ci hwnnw fawa ar unrhyw adeg ar dir y mae'r erthygl hon yn gymwys iddo, bydd gofyn i'r person hwnnw symud y baw ci oddi ar y tir ar unwaith, oni bai –

(a) bod gan y person hwnnw esgus rhesymol dros fethu â gwneud hynny; neu

(b) bod y perchennog, meddiannydd neu berson neu awdurdod arall sydd â rheolaeth dros y tir wedi cydsynio (yn gyffredinol neu yn benodol) i'r person hwnnw fethu â gwneud hynny.

(2) Nid oes unrhywbeth yn yr erthygl hon yn gymwys i berson –

(a) sydd wedi ei gofrestru fel person dall mewn cofrestr a luniwyd o dan adran 29 o Ddeddf Cymorth Gwladol 1948; neu

(b) sydd ag anabledd sydd yn effeithio ar ei symudedd, ei ddehurwydd llaw, ei gydlynedd corfforol neu ei allu i godi, i gario, neu symud fel arall teclynnau pob dydd, mewn perthynas â chi a hyfforddwyd gan elusen ragnodedig ac y mae'r person hwnnw yn dibynnu arno am gymorth.

(3) At ddibenion yr erthygl hon –

(a) cymerir bod person y mae ci fel rheol yn ei feddiant yn gyfrifol am y ci hwnnw ar unrhyw deg onid oes rhyw berson arall â chyfrifoldeb dros y ci hwnnw ar yr adeg honno;

(b) bydd gosod y baw ci mewn cynhwysydd a ddarperir ar y tir at y diben hwnnw, neu ar gyfer gwaredu gwastraff, yn symud ymaith digonol oddi ar y tir;

(c) ni fydd bod yn anymwybodol o'r baw (p'un ai oherwydd peidio â bod yn y cyffiniau ai peidio), na bod heb declyn i symud y baw ci ymaith neu ddull arall addas o wneud hynny yn esgus rhesymol dros fethu â symud y baw ci ymaith;

(d) mae pob un o'r canlynol yn "elusen ragnodedig" –

(i) Dogs for the Disabled (elusen gofrestrdig rhif 700454);

(ii) Support Dogs (elusen gofrestrdig rhif 1088281);

(iii) Canine Partners for Independence (elusen gofrestrdig rhif 803680).

Cŵn ar dennyn drwy gyfarwyddyd

7. Mae erthygl 8 yn gymwys i'r tir a bennir yn Atodlen 3.

8. (1) Ar bob adeg ac ar dir y mae'r erthygl hon yn gymwys iddo, bydd gofyn i berson sydd â chyfrifoldeb dros gi gydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddyd a roddir gan berson awdurdodedig i roi a chadw'r ci ar dennyn nad yw yn hwy na 2 o fetrau, oni bai –

(a) bod gan y person hwnnw esglus rhesymol dros fethu â gwneud hynny; neu

(b) bod y perchennog, meddiannydd neu berson neu awdurdod arall sydd â rheolaeth dros y tir wedi cydsynio (yn gyffredinol neu yn benodol) i'r person hwnnw fethu â gwneud hynny.

(2) At ddibenion yr erthygl hon –

(a) cymerir bod person y mae ci fel rheol yn ei feddiant yn gyfrifol am y ci hwnnw ar unrhyw deg onid oes rhyw berson arall â chyfrifoldeb dros y ci hwnnw ar yr adeg honno;

(b) ni chaiff person awdurdodedig roi cyfarwyddyd dan yr erthygl hon i roi ci ar dennyn a'i gadw arno oni fo'r cyfryw lyffethair yn rhesymol angenrheidiol i atal niwsans neu ymddygiad gan y ci sydd yn debygol o beri aflonyddwch i unrhyw berson arall neu o darfu arno ar unrhyw dir y mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys iddo neu beri trafferth i unrhyw anifail neu unrhyw aderyn neu o aflonyddu arnynt.

(3) Yn yr erthygl hon ystyr "person awdurdodedig" yw person sydd wedi ei awdurdodi yn ysgrifenedig gan y Cyngor at ddibenion rhoi cyfarwyddiadau o dan yr erthygl hon.

Cosb

9. Bydd person sydd yn gwneud unrhywbeth y gwaherddir ef rhag ei wneud gan y Gorchymyn hwn, neu yn methu â chydymffurfio ag unrhyw ofyniad oddi tano, yn euog o drosedd o dan adran 67 o'r Ddeddf ac yn agored, o'i gollfarnu yn ddiannod, i ddirwy heb fod yn uwch na lefel 3 ar y raddfa safonol.

Herio'r Gorchymyn

10. Yn unol ag adran 66 o'r Ddeddf, gall unrhyw berson â diddordeb sydd yn dymuno herio dilysrwydd y Gorchymyn hwn ar y sail nad oedd gan y Cyngor y grym i wneud y Gorchymyn neu bod diffyg cydymffurfiad â gofyniad o'r Ddeddf wneud cais i'r Uchel Lys o fewn 6 wythnos o'r dyddiad y gwnaethpwyd y Gorchymyn.

DRAFT

GWYNEDD COUNCIL

ANTI-SOCIAL BEHAVIOUR, CRIME AND POLICING ACT 2014

GWYNEDD COUNCIL (DOG CONTROL) PUBLIC SPACES PROTECTION ORDER 2021

Gwynedd Council (“the Council”), in exercise of the powers conferred upon it by section 59 of the Anti-social Behaviour, Crime and Policing Act 2014 (“the Act”), makes the following Order:

1. The name of this Order is the Gwynedd Council (Dog Control) Public Spaces Protection Order 2021.
2. This Order comes into force on 15 August 2021 and shall remain in force for a period of 3 years until 14 August 2024 unless in the meantime it is revoked, amended or extended by further Order in accordance with the Council’s statutory powers.

Dogs exclusion

3. Article 4 applies to the land specified in Schedule 1.
4. (1) During the times specified in Schedule 2, a person in charge of a dog shall be prohibited from taking that dog on to land to which this article applies, or from allowing the dog to enter or to remain on that land, unless –
 - (a) that person has a reasonable excuse for doing so; or
 - (b) the owner, occupier or other person or authority having control of the land has consented (generally or specifically) to that person doing so.
- (2) Nothing in this article applies to a person who –
 - (a) is registered as a blind person in a register compiled under section 29 of the National Assistance Act 1948; or
 - (b) is deaf, in respect of a dog trained by Hearing Dogs for Deaf People (registered charity number 293358) and upon which that person relies for assistance; or
 - (c) has a disability which affects that person’s mobility, manual dexterity, physical coordination or ability to lift, carry or otherwise move everyday objects, in respect of a dog trained by a prescribed charity and upon which that person relies for assistance.
- (3) For the purposes of this article –
 - (a) a person who habitually has a dog in their possession is taken to be in charge of the dog at any time unless at that time some other person is in charge of the dog;

- (b) each of the following is a “prescribed charity” –
- (i) Dogs for the Disabled (registered charity number 700454);
 - (ii) Support Dogs (registered charity number 1088281);
 - (iii) Canine Partners for Independence (registered charity number 803680).

Fouling of land by dogs

5. Article 6 applies to the land specified in Schedule 3.
6. (1) If a person who is in charge of a dog causes or allows that dog to defecate at any time on land to which this article applies, that person shall remove the faeces from the land forthwith, unless —
- (a) that person has a reasonable excuse for failing to do so; or
 - (b) the owner, occupier or other person or authority having control of the land has consented (generally or specifically) to that person failing to do so.
- (2) Nothing in this article applies to a person who –
- (a) is registered as a blind person in a register compiled under section 29 of the National Assistance Act 1948; or
 - (b) has a disability which affects that person’s mobility, manual dexterity, physical coordination or ability to lift, carry or otherwise move everyday objects, in respect of a dog trained by a prescribed charity and upon which that person relies for assistance.
- (3) For the purposes of this article –
- (a) a person who habitually has a dog in their possession is taken to be in charge of the dog at any time unless at that time some other person is in charge of the dog;
 - (b) placing the faeces in a receptacle on the land which is provided for the purpose, or for the disposal of waste, shall be a sufficient removal from the land;
 - (c) being unaware of the defecation (whether by reason of not being in the vicinity or otherwise), or not having a device for or other suitable means of removing the faeces shall not be a reasonable excuse for failing to remove the faeces;
 - (d) each of the following is a “prescribed charity” –
 - (i) Dogs for the Disabled (registered charity number 700454);
 - (ii) Support Dogs (registered charity number 1088281);

(iii) Canine Partners for Independence (registered charity number 803680).

Dogs on lead by direction

7. Article 8 applies to the land specified in Schedule 3.
8. (1) At all times and on land to which this article applies, a person in charge of a dog shall be required to comply with any direction given by an authorised person to put and keep the dog on a lead of not more than 2 metres in length, unless –
 - (a) that person has a reasonable excuse for failing to do so; or
 - (b) the owner, occupier or other person or authority having control of the land has consented (generally or specifically) to that person failing to do so.
- (2) For the purposes of this article –
 - (a) a person who habitually has a dog in their possession is taken to be in charge of the dog at any time unless at that time some other person is in charge of the dog;
 - (b) an authorised person may only give a direction under this article to put and keep a dog on a lead if such restraint is reasonably necessary to prevent a nuisance or behaviour by the dog likely to cause annoyance or disturbance to any other person on any land to which this article applies or the worrying or disturbance of any animal or bird.
- (3) In this article an “authorised person” means a person who is authorised in writing by the Council for the purpose of giving directions under this article.

Penalty

9. A person who does anything that he is prohibited from doing by this Order, or fails to comply with any requirement therein, shall be guilty of an offence under section 67 of the Act and shall be liable, upon summary conviction, to a fine not exceeding level 3 on the standard scale.

Challenging the Order

10. In accordance with section 66 of the Act, any interested person who wishes to challenge the validity of this Order on the grounds that the Council did not have the power to make the Order or that a requirement under the Act has not been complied with may apply to the High Court within 6 weeks from the date upon which the Order is made.

ATODIAD/APPENDIX 1a

Llofnodwyd y diwrnod o 2021

Signed the day of 2021

GOSODWYD SÊL GYFFREDIN CYNGOR GWYNEDD)

AR HWN YM MHRESENOLDEB)

)

THE COMMON SEAL OF GWYNEDD COUNCIL)

WAS HEREUNTO FIXED IN THE PRESENCE OF)

)



Llofnodydd awdurdodedig

Authorised signatory

ATODLENNI

ATODLEN 1

Tir a bennir yn Atodlen 1:

1. Yr holl dir a ddisgrifir yn yr Atodlen ganlynol sydd yn dir yn gorwedd o fewn ardal weinyddol y Cyngor –
 - (i) sydd yn agored i'r awyr (sydd yn cynnwys unrhyw dir dan do os yw yn agored i'r awyr ar o leiaf un ochr); ac
 - (ii) y mae gan y cyhoedd hawl neu ganiatâd i gael mynediad iddo (gyda neu heb daliad); ac
 - (iii) sydd wedi ei arwyddo wrth ei fynedfa/mynedfeydd fel "Ardal Eithrio Cŵn" (os yw'r arwydd yn defnyddio'r geiriau penodol hynny neu eiriau ac/neu symbolau gyda'r un effaith).
2. Pob lle chwarae plant.
3. Pob tir hamdden o fewn ffiniau ysgolion, sefydliadau addysg bellach a sefydliadau addysg uwch.
4. Pob maes chwarae wedi ei marcio ble mae gan y cyhoedd ganiatâd neu hawl mynediad a thir o fewn 2 fetr i'r chwaraefa.
5. Yr holl gyfleusterau chwaraeon yn y sir, gan gynnwys (ond nid yn gyfyngedig i) canolfannau hamdden, parciau pêl aml-ddefnydd, cyrtiau tenis, lawntiau bowlio, traciau seiclo a rhedeg, cyrtiau pêl-rwyd a phêl-fasged a pharciau sglefrio.
6. Yr holl draethau gan gynnwys glan y môr, y blaendraeth ac unrhyw lethr neu risiau sydd yn arwain at y traethau yn y lleoliadau a nodir isod ac a amlinellir yn fanylach mewn coch yn y cynlluniau perthnasol atodedig:

Lleoliad

Cyfeirnod

Aberdyfi

6.01

Tywyn

6.02

Y Friog

6.03

Abermaw

6.04

ATODIAD/APPENDIX 1a

Bennar	6.05
Llandanwg	6.06
Harlech	6.07
Morfa Bychan – Traeth y Greigddu	6.08
Cricieth – Traeth y Promenâd	6.09
Pwllheli – Glan Don	6.10
Pwllheli – Marian-y-De	6.11
Abersoch	6.12
Aberdaron	6.13
Porth Oer	6.14
Porth Towyn	6.15
Morfa Nefyn	6.16
Nefyn	6.17
Dinas Dinlle	6.18

ATODLEN 2

Amseroedd a bennir yn Atodlen 2:

Paragraffau 1 i 5 o Atodlen 1: Bob amser.

Paragraff 6 o Atodlen 1: Rhwng 1 Ebrill a 30 Medi, gan gynnwys y dyddiadau hynny, mewn unrhyw flwyddyn.

ATODLEN 3

Tir a bennir yn Atodlen 3:

Yr holl dir sydd wedi ei ddisgrifio yn yr Atodlen ganlynol sydd yn dir yn gorwedd o fewn ardal weinyddol y Cyngor –

- (i) sydd yn agored i'r awyr (sydd yn cynnwys unrhyw dir dan do os yw'n agored i'r awyr ar o leiaf un ochr) ac
- (ii) y mae gan y cyhoedd hawl neu ganiatâd i gael mynediad iddo (gyda neu heb daliad).

SCHEDULES

SCHEDULE 1

Land specified in Schedule 1:

1. All land described in the following Schedule being land which lies within the administrative area of the Council –
 - (i) which is open to the air (which includes any land which is covered if it is open to the air on at least one side); and
 - (ii) to which the public are entitled or permitted to have access (with or without payment); and
 - (iii) which is signed at its entrance(s) as a “Dog Exclusion Area” (whether the sign uses those particular words or words and/or symbols having like effect).
2. All children’s play areas.
3. All recreational land within the boundaries of schools, further and higher education establishments.
4. All marked sports pitches to which the public are permitted or entitled to have access and land within 2 metres of the pitches.
5. All sports facilities in the county, including (but not limited to) leisure centres, multi-purpose ball parks, tennis courts, bowling greens, cycling and running tracks, netball and basketball courts and skate parks.
6. All beaches including the seashore, foreshore and any slope or staircase leading onto the beaches at the locations noted below and more particularly delineated in red on the relevant attached plans:

Location

Reference

Aberdyfi

6.01

Tywyn

6.02

Fairbourne

6.03

ATODIAD/APPENDIX 1a

Barmouth	6.04
Bennar	6.05
Llandanwg	6.06
Harlech	6.07
Morfa Bychan – Black Rock Sands	6.08
Cricieth – Promenade Beach	6.09
Pwllheli – Glan Don	6.10
Pwllheli – Marian-y-De	6.11
Abersoch	6.12
Aberdaron	6.13
Porth Oer	6.14
Porth Towyn	6.15
Morfa Nefyn	6.16
Nefyn	6.17
Dinas Dinlle	6.18

SCHEDULE 2

Times specified in Schedule 2:

Paragraphs 1 to 5 of Schedule 1: All times.

Paragraph 6 of Schedule 1: Between 1 April and 30 September inclusive in any year.

SCHEDULE 3

Land specified in Schedule 3:

All land described in the following Schedule being land which lies within the administrative area of the Council –

- (i) which is open to the air (which includes any land which is covered if it is open to the air on at least one side) and
- (ii) to which the public are entitled or permitted to have access (with or without payment).

DYDDIEDIG / DATED:

2021

DEDDF YMDDYGIAD GWRTH-GYMDEITHASOL, TROSEDD A PHLISMONA 2014
GORCHYMYN DIOGELU MANNAU CYHOEDDUS CYNGOR GWYNEDD (RHEOLI CŴN) 2021

ANTI-SOCIAL BEHAVIOUR, CRIME AND POLICING ACT 2014
GWYNEDD COUNCIL (DOG CONTROL) PUBLIC SPACES PROTECTION ORDER 2021

DRAFT

IWAN G D EVANS

PENNAETH GWASANAETHAU CYFREITHIOL / HEAD OF LEGAL SERVICES


CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

STRYD Y JÊL

CAERNARFON

GWYNEDD LL55 1SH

CYFEIRNOD / REFERENCE: PBR-477 GE1



**GORCHYMYN DIOGELU
MANNAU CYHOEDDUS
CYNGOR GWYNEDD
(RHEOLI CŴN) 2021**

**GWYNEDD COUNCIL (DOG
CONTROL) PUBLIC SPACES
PROTECTION ORDER 2021**

Lleoliad
Location

**Traeth Aberdyfi
Aberdyfi Beach**

**Parth Gwahardd Cŵn
Dog Exclusion Area**

**Rhwng Ebrill 1^{af} - Medi 30^{ain}
Between 1st April - 30th September**

**Rhif Cyfeirnod
Reference Number**

6.01



**GORCHYMYN DIOGELU
MANNAU CYHOEDDUS
CYNGOR GWYNEDD
(RHEOLI CŴN) 2021**


**GWYNEDD COUNCIL (DOG
CONTROL) PUBLIC SPACES
PROTECTION ORDER 2021**

Traeth Tywyn - Cynllun 6.02
Tywyn Beach – Map 6.02

Tud. 100


**Parth Gwahardd Cŵn
Dog Exclusion Area**

**Rhwng Ebrill 1^{af} - Medi 30^{ain}
Between 1st April - 30th September**



May 5, 2021

www.gwynedd.llyw.cymru
01766 771000



MapGwynedd, Gwynedd

© Hawffraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2021 Arolwg Ordnans 100023387 - Cyngor Gwynedd


**GORCHYMYN DIOGELU MANNAU
CYHOEDDUS
CYNGOR GWYNEDD (RHEOLI CŴN) 2021
GWYNEDD COUNCIL (DOG CONTROL)
PUBLIC SPACES PROTECTION ORDER 2021**

Traeth Fairbourne /Friog – Cynllun/Map 6.03

Tud. 101


**Parth Gwahardd Cŵn
Dog Exclusion Area**


**Rhwng Ebrill 1^{af} - Medi 30^{ain}
Between 1st April - 30th September**



May 5, 2021

www.gwynedd.llyw.cymru
01766 771000





Gogledd
North



**GORCHYMYN DIOGELU
MANNAU CYHOEDDUS
CYNGOR GWYNEDD
(RHEOLI CŴN) 2021**

**GWYNEDD COUNCIL (DOG
CONTROL) PUBLIC SPACES
PROTECTION ORDER 2021**

Lleoliad
Location

Traeth Abermaw

Barmouth Beach


**Parth Gwahardd Cŵn
Dog Exclusion Area**

**Rhwng Ebrill 1^{af} - Medi 30^{ain}
Between 1st April - 30th September**

Rhif Cyfeirnod
Reference Number

6.04





Gogledd
North



**GORCHYMYN DIOGELU
MANNAU CYHOEDDUS
CYNGOR GWYNEDD
(RHEOLI CŴN) 2021**
**GWYNEDD COUNCIL (DOG
CONTROL) PUBLIC SPACES
PROTECTION ORDER 2021**

Lleoliad
Location


Traeth Bennar

Bennar Beach

Tud. 103

**Parth Gwahardd Cŵn
Dog Exclusion Area**
**Rhwng Ebrill 1^{af} - Medi 30^{ain}
Between 1st April - 30th September**

**Rhif Cyfeirnod
Reference Number**
6.05



Tud. 104

Gogledd North



**GORCHYMYN DIOGELU
MANNAU CYHOEDDUS
CYNGOR GWYNEDD
(RHEOLI CŴN) 2021**

**GWYNEDD COUNCIL (DOG
CONTROL) PUBLIC SPACES
PROTECTION ORDER 2021**

Lleoliad
Location

**Traeth Llandanwg
Llandanwg Beach**


**Parth Gwahardd Cŵn
Dog Exclusion Area**

**Rhwng Ebrill 1^{af} - Medi 30^{ain}
Between 1st April - 30th September**

**Rhif Cyfeirnod
Reference Number**

6.06





Gogledd North
↑

**GORCHYMYN DIOGELU
MANNAU CYHOEDDUS
CYNGOR GWYNEDD
(RHEOLI CŴN) 2021**

**GWYNEDD COUNCIL (DOG
CONTROL) PUBLIC SPACES
PROTECTION ORDER 2021**

Lleoliad
Location

**Traeth Harlech
Harlech Beach**


**Parth Gwahardd Cŵn
Dog Exclusion Area**

**Rhwng Ebrill 1^{af} - Medi 30^{ain}
Between 1st April - 30th September**

**Rhif Cyfeirnod
Reference Number**

6.07





Gogledd
North



**GORCHYMYN DIOGELU
MANNAU CYHOEDDUS
CYNGOR GWYNEDD
(RHEOLI CŴN) 2021**

**GWYNEDD COUNCIL (DOG
CONTROL) PUBLIC SPACES
PROTECTION ORDER 2021**

Lleoliad
Location

**Traeth Morfa Bychan
(Black Rock Sands)**

**Morfa Bychan Beach
(Black Rock Sands)**


**Parth Gwahardd Cŵn
Dog Exclusion Area**

**Rhwng Ebrill 1^{af} - Medi 30^{ain}
Between 1st April - 30th September**

**Rhif Cyfeirnod
Reference Number**

6.08





CRICCIETH



**GORCHYMYN DIOGELU
MANNAU CYHOEDDUS
CYNGOR GWYNEDD
(RHEOLI CŴN) 2021**

**GWYNEDD COUNCIL (DOG
CONTROL) PUBLIC SPACES
PROTECTION ORDER 2021**

**Lleoliad
Location**

**Traeth Y Promenad
Criccieth**

**Promenade Beach
Criccieth**


**Parth Gwahardd Cŵn
Dog Exclusion Area**

**Rhwng Ebrill 1^{af} - Medi 30^{ain}
Between 1st April - 30th September**

**Rhif Cyfeirnod
Reference Number**

6.09





Gogledd
North



**GORCHYMYN DIOGELU
MANNAU CYHOEDDUS
CYNGOR GWYNEDD
(RHEOLI CŴN) 2021**

**GWYNEDD COUNCIL (DOG
CONTROL) PUBLIC SPACES
PROTECTION ORDER 2021**

Lleoliad
Location

**Traeth Glan y Don
Pwllheli**


**Glan y Don Beach
Pwllheli**

**Parth Gwahardd Cŵn
Dog Exclusion Area**

**Rhwng Ebrill 1^{af} - Medi 30^{ain}
Between 1st April - 30th September**

Rhif Cyfeirnod
Reference Number

6.10



Gogledd
North



**GORCHYMYN DIOGELU
MANNAU CYHOEDDUS
CYNGOR GWYNEDD
(RHEOLI CŴN) 2021**

**GWYNEDD COUNCIL (DOG
CONTROL) PUBLIC SPACES
PROTECTION ORDER 2021**

Lleoliad
Location

**Traeth Marian-y-De
Pwllheli**

**Marian-y-De Beach
Pwllheli**

Tud. 109


Parth Gwahardd Cŵn
Dog Exclusion Area

Rhwng Ebrill 1^{af} - Medi 30^{ain}
Between 1st April - 30th September

Rhif Cyfeirnod
Reference Number

6.11





**GORCHYMYN DIOGELU
MANNAU CYHOEDDUS
CYNGOR GWYNEDD
(RHEOLI CŴN) 2021**

**GWYNEDD COUNCIL (DOG
CONTROL) PUBLIC SPACES
PROTECTION ORDER 2021**

Traeth Abersoch - Cynllun 6.12


Abersoch Beach – Map 6.12

**Parth Gwahardd Cŵn
Dog Exclusion Area**

**Rhwng Ebrill 1^{af} - Medi 30^{ain}
Between 1st April - 30th September**

May 5, 2021

www.gwynedd.llyw.cymru
01766 771000



© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2021 Arolwg Ordnans 100023387 - Cyngor Gwynedd

**GORCHYMYN DIOGELU
MANNAU CYHOEDDUS
CYNGOR GWYNEDD
(RHEOLI CŴN) 2021**

**GWYNEDD COUNCIL (DOG
CONTROL) PUBLIC SPACES
PROTECTION ORDER 2021**

Lleoliad
Location


**Traeth Aberdaron
Aberdaron Beach**

Parth Gwahardd Cŵn
Dog Exclusion Area

Rhwng Ebrill 1^{af} - Medi 30^{ain}
Between 1st April - 30th September

Rhif Cyfeirnod
Reference Number

6.13



**GORCHYMYN DIOGELU MANNAU CYHOEDDUS
CYNGOR GWYNEDD (RHEOLI CŴN) 2021**


**GWYNEDD COUNCIL (DOG CONTROL) PUBLIC
SPACES PROTECTION ORDER 2021**

Traeth Porth Oer - Cynllun 6.14
Porth Oer Beach – Map 6.14

**Parth Gwahardd Cŵn
Dog Exclusion Area**


**Rhwng Ebrill 1^{af} - Medi 30^{ain}
Between 1st April - 30th September**

Tud. 11
12




May 5, 2021

www.gwynedd.llyw.cymru
01766 771000



MapGwynedd, Gwynedd



**GORCHYMYN DIOGELU
MANNAU CYHOEDDUS
CYNGOR GWYNEDD
(RHEOLI CŴN) 2021**

**GWYNEDD COUNCIL (DOG
CONTROL) PUBLIC SPACES
PROTECTION ORDER 2021**

**Lleoliad
Location**

Traeth Porth Towyn

Porth Towyn Beach

**Parth Gwahardd Cŵn
Dog Exclusion Area**

**Rhwng Ebrill 1^{af} - Medi 30^{ain}
Between 1st April - 30th September**

**Rhif Cyfeirnod
Reference Number**

6.15



Gogledd
North



**GORCHYMYN DIOGELU
MANNAU CYHOEDDUS
CYNGOR GWYNEDD
(RHEOLI CŴN) 2021**

**GWYNEDD COUNCIL (DOG
CONTROL) PUBLIC SPACES
PROTECTION ORDER 2021**

Lleoliad
Location

Traeth Morfa Nefyn


Morfa Nefyn Beach

**Parth Gwahardd Cŵn
Dog Exclusion Area**

**Rhwng Ebrill 1^{af} - Medi 30^{ain}
Between 1st April - 30th September**

**Rhif Cyfeirnod
Reference Number**

6.16



Gogledd
North



**GORCHYMYN DIOGELU
MANNAU CYHOEDDUS
CYNGOR GWYNEDD
(RHEOLI CŴN) 2021**

**GWYNEDD COUNCIL (DOG
CONTROL) PUBLIC SPACES
PROTECTION ORDER 2021**

Lleoliad
Location

Traeth Nefyn


Nefyn Beach

**Parth Gwahardd Cŵn
Dog Exclusion Area**

**Rhwng Ebrill 1^{af} - Medi 30^{ain}
Between 1st April - 30th September**

Rhif Cyfeirnod
Reference Number

6.17



Tud. 115



GORCHYMYN DIOGELU
MANNAU CYHOEDDUS
CYNGOR GWYNEDD
(RHEOLI CŴN) 2021

GWYNEDD COUNCIL (DOG
CONTROL) PUBLIC SPACES
PROTECTION ORDER 2021

Lleoliad
Location

Traeth Dinas Dinlle


Dinas Dinlle Beach

Parth Gwahardd Cŵn
Dog Exclusion Area

Rhwng Ebrill 1^{af} - Medi 30^a
Between 1st April - 30th September

Rhif Cyfeirnod
Reference Number

6.18



ATODIAD 2

Canlyniadau Ymgynghoriad Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus (GDMC): Rheoli Cŵn

Lansiwyd yr ymgynghoriad cyhoeddus ar 24ain o Fai 2021 ac roedd yn agored tan 23:59 nos ar 21ain o Fehefin 2021. Rhoddwyd yr holiadur ar wefan y Cyngor ac fe rannwyd o gyda'r Panel Trigolion, Cynghorau Cymuned a rhanddeiliaid perthnasol. Gweler rhestr o'r rhain yn **Atodiad A**. Rhoddwyd negeseuon atgoffa ar dudalennau cyfryngau cymdeithasol y Cyngor a gwnaethpwyd datganiad i'r wasg i'w hyrwyddo. Rhoddwyd copiâu papur a phecynnau gwybodaeth eu rhoi ym mhob llyfrgell/Siop Gwynedd drwy'r sir hefyd.

Derbyniwyd 1,324 o ymatebion i'r holiadur ar-lein, gyda 7 o e-byst wedi eu derbyn hefyd.

Mae dadansoddiad rhyw yr ymatebwyr yn dangos bod 708 (54%) yn fenywod, 324 (25%) yn wrywod, 4 (0.3%) yn nodi bod eu rhyw yn 'arall'. Ni chafwyd ateb gan 288 (21%).

Nododd 97 (7%) o'r ymatebwyr bod ganddynt anabledd wedi ei ddiffinio o dan Adran6(1) o Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Gwelir isod yn **Nhabl 1** drawstoriad o grwpiau oedran yr ymatebwyr. O ran cynrychiolaeth, yn sicr mae'r grwpiau oedran ieuengaf o dan 24 oed ynghyd â'r grŵp oedran hynaf 85 neu hŷn wedi eu tangynrychioli.

Tabl 1 : Grŵp oedran yr ymatebwyr

Grŵp Oedran	Nifer	Canran
15 oed neu'n iau	1	0.1%
16 - 24 oed	13	1.0%
25 - 44 oed	316	23.9%
45 - 64 oed	482	36.4%
65 - 84 oed	234	17.7%
85 + oed	5	0.4%
Gwell gennyf beidio â dweud	55	4.2%
Heb ateb	218	16.5%
Cyfanswm	1,324	100%

Gweler isod ddadansoddiad o gwestiynau'r holiadur. Gweler copi o'r e-byst yn yr **Atodiad B**.

O ran cynrychiolaeth, gwelir isod yn **Nhabl 2** fod mwyafrif yr ymatebwyr wedi cwblhau'r holiadur fel unigolion.

ATODIAD 2

Tabl 2 : Ar ran pw ydych chi'n ateb yr holiadur?

Cwblhau'r holiadur:-	Nifer	Canran
Fel unigolyn	1,284	96%
Fel Cynghorydd Sir	10	1%
Ar ran Cyngor Tref / Cyngor Cymuned	10	1%
Ar ran sefydliad, grŵp neu fusnes	20	2%
Cyfanswm	1,324	100%

Ceir crynodeb o ganlyniadau Cyngor Tref/Cymuned a Chynghorwyr a Sefydliadau, grwpiau a busnesau yn **Nhablau 25** ymlaen.

Gofynnwyd i'r ymatebwyr nodi os oeddynt yn berchennog ci ai peidio. Gweler yr ymateb yn **Nhabl 3**.

Tabl 3 : Ydych chi'n berchennog ci?

Perchennog ci	Nifer	Canran
Ydw	695	53%
Nac ydw	557	42%
Gwell gennyf beidio dweud	32	2%
Heb ateb	40	3%
Cyfanswm	1,324	100%

O dan y Gorchymyn Gwahardd Cŵn (Cyngor Gwynedd) 2013 roedd cŵn wedi eu gwahardd yn gyfan gwbl o rai ardaloedd sensitif gydol y flwyddyn. Roedd rhain yn cynnwys llefydd awyr agored cyhoeddus hefo arwydd 'Ardal Eithrio Cŵn', llefydd chwarae i blant, tiroedd hamdden ysgolion a cholegau, meysydd chwarae a chyfleusterau chwaraeon eraill.

Holwyd os fyddai'r ymatebwyr yn cefnogi neu'n gwrthwynebu gwahardd cŵn o'r manau gwahanol. Bu i 67 o'r ymatebwyr beidio ateb. Dengys **Tabl 4** ymateb y rhai atebodd y cwestiwn.


Tabl 4 : Ymateb i'r gwahanol gynigion o'r Gorchymyn

	Cefnogi	Gwrthwynebu
Tiroedd awyr agored cyhoeddus, ble mae arwydd 'Eithrio Cŵn'	931 (74%)	326 (26%)
Llefydd chwarae plant	1,196 (95%)	61 (5%)
Tiroedd hamdden ysgolion, sefydliadau addysg bellach a sefydliadau addysg uwch	1,118 (89%)	139 (11%)
Meysydd Chwarae	1,170 (93%)	87 (7%)
Cyfleusterau chwaraeon eraill	1,070 (85%)	187 (15%)

Mae'r **Ffigwr 1 a 2** yn cynnig cymhariaeth rhwng ymatebion y rhai sydd yn berchennog ar gi a'r rhai sydd ddim.


ATODIAD 2

Ffigwr 1 : Ymateb i'r gwahanol gynigion gan y rhai sydd yn berchen ci (n=660)*



**ni fu i 35 o berchnogion cŵn ateb y cwestiwn*

Ffigwr 2 : Ymateb i'r gwahanol gynigion gan y rhai sydd ddim yn berchen ci (n=533)*



**ni fu i 24 o'r rhai sydd ddim yn berchen ci ateb y cwestiwn*

Gofynnwyd i'r ymatebwyr roi sylw pellach am wahardd cŵn o'r manau uchod boed yn berchen ci neu beidio, a bu i 527 o'r ymatebwyr wneud hynny. Gweler isod grynodedb o'r sylwadau a gafwyd eu gwneud. Noder y bu i rai ymatebwyr wneud mwy nac un sylw.

ATODIAD 2

Tabl 5 : Sylwadau pellach am wahardd cŵn o'r manau nodwyd yn y Gorchymyn

Sylwad	Nifer
Cytuno gyda'r gorchymyn	100
Annheg bod pob perchennog ci yn cael eu cosbi oherwydd yr ychydig rai sydd yn anghyfrifol	91
Dylid gwahardd cŵn o fannau chwaraeon / unrhyw lle ble mae plant a phobl ifanc yn ymweld â nhw	90
Baw ci/bygythiad yn beryglus i blant/iechyd	84
Cytuno dylai cŵn fod ar dennyn mewn manau cyhoeddus	58
Os am wahardd cŵn o'r manau nodedig, yna dylai bod gwell darpariaeth ar gyfer manau ble gellid mynd a chŵn yno	50
Geiriad y gorchymyn angen bod yn gliriach o ran yn union lle sydd dan sylw - angen mwy o wybodaeth cyn penderfynu	45
Ddim yn cytuno gyda'r gorchymyn i wahardd cŵn o'r holl fannau	44
Ni ddylid gwahardd cŵn o barciau chwarae/manau chwaraeon arall - methu mynd gyda fy mhlant i'r parc/gwyllo nhw chwarae oherwydd y gorchymyn	34
Angen biniau priodol a bagiau baw ci am ddim	28
Angen cynyddu'r dirwyon	25
Dylai fod yna eithriad ar gyfer cŵn tywys/therapi/addysgol	23
Angen llawer mwy o reolaeth ar gŵn yng Ngwynedd	22
Dylai bod gwell arwyddion yn nodi yn union lle sydd wedi ei wahardd	18
Angen mwy o wardeiniaid cŵn	17
Mae'r ci yn rhan o'r teulu - ni ddylid eu gwahardd	17
Ni ddylai cŵn gael eu gwahardd oddi ar draethau	11
Angen gwagio'r biniau baw cŵn yn rheolaidd	10
Cyfnod y pan-demig wedi gwaethygu'r broblem wrth i fwy o bobl gael cŵn	10
Angen sesiynau addysgu ar sut i fod yn berchnogion cyfrifol	9
Perchnogion cŵn ddim yn rhoi eu cŵn ar dennyn ar dir preifat/amaethyddol yn broblem	7
Peryg gall rhywun rhoi arwyddion fyny yn gwahardd cŵn oherwydd y gorchymyn	6
Palmentydd a llwybrau - baw ci yn broblem fawr yn y manau yma	6
Angen mwy o ddefnydd Teledu Cylch Cyfyng	4
Angen gwahardd cŵn o fannau ble mae adar yn nythu	1
Ni ddylid caniatáu cŵn mewn mynwentydd	1

Holwyd yr ymatebwyr os oeddynt yn cefnogi neu wrthwynebu gwahardd cŵn o ardaloedd dynodedig ar y traethau nodwyd yn y Gorchymyn. Mae **Tabl 6** yn dangos yr ymatebion wedi eu rhannu i'r rhai oedd yn berchen ci a'r rhai oedd ddim. Ni fu i 128 o'r ymatebwyr ateb y cwestiwn.

Tabl 6 : A ydych chi'n cefnogi neu'n gwrthwynebu gwahardd cŵn o ardaloedd dynodedig ar y traethau nodwyd rhwng 1 Ebrill a 30 Medi?

	Yn berchennog ci		Ddim yn berchennog ci		Cyfanswm*	
	Nifer	Canran	Nifer	Canran	Nifer	Canran
Cefnogi	399	64%	480	94%	933	78%
Gwrthwynebu	222	36%	33	6%	263	22%
Cyfanswm	621	100%	513	100%	1,196	100%

*cynnwys rhai oedd wedi ateb ond heb nodi os oeddynt yn berchen ci ai peidio

ATODIAD 2

I'r 263 oedd yn gwrthwynebu holwyd iddynt nodi'r rheswm pam. Mae **Tabl 7** yn dangos y canlyniadau boed hwy yn berchennog ci neu ddim.

Tabl 7 : Rheswm dros wrthwynebu gwahardd cŵn o ardaloedd dynodedig ar y traethau nodwyd rhwng 1 Ebrill a 30 Medi

	Nifer	Canran
Dwi'n gwrthwynebu cyfyngiad ar draeth penodol	31	12%
Dwi'n gwrthwynebu gwahardd cŵn o ardaloedd dynodedig ar bob traeth	201	76%
Dwi'n gwrthwynebu oherwydd hoffwn weld mwy o draethau yn cael eu cynnwys yn y Gorchymyn	3	1%
Rheswm arall	28	11%
Cyfanswm	263	100%

I'r 31 oedd yn gwrthwynebu cyfyngiad ar draeth penodol – holwyd hwy pa rai yn union. Dangosir y nifer oedd yn gwrthwynebu pa draethau yn **Nhabl 8**.

Tabl 8 : Nifer yn gwrthwynebu'r cyfyngiadau ar draethau penodol

Traeth	Nifer Gwrthwynebu
Aberdyfi	3
Tywyn	7
Friog	2
Abermaw	3
Bennar	2
Llandanwg	3
Harlech	4
Morfa Bychan	2
Promenâd Criccieth	9
Glan y Dôn, Pwllheli	8
Marian-y-De, Pwllheli	8
Abersoch	3
Aberdaron	3
Porth Oer	4
Porth Tywyn	3
Morfa Nefyn	8
Nefyn	7
Dinas Dinlle	5

Roedd cyfle i'r 232 ymatebwr arall egluro eu rheswm dros wrthod gwahardd cŵn o ardaloedd dynodedig ar y traethau nodwyd rhwng 1 Ebrill a 30 Medi. Bu i 195 ohonynt egluro pam. Gweler eu hymateb yn **Nhabl 9** isod, gyda rhai yn nodi mwy nac un rheswm.

ATODIAD 2

Tabl 9 : Rhesymau dros wrthod gwahardd cŵn o ardaloedd dynodedig ar y traethau nodwyd rhwng 1 Ebrill a 30 Medi

Sylwad	Nifer
Mae'r traethau yna i bawb eu mwynhau gan gynnwys cŵn	31
Dylid newid i barthau "efo tennyn" ac "heb dennyn"	29
Mae pobl yn gwneud mwy o lanast na chŵn	28
Mae mwyafrif y perchnogion yn gyfrifol	23
Angen gwell rheolaeth ar y perchnogion anghyfrifol yn hytrach na gwahardd y rhai cyfrifol	23
Dylid caniatáu cŵn ar bob traeth cyhoeddus drwy'r flwyddyn	17
Y cyfnod gwahardd am 6 mis yn ormodol	16
Cŵn yn rhan o deulu - felly ni ddylent gael eu gwahardd	15
Gwaharddiad yn amharu ar iechyd y ci	14
Mae gwaharddiad o'r fath yn digwydd ar amser pan mae lles pobl mor bwysig	11
Angen mwy o finiau a bagiau baw cŵn am ddim	9
Fe gaiff effaith negyddol ar dwristiaeth	9
Ddim yn cytuno gyda'r gwaharddiad gydol y dydd - dylai bod cyfnod peth cyntaf yn y bore a hwyr y nos yn cael ei ganiatáu	8
Angen gwell arwyddion yn nodi yn union lle sydd wedi ei wahardd a phryd	7
Gwell fyddai sicrhau bod y cyfyngiadau/rheolau presennol yn cael eu gorfodi	6
Rhaid sicrhau bod mynediad priodol i bobl gydag anabledd/pobl hŷn i'r ardaloedd lle mae gan gŵn hawl mynd arnynt	5
Gadael baw cŵn ar y traeth i'r llanw fynd ag o oddi yno - lleihau gwastraff plastig	3
Pam gwahardd cŵn a dim ceffylau	3
Cyngor angen gwell rhesymau i gyfiawnhau gwahardd cŵn oddi ar draethau	2
Angen sicrhau bod eithriad i gŵn tywys/therapi	1
Mae cŵn yn hybu sgiliau gofalu ac empathi - wrth wahardd cŵn mae'r neges anghywir yn cael ei rannu	1

Gofynnwyd i'r ymatebwyr roi sylw pellach am wahardd cŵn o ardaloedd dynodedig ar y traethau, a bu i 301 o'r ymatebwyr wneud hynny. Gweler isod grynodedb o'r sylwadau a gafwyd eu gwneud yn **Nhabl 10** gan nodi bod modd i ymatebwr wneud mwy nac un sylw.

ATODIAD 2

Tabl 10 : Sylwadau pellach am wahardd cŵn o ardaloedd dynodedig ar y traethau

Sylwad	Nifer
Dylid sicrhau bod y gorchymyn yn cael ei orfodi a bod wardeiniaid yn weladwy	73
Credu dylai bod manau dynodedig o'r traethau ar gyfer cŵn	72
Angen gwell arwyddion/mapiau sydd yn weladwy o bob mynediad/gwybodaeth ar y we	51
Ni ddylid gadael cŵn ar unrhyw draeth unrhyw adeg o'r flwyddyn	50
Ni ddylai cŵn fod ar draethau lle mae plant yn chwarae	40
Os am ganiatáu cŵn ar draethau dylent fod ar dennyn pob amser	23
Mae perchnogion anghyfrifol sydd yn gadael baw cŵn ar draethau yn hollol afiach	23
Angen mwy o finiau baw cŵn o gwmpas traethau	11
Angen cynnwys unrhyw ardal ar draethau sydd yn cynnwys safleoedd nythu adar	6
Credu dylid caniatáu cŵn cyn 8yb ac ar ôl 6yh ar y traethau	5
Credai dylai cyfnod y gwaharddiad fod o fis Mai i Medi	4
Ydi Cyngor Gwynedd wedi erlyn unrhyw un oherwydd eu bod wedi torri rheolau'r gorchymyn cŵn yn y flwyddyn ddiwethaf?	3
Pam nad ydy Traeth Gorllewinol Criccieth wedi ei gynnwys yn y gorchymyn newydd?	3
Dylid ychwanegu traeth Llwyngwriil at y rhestr o ardaloedd gwaharddedig	3
Credai dylai cyfnod y gwaharddiad fod o fis Mawrth i Tachwedd	3
Anghyfrifol mynd a chŵn i'r traeth ar ddiwrnodau poeth	3
Ni ddylid gwahardd cŵn oddi ar draethau sydd yn rhan o lwybr yr arfordir	2
Ardal gwahardd Dinas Dinlle yn gwneud dim synnwyr - ni ddylai cŵn gael mynd ar y traeth hyd nes cyrraedd gyferbyn â'r maes awyr	2
Dylid ychwanegu traeth Fairbourne at y rhestr o ardaloedd gwaharddedig	2
Dylid ehangu'r ardal waharddedig ar draeth Harlech i gynnwys yr ochr ddeheuol a gogleddol o'r traeth	2
Dylid ychwanegu traeth Trefor at y rhestr o ardaloedd gwaharddedig	2
Dylid gwahardd yfed alcohol a BBQ ar draethau hefyd	2
Dylid ychwanegu traeth Llanbedrog at y rhestr o ardaloedd gwaharddedig	2
Pwy sydd wedi penderfynu ar yr ardaloedd dynodedig?	1
Dylai'r ardal waharddedig ar draeth Bennar gael ei ymestyn yn ddwyreiniol i gynnwys y twyni tywod ac yn ogleddol	1
Dylid ymestyn yr ardal waharddedig ar draeth Friog i gynnwys yr holl bromenâd	1
Ardal waharddedig traeth Morfa Nefyn yn gwneud dim synnwyr - ni ddylai cŵn gael mynd i gyfeiriad Tŷ Coch	1
Dylid ychwanegu "jeti" Abersoch at y rhestr o ardaloedd gwaharddedig	1
Credai dylai cyfnod y gwaharddiad fod o fis Mawrth i Medi	1
Angen system hawdd i allu adrodd am unigolion sydd yn torri'r rheolau	1
Gwaharddiadau yma yn gwahaniaethu ar sail pobl sydd yn berchen cŵn	1
Bydd y gorchymyn yn cael effaith negyddol ar dwristiaeth	1

Holwyd hwy ymhellach i nodi 'Beth yn eu barn hwy ddylid ei newid?' Bu i 25 ymatebwr gynnig newid – gweler eu sylwadau yn **Nhabl 11**. Noder bod rhai wedi gwneud mwy nac un sylw.

ATODIAD 2

Tabl 11 : Sylwadau am beth ddylid ei newid

Sylwad	Nifer
Rhai o'r parthau gwaharddiad yn gwneud dim synnwyr o ran amser, cyfnod na lleoliad	15
Mae'r cyfyngiadau presennol yn ddigonol ac yn deg	5
Mae hi yn saff i gŵn fod ar dennyn yn y manau gwaharddedig	5
Dylid cyfyngu ar y manau lle gall cŵn fod yn rhydd ar y traeth	3
Angen arwyddion gwell/mwy gweledol	2
Does neb yn cymryd sylw o'r arwyddion ar draethau	2
Dim digon o finiau baw ci ar y traethau	1
Dylid gwahardd ceffylau yn yr un modd	1

Roedd cyfle i'r ymatebwyr nodi os oeddynt yn credu bod baw cŵn yn broblem yn eu hardal hwy. Mae **Tabl 12** yn dangos yr ymatebion wedi eu rhannu rhwng y rhai sydd yn berchennog ar gi a'r rhai sydd ddim. Ni fu i 142 o'r ymatebwyr ateb y cwestiwn.

Tabl 12 : Ydi baw ci yn broblem yn eich ardal chi?

	Yn berchennog ci		Ddim yn berchennog ci		Cyfanswm*	
	Nifer	Canran	Nifer	Canran	Nifer	Canran
Ydi	457	74%	441	87%	949	80%
Nac ydi	158	26%	64	13%	233	20%
Cyfanswm	615	100%	505	100%	1,182	100%

*cynnwys rhai oedd wedi ateb ond heb nodi os oeddynt yn berchen ci ai peidio

Gellir edrych ar yr ymatebion ymhellach fesul ardal. Mae **Tabl 13** yn dangos ymateb fesul Ardal Llesiant Gwynedd. Noder bod rhai o du allan i Wynedd wedi ymateb i'r ymgynghoriad hefyd.

Tabl 13 : Ydi baw cŵn yn broblem – fesul Ardal Llesiant

	Ydi	Nac ydi
Ardal Bangor	159 (82%)	34 (18%)
Ardal Caernarfon	245 (88%)	35 (12%)
Ardal Dolgellau	110 (76%)	35 (24%)
Ffestiniog	34 (83%)	7 (17%)
Llŷn	105 (76%)	33 (24%)
Penllyn	10 (67%)	5 (33%)
Ardal Porthmadog	77 (75%)	26 (25%)
Ardal Tywyn	91 (78%)	8 (22%)
Tu allan i Wynedd	19 (58%)	14 (42%)
Heb nodi côd post	99 (85%)	18 (15%)
Cyfanswm	949 (80%)	233 (20%)

O'r 949 atebodd bod baw ci yn broblem yn eu hardal nhw holwyd hwy ymhle yn benodol mae o yn achosi problemau. Mae **Tabl 14** yn dangos y niferoedd.

ATODIAD 2

Tabl 14 : Mannau lle mae baw ci yn broblem


	Nifer	Canran
Ar strydoedd a phalmentydd	831	88%
Ar lwybrau cyhoeddus	795	84%
Mewn parciau	314	33%
Ar dir preifat	208	22%
Ar draethau	285	30%
Ar gaeau chwarae plant	227	24%
Ar gaeau hamdden e.e. cae pêl-droed	279	29%
Arall	128	13%

Roedd y llefydd “arall” yn cynnwys llefydd fel:-

- Meysydd parcio
- Tir comin
- Mynyddoedd
- Llwybrau beicio
- Gerddi preifat
- Cyrsiau Golff
- Tir amaethyddol
- Ar ganghennau coed/ffensys yn hongian mewn bagiau
- Tir ysgol
- Coedwigoedd
- Mynwentydd

Gellir gweld canlyniadau Tabl 14 yn **Ffigwr 3** isod gyda’r ymatebion wedi eu rhannu rhwng y rhai sydd yn berchennog ar gi a’r rhai sydd ddim.

Ffigwr 3 : Mannau lle mae baw ci yn broblem



ATODIAD 2

O'r 949 atebodd bod baw ci yn broblem yn eu hardal nhw holwyd hwy beth ydych chi'n credu byddai'n annog perchnogion cŵn i lanhau ar ôl eu hanifeiliaid anwes. Noder y bod modd i'r ymatebwyr ddewis mwy nac un opsiwn. Mae **Tabl 15** yn dangos yr ymateb wedi ei rannu rhwng y rhai sydd yn berchen ci a'r rhai sydd ddim.

Tabl 15 : Beth ydych chi'n credu byddai'n annog perchnogion cŵn i lanhau ar ôl eu hanifeiliaid anwes?

	Yn berchennog ci		Ddim yn berchennog ci		Cyfanswm*	
	Nifer	Canran	Nifer	Canran	Nifer	Canran
Addysgu a chodi ymwybyddiaeth	138	30%	107	24%	259	27%
Pwysau gan eraill	81	18%	84	19%	178	19%
Mwy o arwyddion rhybudd	102	22%	112	25%	231	24%
Mwy o finiau	345	75%	237	54%	610	64%
Wardeiniaid ar batrôl	274	60%	324	73%	632	67%
Dirwy	275	60%	357	81%	671	71%
Arall	38	8%	29	7%	75	8%

**cynnwys rhai oedd wedi ateb ond heb nodi os oeddynt yn berchen ci ai peidio*


Roedd y ffyrdd "arall" yn cynnwys:-

- Teledu Cylch Cyfyng
- Bagiau baw ci am ddim
- Gwagio biniau baw ci yn fwy aml
- "Name & shame"
- Trwydded cŵn
- Sicrhau bod bob ci wedi ei gofrestru
- Sgrinio baw cŵn am DNA
- Ymgyrchoedd gan filfeddygon

Gweler ffigyrau Tabl 15 yn **Ffigwr 4** isod gyda'r ymatebion wedi eu rhannu rhwng y rhai sydd yn berchennog ar gi a'r rhai sydd ddim.

ATODIAD 2

Ffigwr 4 : Beth ydych chi'n credu byddai'n annog perchnogion cŵn i lanhau ar ôl eu hanifeiliaid anwes?



O dan y Gorchymyn Baeddu Tir Gan Gŵn (Cyngor Gwynedd) 2013 roedd gofyn i rywun sy'n gyfrifol am gi mewn man awyr agored cyhoeddus lanhau ar ôl i gi baeddu. Byddai rhywun sydd ddim yn clirio'r baw yn torri'r gorchymyn a chyflawni trosedd, gan wynebu dirwy. Bwriad y Cyngor ydi cael yr un trefniant yn y GDMC newydd.

Holwyd yr ymatebwyr os oeddynt yn cefnogi neu wrthwynebu'r rheol bod rhaid i bobl lanhau ar ôl eu cŵn mewn mannau cyhoeddus. Ni fu i 142 o'r ymatebwyr ateb y cwestiwn. Dengys **Tabl 16** yr ymateb wedi ei rannu rhwng y rhai sydd yn berchennog ar gi a'r rhai sydd ddim.

Tabl 16 : Ydych chi'n cefnogi neu'n gwrthwynebu rheol bod rhaid i bobl lanhau ar ôl eu ci mewn mannau cyhoeddus?

	Yn berchennog ci		Ddim yn berchennog ci		Cyfanswm*	
	Nifer	Canran	Nifer	Canran	Nifer	Canran
Cefnogi	607	99%	501	99%	1,170	99%
Gwrthwynebu	8	1%	4	1%	12	1%
Cyfanswm	615	100%	505	100%	1,182	100%

*cynnwys rhai oedd wedi ateb ond heb nodi os oeddynt yn berchen ci ai peidio

Gofynnwyd i'r ymatebwyr roi sylw pellach am y rheol bod rhaid i bobl lanhau ar ôl eu ci mewn mannau cyhoeddus. Gweler isod yn **Nhabl 17** grynodedb o'r sylwadau a gafwyd eu gwneud gan 468 o'r ymatebwyr i'r cwestiwn yma.

ATODIAD 2

Tabl 17 : Sylwadau pellach am y rheol bod rhaid i bobl lanhau ar ôl eu cŵn mewn mannau cyhoeddus

Sylwad	Nifer
Cytuno dylai pob perchennog ci lanhau ar ôl eu ci	165
Angen mwy o wardeiniaid cŵn ym mhob ardal i orfodi'r gorchmynion	123
Angen mwy o finiau baw cŵn/bagiau baw ci am ddim a gwagio'r biniau yn rheolaidd	119
Angen defnyddio mwy o ddirwyon	74
Gwneud gadael bag baw ci yn unrhyw le (heblaw bin) yn anghyfreithlon	65
Angen ymgyrch/defnydd o gyfryngau cymdeithasol i geisio taclo'r broblem	38
Palmentydd a strydoedd yn llawn baw ci	28
Dylai cŵn fod ar dennyn drwy'r amser er mwyn i'r perchennog weld ble mae'r ci yn baeddu	23
Mae'n digwydd yn gynnar yn y bore neu hwyr yn y nos pan does neb o gwmpas	18
Angen "Name and Shame"	16
Does dim rhaid codi baw ci i fyny pob tro - bydd yn dadelfennu yn naturiol e.e. y rheol "stick & flick"	15
Mae sbwriel/baw gan bobl yn cael ei adael hefyd e.e. poteli gwydr sy'n gallu bod yn beryglus i gŵn	14
Angen gwneud mwy o ddefnydd o arwyddion clir	13
Dylid hybu'r defnydd o fagiau baw cŵn bioddiraddadwy	10
Angen defnyddio Teledu Cylch Cyfwng yn y mannau sydd yn cael eu heffeithio yn ddrwg	9
Dylai pob perchennog ci gario bagiau baw ci pob amser	9
Dylai pob ci gael trwydded - defnyddio'r incwm i daclo'r broblem	7
Nid oes modd monitro hyn - gwastraff amser	4
Efallai bod rheswm pam nad ydi rhai perchnogion yn gallu codi'r baw ci e.e. anabledd	4
Dylai perchnogion ceffylau godi baw ceffyl hefyd	4
Ni fydd gwahardd cŵn o rai ardaloedd yn cyfarch y broblem baw ci	3
Dylid cael gwirfoddolwyr sy'n gallu rhoi dirwyon i berchnogion cŵn	1

O dan y Gorchymyn Cŵn ar Dennyn drwy Gyfarwyddyd (Cyngor Gwynedd) 2013 roedd gofyn i berson yn gyfrifol am gi mewn man awyr agored cyhoeddus roi'r ci hwnnw ar dennyn os yn cael cyfarwyddyd gan swyddog awdurdodedig i wneud hynny. Byddai modd i'r swyddog roi'r fath gyfarwyddyd petai o'r farn fod y ci yn achosi niwsans neu bryder. Bwriad y Cyngor ydi cael yr un trefniant yn y GDMC newydd.

Holwyd yr ymatebwyr os oeddynt yn cefnogi neu wrthwynebu'r rheol fyddai yn galluogi swyddog awdurdodedig ofyn i unrhyw un sydd yn gyfrifol am gi i'w roi ar dennyn. Ni fu i 154 o'r ymatebwyr ateb y cwestiwn. Dengys **Tabl 18** yr ymateb.

Tabl 18 : Ydych chi'n cefnogi neu'n gwrthwynebu rheol yn galluogi swyddog awdurdodedig i ofyn i unrhyw un sy'n gyfrifol am gi i'w roi ar dennyn?

	Yn berchennog ci		Ddim yn berchennog ci		Cyfanswm*	
	Nifer	Canran	Nifer	Canran	Nifer	Canran
Cefnogi	574	94%	488	97%	1,116	95%
Gwrthwynebu	36	6%	13	3%	54	5%
Cyfanswm	610	100%	501	100%	1,170	100%

*cynnwys rhai oedd wedi ateb ond heb nodi os oeddynt yn berchen ci ai peidio

ATODIAD 2

Gofynnwyd i'r ymatebwyr roi sylw pellach am y rheol yn galluogi swyddog awdurdodedig i ofyn i unrhyw un sy'n gyfrifol am gi i'w roi ar dennyn. Gweler isod yn **Nhabl 19** grynodedeb o'r sylwadau a gafwyd eu gwneud gan 426 o'r ymatebwyr i'r cwestiwn yma.

Tabl 19 : Sylwadau pellach am y rheol yn galluogi swyddog awdurdodedig i ofyn i unrhyw un sy'n gyfrifol am gi i'w roi ar dennyn

Sylwad	Nifer
Derbyniol gofyn i'r perchennog roi ei gi ar dennyn os nad oes ganddynt reolaeth dros y ci pan fyddant yn cael eu cyfarwyddo i wneud hyn gan swyddog awdurdodedig	214
Dylai cŵn fod ar dennyn pob amser mewn llefydd cyhoeddus heb i swyddog awdurdodedig gyfarwyddo nhw i wneud - nid oes gan bawb reolaeth dros eu cŵn	117
Rhaid sicrhau bod unrhyw swyddog awdurdodedig yn ddiuedd/wedi eu hyfforddi/dilyn canllawiau clir o beth ydi ymddygiad allan o reolaeth a gyda phrawf ohono	62
Mae rhai perchnogion yn gallu rheoli eu cŵn heb dennyn - dylai swyddog awdurdodedig adnabod hyn	51
Bydd rhaid sicrhau bod wardeiniaid ar gael i orfodi'r rheol	40
Ddim yn meddwl fod angen rheol i orfodi cŵn i fod ar dennyn pan fydd swyddog awdurdodedig yn cyfarwyddo hynny	14
Dylai swyddogion awdurdodedig gael bathodyn adnabod	12
Angen creu parc i gŵn yn benodol i gael bod oddi ar eu tennyn	11
Ni ddylid caniatáu tennyn hir	9
Dylai staff awdurdodedig gynnwys wardeiniaid y Parc Cenedlaethol a gwirfoddolwyr/ffermwyr	6

Holwyd yr ymatebwyr os oeddynt yn teimlo y dylid cyflwyno unrhyw reolau eraill fel rhan o'r gorchymyn. Ni fu i 161 o'r ymatebwyr ateb y cwestiwn. Dengys **Tabl 20** yr ymateb.

Tabl 20 : Ydych chi'n teimlo bod angen cyflwyno unrhyw reol neu reolau eraill i'r GDMC o ran rheoli cŵn?

	Yn berchennog ci		Ddim yn berchennog ci		Cyfanswm*	
	Nifer	Canran	Nifer	Canran	Nifer	Canran
Oes	175	29%	245	49%	450	39%
Nac oes	430	71%	254	51%	713	61%
Cyfanswm	605	100%	499	100%	1,163	100%

**cynnwys rhai oedd wedi ateb ond heb nodi os oeddynt yn berchen ci ai peidio*

O'r 450 atebodd bod angen cyflwyno mwy o reolau, dyma'r rhai nodwyd eu bod yn dymuno boed hwy yn berchen ci neu beidio. Dengys **Tabl 21** yr ymateb.

ATODIAD 2

Tabl 21 : Rheolau ychwanegol y dylid eu cyflwyno

	Nifer	Canran
Rheol bod angen cadw ci ar dennyn drwy'r adeg (dim yn unig pan fo swyddog yn cyfarwyddo hynny)	317	70%
Rheol yn gosod cyfyngiad uchafswm ar nifer y cŵn o dan ofal un person ar unwaith	267	59%
Unrhyw reol arall o ran rheoli cŵn	193	43%

Holwyd yr ymatebwyr i ddarparu mwy o fanylion am y rheolau ychwanegol roeddynt yn dymuno eu gweld. Bu i 251 o'r ymatebwyr ateb y cwestiwn. Gweler eu hymateb yn **Nhabl 22**. Noder roedd gan rai ymatebwyr mwy nac un sylw i'w wneud.

ATODIAD 2

Tabl 22 : Rheolau ychwanegol y dylid eu cyflwyno – mwy o fanylion

	Nifer
Sicrhau bod cŵn ar dennyn ym mhob man cyhoeddus	99
Dylid cael ratio perchennog : ci	34
Rheol ar gyfer cŵn yn rhydd ar dir amaethyddol ble mae anifeiliaid eraill/bywyd natur	27
Angen addysgu perchnogion cŵn am y rheolau	17
Os am wahardd cŵn o'r manau nodedig, yna dylai bod gwell darpariaeth ar gyfer manau ble gellid mynd a chŵn yno	16
Gwahardd cŵn o draethau drwy'r flwyddyn	16
Gwahardd cŵn o lefydd cyhoeddus i gyd	16
Angen mwy o wardeiniaid cŵn/pwerau gan Gyngor Gwynedd	15
Gwella rheolaeth ar gŵn peryglus/mawr	14
Sicrhau na all cŵn ddianc o'u gerddi preifat/crwydro eu hunain ar y stryd	13
Pob ci i wisgo gorchudd ceg mewn manau cyhoeddus	12
Trwyddedu cŵn/Pasbort ar gyfer cŵn	11
Mwy o ddirwyon	9
Gwneud gadael bag baw ci yn unrhyw le (heblaw bin) yn anghyfreithlon	9
Rheolau sy'n edrych ar sut mae perchnogion cŵn yn trin eu hanifail	7
Gwahardd defnydd o dennyn hir	7
Rheol ar gyfer sŵn cyfarth uchel/cyson	6
Dylai pob ci gael "micro-chip"	6
System hawdd i allu adrodd am bobl yn torri rheolau	5
Gwneud cario bagiau baw ci yn orfodol i unrhyw berchennog ci	5
Dylai ci gael ei gymryd oddi wrth berchennog sydd wedi ei ddal yn torri rheolau'r gorchymyn sawl tro	3
Dylai pobl sydd yn bridio cŵn fynd ar gwrs mandadol	3
Ni ddylai cŵn gael eu gadael mewn ceir yn ystod yr haf	3
Dylai perchnogion ci dalu am yswiriant trydydd parti ar gyfer ymosodiadau gan eu cŵn	2
Dylai pob ci wisgo coler gyda manylion perchennog arno	2
Dylid cyflwyno clytiau ar gyfer cŵn mewn manau cyhoeddus	2
Gwneud ymosodiad gan gi yn drosedd	1
Dylid gwahardd cŵn o safleoedd sy'n gweini bwyd	1
Dylid dechrau sgrinio baw cŵn am DNA	1
Dylid cyflwyno treth ar fod yn berchen ci	1
"Name & Shame"	1
Ni ddylai unrhyw gi faeddu yn gyhoeddus	1
Stopio pobl gario bagiau baw ci o'u cartrefi i'r biniau baw ci cyhoeddus	1
Dylai cŵn fod ar dennyn os ydynt yn teithio mewn car	1

Holwyd y cwestiwn "Ydych chi'n teimlo bod unrhyw un o'r rheolau arfaethedig yn y GDMC drafft yn eich effeithio fel unigolyn oherwydd y canlynol oed, rhyw, anabled, hil, crefydd, cyfeiriadedd rhywiol?"

Bu i 393 ateb y cwestiwn o dan sylw, gan nodi'r sylwadau isod welir yn **Nhabl 23**. Eto roedd modd iddynt nodi mwy nac un sylwad.

ATODIAD 2

Tabl 23 : Effaith y rheolau arfaethedig yn y GDMC drafft ar nodweddion cydraddoldeb

	Nifer
Na - ddim yn meddwl bydd yn cael effaith ar grwpiau penodol	309
Anabledd	37
Oedran - teulu ifanc	28
Oedran - pobl hŷn	17
Perchennog ci	13
Bydd - ond heb nodi pam	4
Pobl sydd yn methu gyrru	3
Rhyw - merched	2
Feganiaid	1

Yn olaf holwyd oedd ganddynt unrhyw sylwadau pellach i'w wneud am yr ymgynghoriad. Bu i 266 nodi o leiaf un sylwad. Gweler yr ymatebion yn **Nhabl 24**.

ATODIAD 2

Tabl 24 : Unrhyw sylwadau pellach am yr ymgynghoriad

	Nifer
Gorchymyn yn syniad da - os gwnaiff bobl gydymffurfio a bod y rheolau yn cael eu gorfodi	70
Angen mwy o finiau baw cŵn/gwagio yn fwy aml/arwyddion o leoliad y biniau, a bagiau baw ci am ddim	40
Gwrthwynebu'r gorchymyn fel y mae - angen addasu cyfnod/oriau/eithriadau	39
Angen wardeiniaid cŵn i fod yn llawer mwy gweledol	37
Angen cyrsiau rheoli cŵn/addysgu pobl am y peryglon o beidio codi baw ci/gadael cŵn oddi ar eu tennyn	36
Angen erlyn/dirwyo'r rhai sydd yn mynd yn groes i'r rheolau gorchymyn	35
Os am wahardd cŵn o'r manau nodedig, yna dylai bod gwell darpariaeth ar gyfer manau ble gellid mynd a chŵn yno	17
Bydd y broblem yn gwaethygu efo cymaint o bobl yn prynu cŵn rŵan	13
Oes yna rywbeth yn mynd i gael ei wneud i reoli pobl yn llygru/gollwng sbwriel ar draethau?	10
Angen i'r Cyngor fod yn llawer mwy rhagweithiol	10
Cyfrifoldeb y perchnogion ydi'r cŵn - rhaid iddynt dderbyn cyfrifoldeb	10
Mae cŵn oddi ar eu tennyn yn broblem fawr o ran diogelwch eraill	7
Bydd y gorchymyn yma yn amharu ar dwristiaeth yn negyddol	7
Angen cyfarfod yn uniongyrchol mewn cymunedau i drafod y gorchymyn ac nid drwy holiadur – gorchymyn gwahanol i gymunedau gwahanol	6
Teimlo bod cwestiynau'r ymgynghoriad yn "arweiniol" ac yn dueddol o ffafrio'r rhai sydd eisieu gwahardd cŵn o bob man	6
Angen ail ddechrau'r angen i ddal trwydded i fod yn berchen ar gi	6
Mae angen taelo'r broblem o berchnogion cŵn yn gadael baw ci ar dir preifat/amaethyddol	3
Pam nad ydy'r gorchymyn yn delio gyda'r broblem o faw cŵn ar balmentydd	3
Angen cynnwys mwy o leoliadau yn y gorchymyn e.e. Gwarchodfeydd Natur, Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig	3
Dylai fod yna eithriad ar gyfer cŵn tywys/therapi/addysgol	3
Oes yna orchymyn yn mynd i fod ar gyfer ceffylau hefyd?	2
Angen gwneud defnydd o Deledu Cylch Cyfwng	2
Oes yna fersiwn symlach o'r gorchymyn i blant?	1
Sawl bin baw ci sydd yng Ngwynedd ar hyn o bryd?	1
Dylai pob ci gael "micro chip"	1
Ddim yn hoffi cŵn sydd wedi eu gadael ar dennyn tu allan i ddrysau siopau	1
Cyngor i ofyn i holl berchnogion cŵn gofrestru eu cŵn gyda'r Cyngor a thalu ffi flynyddol i ddigolledu'r Cyngor am ddarparu bagiau/biniau/gwaith glanhau	1

Canlyniadau y rhai sydd wedi ymateb fel Cynghorydd, Cyngor Cymuned / Tref neu sefydliad, grŵp neu fusnes

Bydd y darn nesaf o'r dadansoddiad yn edrych yn benodol ar ymatebion y rhai atebodd yr ymgynghoriad unai fel Cynghorydd, Cyngor Cymuned / Tref neu sefydliad, grŵp neu fusnes.

Mae **Tabl 25** yn dangos yr ymateb i'r gwahanol gynigion yn y Gorchymyn.

ATODIAD 2

Tabl 25 : Ymateb i'r gwahanol gynigion o'r Gorchymyn

	Cynghorwyr a Chyngor Cymuned / Tref*		Sefydliad, grŵp neu fusnes*	
	Cefnogi	Gwrthwynebu	Cefnogi	Gwrthwynebu
Tiroedd awyr agored cyhoeddus, ble mae arwydd 'Eithrio Cŵn'	18 (95%)	1 (5%)	16 (94%)	1 (6%)
Llefydd chwarae plant	19 (100%)	0 (0%)	16 (94%)	1 (6%)
Tiroedd hamdden ysgolion, sefydliadau addysg bellach a sefydliadau addysg uwch	18 (95%)	1 (5%)	15 (88%)	2 (12%)
Meysydd Chwarae	19 (100%)	0 (0%)	15 (88%)	2 (12%)
Cyfleusterau chwaraeon eraill	18 (95%)	1 (5%)	16 (94%)	1 (6%)

**ni fu i 1 allan o 20 Cynghorydd/Cyngor Cymuned/Tref ateb na 3 allan o'r 20 sefydliad/grŵp/fusnes ateb*

Gofynnwyd i'r ymatebwyr roi sylw pellach am wahardd cŵn o'r manau uchod a bu i 10 o'r Cynghorwyr/Cyngor Cymuned/Tref wneud sylw. Y sylw mwyaf poblogaidd oedd bod angen gwahardd cŵn o fannau chwaraeon ac unrhyw le ble mae plant a phobl ifanc yn ymweld a nhw gan fod baw cŵn ac ymddygiad cŵn yn gallu bod yn beryglus iawn. Sylw arall oedd y dylai cŵn fod ar dennyn mewn manau cyhoeddus.

Roedd y sefydliadau/grwpiau/busnesau fu i ymateb (12) yn cytuno gyda hyn ac hefyd yn awgrymu dylai bod gwell arwyddion yn dangos yn union lle sydd wedi ei wahardd ynghyd a bod angen darparu mwy o finiau baw cŵn a bagiau baw cŵn am ddim.

Holwyd hwy os oeddynt yn cefnogi neu wrthwynebu gwahardd cŵn o ardaloedd dynodedig ar y traethau nodwyd yn y Gorchymyn. Mae **Tabl 26** yn dangos yr ymatebion wedi eu rhannu rhwng Cynghorydd, Cyngor Cymuned / Tref neu sefydliad, grŵp neu fusnes.

Tabl 26 : A ydych chi'n cefnogi neu'n gwrthwynebu gwahardd cŵn o ardaloedd dynodedig ar y traethau nodwyd rhwng 1 Ebrill a 30 Medi?

	Cynghorwyr a Chyngor Cymuned / Tref*		Sefydliad, grŵp neu fusnes*	
	Nifer	Canran	Nifer	Canran
Cefnogi	18	100%	15	94%
Gwrthwynebu	0	0%	1	6%
Cyfanswm	18	100%	16	100%

**ni fu i 2 allan o 20 Cynghorydd/Cyngor Cymuned/Tref ateb na 4 allan o'r 20 sefydliad/grŵp/fusnes ateb*

Y prif sylwadau gafwyd eu gwneud am wahardd cŵn o ardaloedd dynodedig ar y traethau nodwyd rhwng 1 Ebrill a 30 Medi gan y 8 allan o 20 Cynghorwr/Cyngor Cymuned/Tref oedd y dylid gwneud yn siŵr bod y Gorchymyn yn cael ei orfodi a bod digon o wardeiniaid i wneud hyn. Roedd 2 allan o'r 8 wnaeth sylw yn credu na ddylai cŵn fod ar draethau lle mae plant yn chwarae a 2 arall yn dweud dylai cŵn (os yn cael) fod ar dennyn drwy'r amser ar draethau.

ATODIAD 2

Roedd y 3 allan o'r 20 wnaeth sylw fel sefydliad/grŵp/busnes yn nodi bod perchnogion cŵn sy'n gadael baw cŵn ar draethau yn hollol afiach, gyda un ohonynt yn credu na ddylid caniatáu cŵn ar draethau ar unrhyw adeg o'r flwyddyn.

Roedd cyfle iddynt nodi os oeddynt yn credu bod baw cŵn yn broblem yn eu hardal hwy. Mae **Tabl 27** yn dangos yr ymatebion wedi eu rhannu rhwng Cynghorydd, Cyngor Cymuned / Tref neu sefydliad, grŵp neu fusnes.

Tabl 27 : Ydi baw ci yn broblem yn eich ardal chi?

	Cynghorwyr a Chyngor Cymuned / Tref*		Sefydliad, grŵp neu fusnes*	
	Nifer	Canran	Nifer	Canran
Ydi	16	89%	15	94%
Nac ydi	2	11%	1	6%
Cyfanswm	18	100%	16	100%

**ni fu i 2 allan o 20 Cynghorydd/Cyngor Cymuned/Tref ateb na 4 allan o'r 20 sefydliad/grŵp/fusnes ateb*

Holwyd os oeddynt yn cefnogi neu wrthwynebu'r rheol bod rhaid i bobl lanhau ar ôl eu cŵn mewn mannau cyhoeddus. Dengys **Tabl 28** yr ymateb wedi ei rannu rhwng Cynghorydd, Cyngor Cymuned / Tref neu sefydliad, grŵp neu fusnes.

Tabl 28 : Ydych chi'n cefnogi neu'n gwrthwynebu rheol bod rhaid i bobl lanhau ar ôl eu ci mewn mannau cyhoeddus?

	Cynghorwyr a Chyngor Cymuned / Tref*		Sefydliad, grŵp neu fusnes*	
	Nifer	Canran	Nifer	Canran
Cefnogi	18	100%	16	100%
Gwrthwynebu	0	0%	0	0%
Cyfanswm	18	100%	16	100%

**ni fu i 2 allan o 20 Cynghorydd/Cyngor Cymuned/Tref ateb na 4 allan o'r 20 sefydliad/grŵp/fusnes ateb*

Y prif sylwadau gafwyd eu gwneud am lanhau ar ôl cŵn gan y 11 allan o 20 Cynghorwr/Cyngor Cymuned/Tref oedd bod angen darparu mwy o finiau baw cŵn a'u gwagio yn rheolaidd, darparu bagiau baw cŵn am ddim, bod angen mwy o wardeiniaid i orfodi'r rheolau a bod angen ymgyrch i geisio taclo'r broblem.

Roedd y 8 allan o'r 20 wnaeth sylw fel sefydliad/grŵp/busnes yn cytuno a'r sylw am finiau a bagiau baw cŵn ac hefyd yn amlygu bod angen gwneud gadael baw cŵn yn unrhyw le ar wahân i fin ei wneud yn anghyfreithlon.

Holwyd hwy os oeddynt yn cefnogi neu wrthwynebu'r rheol fyddai yn galluogi swyddog awdurdodedig ofyn i unrhyw un sydd yn gyfrifol am gi i'w roi ar dennyn. Dengys **Tabl 29** yr ymateb.

ATODIAD 2

Tabl 29 : Ydych chi'n cefnogi neu'n gwrthwynebu rheol yn galluogi swyddog awdurdodedig i ofyn i unrhyw un sy'n gyfrifol am gi i'w roi ar dennyn?

	Cynghorwyr a Chyngor Cymuned / Tref*		Sefydliad, grŵp neu fusnes*	
	Nifer	Canran	Nifer	Canran
Cefnogi	18	100%	14	100%
Gwrthwynebu	0	0%	0	0%
Cyfanswm	18	100%	14	100%

**ni fu i 2 allan o 20 Cynghorydd/Cyngor Cymuned/Tref ateb na 6 allan o'r 20 sefydliad/grŵp/fusnes ateb*

Y prif sylwadau gafwyd eu gwneud am lanhau ar ôl cŵn gan y 7 allan o 20 Cynghorwr/Cyngor Cymuned/Tref oedd y dylai cŵn fod ar dennyn pob amser mewn llefydd cyhoeddus heb i swyddog awdurdodedig gyfarwyddo nhw i wneud - gan nad oes gan bawb reolaeth dros eu cŵn.

Roedd y 5 allan o'r 20 wnaeth sylw fel sefydliad/grŵp/busnes hefyd yn cytuno efo'r sylwad uchod gan hefyd nodi y dylai unrhyw warden fod yn hyfforddedig ac yn ddiuedd.

Holwyd hwy os oeddynt yn teimlo y dylid cyflwyno unrhyw reolau eraill fel rhan o'r gorchymyn. Dengys **Tabl 30** yr ymateb.

Tabl 30 : Ydych chi'n teimlo bod angen cyflwyno unrhyw reol neu reolau eraill i'r GDMC o ran rheoli cŵn?

	Cynghorwyr a Chyngor Cymuned / Tref*		Sefydliad, grŵp neu fusnes*	
	Nifer	Canran	Nifer	Canran
Oes	11	61%	4	29%
Nac Oes	7	39%	10	71%
Cyfanswm	18	100%	14	100%

**ni fu i 2 allan o 20 Cynghorydd/Cyngor Cymuned/Tref ateb na 6 allan o'r 20 sefydliad/grŵp/fusnes ateb*

Rheolau ychwanegol gafwyd eu crybwyll gan y 5 allan o 20 Cynghorwr/Cyngor Cymuned/Tref oedd:

- Sicrhau bod cŵn ar dennyn pob amser mewn mannau cyhoeddus
- Rheol ar gyfer rheoli sŵn cyfarth uchel/cyson
- Gwahardd cŵn oddi ar draethau drwy'r flwyddyn
- Dylid cael cymhareb perchennog : cŵn
- Rheol am gŵn yn crwydro strydoedd eu hunain

Rheolau ychwanegol gafwyd eu crybwyll gan y 2 allan o 20 Cynghorwr/Cyngor Cymuned/Tref oedd:

- Rheol ar wahardd cŵn oddi ar dir amaethyddol
- Sicrhau bod cŵn ar dennyn pob amser mewn mannau cyhoeddus
- Pob ci i wisgo gorchudd ceg mewn mannau cyhoeddus

Roedd cyfle i wneud unrhyw sylwadau pellach, ac ar wahân i'r hyn sydd wedi nodi eisoes fel sylwadau bu i un sefydliad/grŵp/busnes nodi y byddai'r Gorchymyn yn cael effaith negyddol ar dwristiaeth.

ATODIAD 2

Atodiad A : Rhestr o'r rhanddeiliaid

1. Heddlu:
 - a. Prif Swyddog Heddlu Gogledd Cymru
 - b. Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru
2. Adrannau a chwmnïau perthnasol y Cyngor:
 - a. Addysg
 - b. Amgylchedd
 - c. Economi a Chymuned (yn benodol Morwrol, Parciau)
 - d. Tai ac Eiddo
 - e. Byw'n Iach cyf
3. Aelodau'r Cyngor
4. Cyngorau Cymuned a Thref/Dinas y sir (drwy law y Clerc)
5. Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
6. Sector addysg:
 - a. Penaethiaid ysgolion y sir
 - b. Grŵp Llandrillo Menai
 - c. Prifysgol Bangor
7. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
8. Deiliaid tiroedd o bwys:
 - a. Ymddiriedolaeth Genedlaethol
 - b. CADW
 - c. ADRA
 - d. Dŵr Cymru
 - e. First Hydro
 - f. Cyfoeth Naturiol Cymru
 - g. Stâd y Goron
9. Mudiadau perchnogion cŵn:
 - a. Kennel Club
 - b. Dogs for the Disabled
 - c. Support Dogs
 - d. Canine Pets for Independence
 - e. Dogs Trust
10. Mudiadau awyr agored:
 - a. The Ramblers
 - b. Clwb Mynydda Cymru
11. Mudiadau sifig/cymunedol e.e. Cymdeithas Ddinesig Bangor
12. Esgobaethau Bangor a Llanelwy, Yr Eglwys yng Nghymru (mynwentydd ayyb)
13. Fforwm Mynediad Cenedlaethol i Gymru
14. Fforymau Mynediad Lleol
15. Cadwch Gymru'n Daclus

Atodiad B : E-byst dderbyniwyd

Dogs Trust

Thank you for making Dogs Trust aware that Gwynedd Council is planning to introduce a series of Public Space Protection Orders. As the UK's largest dog welfare charity, we would like to make some comments for consideration.

Dogs Trust's Comments

1. Re; Fouling of Land by Dogs Order:

- Dogs Trust consider 'scooping the poop' to be an integral element of responsible dog ownership and would fully support a well-implemented order on fouling. We urge the Council to enforce any such order rigorously. In order to maximise compliance we urge the Council to consider whether an adequate number of disposal points have been provided for responsible owners to use, to consider providing free disposal bags and to ensure that there is sufficient signage in place.

2. Re; Dog Exclusion Order:

- Dogs Trust accepts that there are some areas where it is desirable that dogs should be excluded, such as children's play areas, however we would recommend that exclusion areas are kept to a minimum and that, for enforcement reasons, they are restricted to enclosed areas. We would consider it more difficult to enforce an exclusion order in areas that lack clear boundaries.
- Dogs Trust would highlight the need to provide plenty of signage to direct owners to alternative areas nearby in which to exercise dogs.

3. Re; Dog Exclusion Order and beaches:

- With phone calls often being made to the RSPCA and Police alerting to dogs being left in hot cars in coastal areas, we would urge you to consider the danger animals may be put in, and the difficult decisions owners have to make, by not being allowed to take their dogs onto the beach.
- If the Council does choose to implement this order, Dogs Trust would encourage looking into a compromise between beach goers and dog owners, e.g. allowing dogs onto the beach in the evenings or early mornings, or having dog friendly sections on the beaches.
- Strict dog exclusion restrictions can also lead to a decrease in dog friendly tourism for businesses along the coast, which in turn could have a negative impact on the local economy.

4. Re; Dog Exclusion and sport pitches

- Excluding dogs from areas that are not enclosed could pose enforcement problems - we would consider it more difficult to enforce an exclusion order in areas that lack clear boundaries.
- We feel that exclusion zones should be kept to a minimum, and that excluding dogs from all sports pitches for long stretches of the year is unnecessary. In some cases sports pitches may account for a large part of the open space available in a public park, and therefore excluding dogs could significantly reduce available dog walking space for owners.
- We would urge the Council to consider focusing its efforts on reducing dog fouling in these areas, rather than excluding dogs entirely, with adequate provision of bins and provision of free disposal bags

5. Re; Dogs on Lead by Direction Order:

ATODIAD 2

- *Dogs Trust enthusiastically support Dogs on Leads by Direction orders (for dogs that are considered to be out of control or causing alarm or distress to members of the public to be put on and kept on a lead when directed to do so by an authorised official).*
- *We consider that this order is by far the most useful, other than the fouling order, because it allows enforcement officers to target the owners of dogs that are allowing them to cause a nuisance without restricting the responsible owner and their dog. As none of the other orders, less fouling, are likely to be effective without proper enforcement we would be content if the others were dropped in favour of this order.*

The PDSA’s [‘Paw Report 2018’](#) found that 89% of veterinary professionals believe that the welfare of dogs will suffer if owners are banned from walking their dogs in public spaces such as parks and beaches, or if dogs are required to be kept on leads in these spaces. Their report also states that 78% of owners rely on these types of spaces to walk their dog.

I would also like to bring your attention to the similar recommendations stated in the Government’s [‘Anti-social behaviour powers -Statutory guidance for frontline professionals’](#) document, pages 52/53.

We believe that the vast majority of dog owners are responsible, and that the majority of dogs are well behaved. In recognition of this, we would encourage local authorities to exercise its power to issue Community Protection Notices, targeting irresponsible owners and proactively addressing anti-social behaviours.

Dogs Trust works with local authorities across the UK to help promote responsible dog ownership. Please do not hesitate to contact should you wish to discuss this matter.

We would be very grateful if you could inform us of the consultation outcome and subsequent decisions made in relation to the Public Space Protection Order.

Mynwent Capel MC Caeathro

Ym mhellach i'm ymateb i'r ymgynhoriad dymunaf ychwanegu mynwentydd at y rhestr a fannau di-cwn.

Unigolyn

Can you help, why are dogs banned from buses in your council, this is appalling.

Unigolyn

I have filled out the questionnaire on the dog control orders but I have a query concerning Tywyn beach.

The majority of the maps included have a time period i.e. 1st April to 30th of September where dogs are excluded from part of the beach.

The Tywyn map does not have this data, please can you clarify that the exclusion will only be in the summer month ?

ATODIAD 2

Unigolyn

Yr wyf ar ddeall eich bod yn adolygu gorchymyn rheoli cwn ac yn gofyn am sylwadau y cyhoedd. Hoffwn wneud sylwadau ar un ardal arbening ym Mhwillheli sydd o bosib yn berthnasol i lawer man arall o fewn y sir. Yn gyntaf oll hoffwn egluro fy mod yn berchen ar gi fy hunan ac wedi bod am flynyddoedd maith, ac yn cymeryd fy hun fel un cyfrifol drwy brofiad. Yr wyf wedi byw ar y Prom ym Mhwillheli ers dros hanner can mlynedd ac felly yn ymwybodol o beth sydd yn cymeryd lle yma. Dros y blynyddoedd ychydig iawn o gwn oedd yn cael eu cerdded yma, efallai rhyw dri neu bedwar mewn diwrnod, ond yn y bedair i bum mlynedd diweddfaf mae hyn wedi cynyddu yn sylweddol. Yn awr mae cael ci fel anifal anwes yn boblogaidd iawn, sydd wrth reswm yn beth da iawn, ac oherwydd y cynydd yma teimlaf fod angen newid gormynion yn y cynllun gwreiddiol. Heb gyfrif manwl mi faswn yn tybio fod yna tua hanner cant o gwn yn troedio yr ardal yma yn ddyddiol, ac yn cynyddu yn sylweddol yn ystod tymor yr ymwelwyr. Mae y Prom wedi datblygu yn ardal boblogaidd iawn yn Pwllheli, os nad y mwyaf boblogaidd, cerddwyr, rhedwyr, beicwyr heb son am y cerbydau a teg ydyw ceisio sicrhau fod anghenion yr oll yn cael yr un sylw a mantais. Felly mae yn hynod bwisig fod yr ardal yn cael ei chadw yn lan o faw ci, a sicrhau nad ydyw y cwn yn ymyrd a mwyniant gweddill o'r cyhoedd, yn enwedi yr henoed a'r methiedig. Y ffordd mwyaf addas i sicrhau hyn ydyw mynu bod y cwn sydd yn cael eu cerdded ar balmentydd yr ardal yma yn cael eu tywysu ar denyn yr hyn sydd eisioes yn digwydd gan berchenogion cyfrifol, ond yn anffortunos dim pawb sydd yn gweld yr angen, y rhai sydd yn gadael i'w cwn redeg yn wyll ar ol peli ac ati, rhai hefyd yn ymosod ar gwn eraill, ac mae yn rhaid cymeryd i ystyriaeth y bobl sydd yn ofnus o gwn a'r rhai hynny sydd ddim mwyach mor heini i allu symud o'r ffordd. Hefyd ynglyn a'r broblem o faw cwn, mae y rhan fwyaf yn gyfrifol ond serch hynny mae yna broblem sydd yn cael ei achosi gan y lleiafrif, a dyma beth sydd yn creu y boendod. Yr hyn a sylwaf ydyw mai y cwn sydd ddim ar denyn sydd yn creu y broblem, mae y perchenogion/tywyswyr hyn cerdded fedrau o'u blaen heb gymeryd y trafferth i sylwi beth sydd yn digwydd y tu ol iddynt yn hollol ddifater ac felly ddim yn codi'r baw. Pe buasai yn orfodol i bob ci fod ar denyn credaf y buasai y broblem yn cael ei dileu a thrwy hyn yn saffach a iachach i bawb sydd yn mynychu y rhan yma o'r dref. Oherwydd cynydd sylweddol yn nifer y cwn tydi y rheolau presenol o orchymyn y swyddog i roddi ci ar denyn ym mhell o fod yn ddigonol. ac ni fuasai neb cyfrifol yn gwrthwynebu newid rheol o'r fath a chadw y ci/cwn ar denyn drwy yr amser. Hir wyntog efallai, ond yn saff mi wn beth ydyw y broblem drwy ei gweld yn ddyddiol.

Unigolyn

Ychydig sylwadau ar y drafft.

1. *“Llefydd awyr agored cyhoeddus, lle mae arwydd ‘Ardal Eithrio Cŵn’ wrth y fynedfa”*

Mae hwn i weld yn annelwig iawn. A fydd arwyddion yn cael eu gosod mewn manau sydd ddim yn cael eu rhestru yn y drafft? Os felly pwy fydd yn penderfynu pa fannau fydd yn gaeedig i gwn a'u perchnogion?

2. *“Tiroedd ysgol, coleg a phrifysgol”*

Yn fy marn i mae hyn i weld yn eithafol a gormodol. Mae'r Brifysgol a Grŵp Llandrillo yn berchen LOT o dir, a gall hyn gael canlyniadau anfwriadol sylweddol. Er enghraifft, rhai sgil effeithiau posibl o'r

ATODIAD 2

geiriad yma fydd gwahardd cwn o e.e.. Parc y Brifysgol, Llwybr yr Arfordir (Treborth) a Pharc Glynllifon (croesi tir y Coleg)! A'i dyna ydi'r bwriad?

3. *"Cyfleusterau chwaraeon eraill"*

Unwaith eto dwi'n teimlo fod y geiriad yn annelwig iawn ac yn agored i gael eu dehongli mewn nifer o ffyrdd.

Does gennyf ddim gwrthwynebiad o gwbl i'r bwriad o ddiweddarau'r Gorchymyn, ond dwi'n amheus iawn o'r geiriad a'r posibilrwydd o "over reach". Rhaid cofio bod nifer o lwybrau cyhoeddus Gwynedd yn aml yn achlysurol gyfochrog a "cyfleusterau chwaraeon" a gall gorchymyn llym arwain i sgil effeithiau anfwriadol. Dwi hefyd yn bryderus am yr effaith gall hyn gael ar yr henoed ac yr anabl. Os ydym yn creu sefyllfa lle na dim ond pobol "holliach" gall fynd a'i ci am dro i fan arbennig mae'n bosib fydd hyn yn groes i'r Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Rhywbeth i feddwl amdano beth bynnag.

Unigolyn

Thank you for sending the information. I think there is a spelling error on the Consultation Document, 3 (b) states "receptable" I don't think there is such a word? Do you mean receptacle?

Aseiad Effaith Cydraddoldeb

Gweler y daflen *Sut i Wneud Aseiad Effaith Cydraddoldeb* am gymorth i lenwi'r ffurflen yma. Mae croeso hefyd i chi gysylltu gyda Delyth Williams, Swyddog Polisi a Chydraddoldeb ar est 32708, neu DelythGadlysWilliams@gwynedd.llyw.cymru, am gymorth pellach.

Mae'n ofynnol i'r Cyngor (dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010) i ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb gwarchoddedig. Mae gan y Cyngor hefyd ddyletswyddau cyffredinol ychwanegol i sicrhau tegwch a meithrin perthnasau da. Rhaid felly gwneud Aseiad Effaith Cydraddoldeb amserol cyn gwneud penderfyniad ar unrhyw newid perthnasol (h.y. sy'n cael effaith ar bobl hefo nodwedd gwarchoddedig).

I Manylion

I.1 Beth yw enw'r polisi / gwasanaeth dan sylw?

Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus (GDMC) mewn perthynas â rheoli cŵn ledled y Sir.

I.2 Beth ydi pwrpas y polisi/gwasanaeth sy'n cael ei greu neu ei newid? Pa newidiadau sy'n cael eu hystyried?

Disodlwyd y sail gyfreithiol ar gyfer Gorchymynion Rheoli Cŵn gwreiddiol y Cyngor gan ddeddfwriaeth fwy diweddar sy'n golygu bod angen datblygu Gorchymynion Diogelu Mannau Cyhoeddus ar gyfer Rheoli Cŵn o'r newydd.

Roedd Gorchymynion Rheoli Cŵn 2013 yn ymwneud ag atal baeddu cŵn, gwahardd cŵn o rai ardaloedd sensitif fel caeau chwarae, cyfleusterau chwaraeon gyda chyfyngiadau tymhorol ar rai traethau ymdrochi a'r gofyniad am gŵn ar dennyn o dan gyfarwyddyd swyddog awdurdodedig.

I.3 Pwy sy'n gyfrifol am yr aseiad yma?

Steffan Jones, Pennaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol

I.4 Pryd wnaethoch chi gychwyn yr aseiad? Pa fersiwn yw hwn?

1 - 01/04/2021 – fersiwn cyntaf.
2 - 07/07/2021 – wedi'i diweddarau

ATODIAD 3

2) Gweithredu

2.1 Pwy yw'r partneriaid fydd yn rhaid gweithio hefo nhw i wneud yr asesiad yma?

Pobl Gwynedd
Staff y Cyngor
Yr Heddlu
Cadwch Gymru Daclus (Faner Las)
Cymdeithas y Deillion Gogledd Cymru
Assistance Dogs UK
Dogs Trust
Kennel Club
Fforwm Mynediad

2.2 Pa gamau ydych chi wedi ei gymryd i ymgysylltu gyda pobl hefo nodweddion gwarchoddedig?

Rhaid i'r Awdurdod Lleol gynnal ymgynghoriad cyhoeddus ynglŷn â'r Gorchymyn Arfaethedig, a bydd angen i hwn fod yn ei le am 28 diwrnod yn dilyn yr etholiad i Senedd Cymru ar 6 Mai 2021.

2.3 Beth oedd canlyniad yr ymgysylltu?

Derbyniwyd cyfanswm o 1,324 o ymatebion i'r holiadur. Yn ogystal, derbyniwyd cyfanswm o 7 ebost neu neges arwahan yn mynegi barn ar yr ymgynghoriad.

At ei gilydd, roedd mwyafrif clir o'r ymatebion a ddaeth i law drwy'r holiadur yn gefnogol o gynnwys y Gorchymyn Arfaethedig fel y mae. Nid oedd consensws o blaid ehangu sgôp y GDMC i gynnwys rheolau ychwanegol.

Mae adroddiad manwl o'r ymateb a ddaeth i law o'r ymgynghoriad wedi ei gynnwys yn Atodiad 2.

2.4 Ar sail pa dystiolaeth arall ydych chi'n gweithredu?

- Mae nifer y cwynion am effaith baeddu cŵn wedi bod yn cynyddu'n lleol ac mae pryderon o'r fath yn cael eu hadlewyrchu yn y cyfryngau cenedlaethol.
- Mae effaith y pandemig presennol wedi cyfrannu at waethygu'r sefyllfa bresennol. Mae mwy o gŵn yn cael eu cerdded yn amlach ac mae cynnydd sylweddol ym mherchnogaeth cŵn wedi cael ei adrodd yn eang.
- Gall rhai grwpiau, fel plant, y rhai â nam ar eu golwg a defnyddwyr cadeiriau olwyn fod yn fwy agored i gyswllt damweiniol â baw cŵn a'r pathogenau (e.e. tocsocariasis) y gallai eu cynnwys.

ATODIAD 3

2.5 Oes yna unrhyw flychau yn y dystiolaeth sydd angen ei gasglu?

Ma e adroddiad manwl o'r ymateb a ddaeth i law o'r ymgynghoriad wedi ei gynnwys yn Atodiad 2.

3) Adnabod yr Effaith

3.1 Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r effaith fydd unrhyw newidiadau'n ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb isod. Beth yw'r effaith fydd y polisi neu wasanaeth newydd neu'r newidiadau arfaethedig yn ei gael ar bobl hefo'r nodweddion hyn? Mae croeso i chwi ychwanegu nodweddion eraill os ydych chi'n dymuno.

Nodweddion	Sut fath o effaith? *	Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth?
Hil (gan gynnwys cenedligrwydd)	Dim	Nid oes effaith wedi ei adnabod o'r ymgynghoriad na fel arall.
Yr iaith Gymraeg	Dim	Nid oes effaith wedi ei adnabod o'r ymgynghoriad na fel arall.
Anabledd	Negyddol a Positif	<p>Codwyd pryderon o ran anabledd. Mae atebion yr ymgynghoriad i'r cwestiwn am nodweddion penodol yn awgrymu y byddai'r gorchymyn yn cael effaith ar bobl anabl (37 ateb).</p> <p>Yn benodol, codwyd pryderon am fynediad pobl anabl at fannau heb waharddiadau ar draethau neu am fethu mynd â'r ci am dro yn lleol os oedd mwy o lefydd yn cael eu gwahardd. Roedd rhai yn nodi anghenion ieuchyd meddwl pobl anabl i allu mynd allan gyda'u cŵn a'r angen i sicrhau nad oedd cyfyngiadau pellach yn effeithio ar hynny. "I have a disability and the dog nudging me to take her for a walk forces me to go out, so yes i feel that it would effect us unfairly". Nodwyd fod hyn yn effeithio ar ofalwyr. Nodwyd yn ychwanegol broblemau i'r rhai sy'n methu gyrru am unrhyw reswm, gan gynnwys anabledd.</p> <p>Gall pathogenau (e.e. tocsocariasis) o faw cŵn effeithio rhai pobl hefo cyflyrau penodol yn waeth.</p>

ATODIAD 3

		<p>Roedd eraill yn dweud y byddai'r GDMC yn bositif i bobl anabl er mwyn datrys problemau baw ci a diogelwch.</p> <p>Mae'r rheol gwahardd cŵn yn cynnwys eithriad arbennig i unrhyw berson –</p> <ul style="list-style-type: none"> (a) sydd wedi ei gofrestru fel person dall; (b) sydd yn fyddar, mewn perthynas â chi wedi ei hyfforddi gan Hearing Dogs for Deaf People ac y mae'r person hwnnw yn dibynnu arno am gymorth; neu (c) sydd ag anabledd sydd yn effeithio ar ei symudedd, ei ddehurwydd llaw, ei gydlynedd corfforol neu ei allu i godi, i gario, neu symud fel arall teclynnau pob dydd, mewn perthynas â chi a hyfforddwyd gan elusen a nodir yn y Gorchymyn ac y mae'r person hwnnw yn dibynnu arno am gymorth. <p>Yn ogystal mae'r rheol bod gofyn clirio baw ci yn cynnwys eithriad arbennig i unrhyw berson -</p> <ul style="list-style-type: none"> (a) sydd wedi ei gofrestru fel person dall; neu (b) sydd ag anabledd sydd yn effeithio ar ei symudedd, ei ddehurwydd llaw, ei gydlynedd corfforol neu ei allu i godi, i gario, neu symud fel arall teclynnau pob dydd, mewn perthynas â chi a hyfforddwyd gan elusen a nodir yn y Gorchymyn ac y mae'r person hwnnw yn dibynnu arno am gymorth. <p>Yn yr amgylchiadau, ceir darpariaeth briodol i sicrhau na fyddai pobl anabl dan anfantais o ganlyniad i'r GDMC. Ystyrir bod y risg o bobl anabl yn methu â chael mynediad i draethau neu leoliad penodol o ganlyniad i'r GDMC wedi ei leihau i'r eithaf. Er hynny, buasai'r Cyngor yn fodlon ymchwilio unrhyw anawsterau mynediad penodol ar draethau a chywiro'r rhain ble'n ymarferol. Mae angen pwysleisio bod ddim bwriad i ymestyn maint y parthau gwahardd hanesyddol, na chynyddu'r nifer.</p>
<p>Rhyw</p>	<p>Negyddol</p>	<p>Yn y cwestiwn am nodweddion penodol mae 2 fenyw wedi nodi fod angen sicrhau nad yw'r gwaharddiadau yn golygu fod yn rhaid i ferched gerdded eu cŵn mewn ardaloedd unig.</p> <p>Nid bwriad y gorchymyn ydi atal cŵn a'i pherchenogion o fynediad i unrhyw hawliau tramwy cyhoeddus.</p>

ATODIAD 3

		<p>Roedd 4 sylw yn ymwneud â theluoedd un rhiant a'r broblem o fynd â'r plant a'r ci am dro a chael mynediad at fannau chwarae. Mae ystadegau'n dangos fod y mwyafrif llethol o deuluoedd un rhiant gyda benyw fel penteulu felly mae hynny am effeithio merched yn fwyaf.</p> <p>Mae ystadegau'n dangos fod merched hefyd yn dueddol o fod â mwy o gyfrifoldebau gofalu na dynion, am oedolion a phlant, felly mi fydd unrhyw sylwadau sy'n ymddangos yn y rhan am deuluoedd ifanc o dan oedran ac am ofalwyr yn gyffredinol yn berthnasol yma.</p> <p>Pwrpas y gwaharddiadau mewn mannau chwarae ydi i ddiogelu plant a phobl ifanc rhag niwed. Nid yn unig yw'r effaith annifyr o weld baw cŵn yn broblem, ond hefyd y problemau afiechyd sy'n gysylltiedig ag ef, e.e. mae tocsocariasis yn gallu arwain at ddallineb.</p>
<p>Oedran</p>	<p>Positif a negyddol</p>	<p>Mae dwy garfan yn cael eu heffeithio'n benodol yma.</p> <p>Teuluoedd ifanc a phlant:</p> <p>Mae'r rhan fwyaf o'r rhai sydd wedi ymateb i'r cwestiwn cydraddoldeb penodol ac wedi sôn am oedran wedi nodi problemau i deuluoedd hefo plant ifanc sydd angen mynd â'r plant â'r ci allan yr un pryd yn enwedig i'r parc. Mae un person yn dweud "Feels like I am being restricted rather than the council taking enforcement action against dog owners that breach dog fouling rules."</p> <p>Eto, pwrpas y gwaharddiadau mewn mannau chwarae ydi i ddiogelu plant a phobl ifanc rhag niwed ac afiechyd.</p> <p>Mae un ymatebydd wedi nod fod peidio gadael i gi fod o fewn 2 fetr o fan chwarae yn afresymol a byddai'n syniad cael lle dynodedig, oddi wrth y giât, i glymu ci yn saff. Un arall yn cynnig y dylid cael sedd i rieni tu allan i'r cae chwarae i wyllo'r plant. Un person wedi dweud "As a parent I find some of the exclusion zones exclude me from supporting my family in their sporting activities".</p> <p>Mae'r cyfyngiad 2 medr ond yn berthnasol i gaeau chwaraeon (e.e. lleiniau rygbi a phêl droed) a ddim yn effeithio ar gyffiniau caeau chwarae plant.</p> <p>Mae ymweliadau i'r traeth hefyd wedi cael sylw.</p> <p>Roedd sylwadau hefyd yn nodi y byddai'r gwaharddiadau yn bositif oherwydd problemau baw ci, diogelwch (cŵn oddi</p>

ATODIAD 3

		<p>ar dennyn) a bod rhai plant ofn cŵn, gyda dau yn sôn am blentyn yn rhedeg i'r lôn i osgoi ci.</p> <p>Mae'r Cyngor yn bwriadu cynnal Arolwg Digonolrwydd Chwarae statudol ble fydd cyfle i ystyried anghenion plant a rhieni.</p> <p>Pobl hŷn:</p> <p>Mae pobl hŷn yn ystadegol fwy tueddol o fod ag anawsterau symudedd ayb felly mae rhai o'r sylwadau ar anabledd am fod yn berthnasol.</p> <p>Mae nifer o'r ymatebion i'r cwestiwn ar nodweddion cydraddoldeb yn sôn fod perchen ci yn cael effaith positif ar iechyd meddwl ac iechyd corfforol pobl hŷn a sut y byddai cyfyngiadau pellach yn cael effaith ar hynny. Rhai yn sôn am yr angen i allu cerdded ci yn lleol: "preventing people exercising their dog on local beaches could discriminate ... elderly dog owners living near these beaches who cannot drive or access an alternative.</p> <p>Mae un taid wedi nodi y byddai gwaharddiadau pellach yn creu problemau wrth fynd â'r wyrion am dro. Mae un arall wedi dweud fod baw cŵn yn broblem a byddai'n haws mynd â'r wyrion am dro.</p> <p>Mae'r sylw sy'n nodi'r angen i bwysleisio bod ddim bwriad i ymestyn maint y parthau hanesyddol, na chynyddu'r nifer yn berthnasol yma.</p> <p>Roedd gan rhai pobl hyn pryderon bod cŵn oddi ar dennyn yn gallu fod yn beryglus a bwriad yr hawl yn y gorchymyn i gyfarwyddo perchennog i roi ci afreolus ar dennyn ydi i helpu lliniaru'r sefyllfa yma.</p> <p>Toxicara</p> <p>Mae nifer o gŵn wedi'u heintio gyda pharasitiaid sydd yn gallu achosi niwed i bobl, yn enwedig plant a phobl fregus. Mae Tocsocariasis yn afiechyd sydd yn cael ei achosi gan wyau o fwydyn Toxicara sydd yn cael ei drosglwyddo o gŵn i bobl drwy wastraff cŵn neu bridd heintus. Gall yr haint arwain at salwch a hyd yn oed dallineb.</p>
Cyfeiriadedd rhywiol	-	Nid oes effaith wedi ei adnabod
Crefydd neu gred (neu ddiffyg cred)	-	Nid oes effaith wedi ei adnabod

ATODIAD 3

Ailbennu rhywedd	-	Nid oes effaith wedi ei adnabod
Beichiogrwydd a mamolaeth	Positif	Nid oes unrhyw sylwadau ychwanegol wedi eu gwneud ar sail beichiogrwydd a mamolaeth heb law am y rhai sydd i'w gweld dan blant a theuluoedd ifanc yn y nodwedd Oedran. Yn gyffredinol, mae tocsocariasis yn fwy cyffredin mewn plant ifanc ac oedolion.
Priodas a phartneriaeth sifil	-	Nid oes effaith wedi ei adnabod

* Dileu yn ôl y gofyn

3.2 Mae'n ddyletswydd ar y Cyngor dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 i gyfrannu'n bositif i gymdeithas decach trwy hybu cydraddoldeb a pherthynas dda yn ei weithgareddau ym meysydd oedran, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd, hil, trawsrywedd, anabledd a beichiogrwydd a mamolaeth. Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r ffordd mae unrhyw newid yn effeithio'r dyletswyddau yma.

Dyletswyddau Cyffredinol y Ddeddf Cydraddoldeb	A yw'n cael effaith?*	Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth?
Cael gwared â cham-wahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth	Ydi	Mae'r mater o fynediad, yn enwedig at draethau, wedi cael ystyriaeth yn 3.1
Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal	Ydi	Cyfle cyfartal i blant gael lle addas i chwarae, ac i ddefnyddwyr cadair olwyn mewn amgylchedd glan a diogel
Meithrin perthnasau da	Dim	Nid oes effaith wedi ei adnabod

ATODIAD 3

Dyletswydd Economaidd Gymdeithasol	Ydi	Mae amgylchedd glan a diogel yn fuddiol i les yr economi.
---	-----	---

* Dileu yn ôl y gofyn

4) Dadansoddi'r canlyniadau

4.1 Ydi'r polisi felly'n debygol o gael effaith sylweddol, bositif ar unrhyw un o'r nodweddion cydraddoldeb neu'r Ddyletswydd Gyffredinol? Beth yw'r rheswm am hyn?

Nodwyd effeithiau iechyd cadarnhaol, yn enwedig i blant, gydag amgylchedd glân a diogel i bawb.

4.2 Ydi'r polisi felly'n debygol o gael effaith sylweddol, negyddol ar unrhyw un o'r nodweddion cydraddoldeb neu'r Ddyletswydd Gyffredinol? Beth yw'r rheswm am hyn?

Nid yw'r ymgynghoriad wedi adnabod unrhyw effaith sylweddol negyddol.

4.3 Beth ddylid ei wneud?

Dewiswch un o'r canlynol:

Parhau gyda'r polisi / gwasanaeth gan ei fod yn gadarn	X
--	----------

ATODIAD 3

Addasu'r polisi i ddileu unrhyw rwystrau	
Atal a dileu'r polisi gan fod yr effeithiau niweidiol yn rhy fawr	
Parhau a'r polisi oherwydd gellir cyfiawnhau unrhyw effaith niweidiol	
Parhau hefo'r ymgynghoriad er mwyn casglu mwy o wybodaeth	

4.4 Os yn parhau hefo'r cynllun, pa gamau fyddwch chi'n cymryd i leihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol?

Mae unrhyw effeithiau negyddol sydd wedi cael eu hamlygu yn ystod yr ymgynghoriad wedi cael ystyriaeth fanwl yn rhan 3.1.

4.5 Os nad ydych yn gweithredu ymhellach i ddileu neu leihau effeithiau negyddol, esboniwch pam yma.

Dim yn berthnasol

5) Monitro

5.1 Pa gamau fyddwch chi'n gymryd i fonitro effaith ac effeithiolrwydd y polisi neu wasanaeth (cynllun gweithredu)?

Defnydd o systemau gofal cwsmer y Cyngor (Ffos) ble fydd unrhyw gwynion ac ymholiadau ynglŷn â'r polisi yn cael ei gofnodi, ynghyd a chofnod o unrhyw weithred ddilynol a datrysiadau.

Gwireddu - Bydd cynllun gweithredu yn sicrhau bod y trefniadau gweithredol newydd mewn lle yn amserol

Bydd y nifer o ymyriadau gorfodaeth ar gyfer diffyg cydymffurfio a'r polisi yn cael ei gofnodi.